

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, P Gareth Williams
a fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 25 Medi 2023 0300 200 6565
Amser: 13.15 SeneddDCC@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (13.15)

2 Bil Seilwaith (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

(13.15 – 14.30)

(Tudalennau 1 – 159)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Neil Hemington, Prif Gynllunydd, Llywodraeth Cymru

Owen Struthers, Pennaeth Cydsynio Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Nicholas Webb, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

LJC(6)-25-23 – Papur 1 – Papur Briffio [Saesneg yn unig]

LJC(6)-25-23 – Papur 2 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023

LJC(6)-25-23 – Papur 3 – Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Gorffennaf 2023

LJC(6)-25-23 – Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 12 Mehefin 2023

LJC(6)-25-23 – Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd:
Datganiad ar fwriad polisi, 1 Medi 2023

Egwyl

(14.30 – 14.35)



3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

(14.35 – 14.40)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

3.1 SL(6)379 – Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Diwygio) (Cymru) 2023

(Tudalennau 160 – 161)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-25-23 – Papur 6 – Adroddiad drafft

3.2 SL(6)380 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023

(Tudalennau 162 – 173)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-25-23 – Papur 7 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

3.3 SL(6)381 – Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymediol) (Cymru) 2023

(Tudalennau 174 – 176)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-25-23 – Papur 8 – Adroddiad drafft

4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.40 – 14.45)

4.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a'r Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(Tudalennau 177 – 178)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-25-23 – Papur 9 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a'r Gweinidog Newid Hinsawdd, 20 Medi 2023 [Saesneg yn unig]

5 Papurau i'w nodi

(14.45 – 14.50)

5.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Deddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Lleiaf) 2023

(Tudalennau 179 – 182)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-25-23 – Papur 10 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Medi 2023 [Saesneg yn unig]

5.2 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

(Tudalennau 183 – 184)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-25-23 – Papur 11 – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd, 21 Medi 2023

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.50)

7 Bil Seilwaith (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(14.50 – 15.05)

8 Cytundebau rhyngwladol

(15.05 – 15.15)

(Tudalennau 185 – 197)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-25-23 – Papur 12 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/0994/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

11 Medi 2023

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Gorffennaf a'r cwestiynau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Bil Seilwaith (Cymru). Mae'n bleser gennyf roi fy ymateb a nodir yn Atodiad A.

Hyderaf y bydd yr ymatebion yn Atodiad A yn ateb eich cwestiynau. Fodd bynnag, os bydd unrhyw gwestiynau pellach neu unrhyw feysydd sydd angen eu hegluro, byddaf yn fwy na pharod i ddarparu rhagor o wybodaeth yn ysgrifenedig.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith er wybodaeth.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 19

Atodiad A

Cwestiwn 1

A allwch chi ddarparu naratif sy'n esbonio'n fras sut y bydd y drefn cydsynio seilwaith newydd yn gweithio, gan nodi'r rhai sy'n chwarae rhan allweddol, y prosesau a'r cerrig milltir allweddol, ac ym mha fodd y mae'n wahanol i'r broses bresennol.

Mae Bil Seilwaith (Cymru) yn adeiladu ar weithdrefnau a sefydlwyd fel rhan o weithdrefn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn Neddff Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yng Nghymru a'r rhai yn Neddff Cynllunio 2008 ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Mae'r crynodeb isod yn nodi sut y bydd y drefn cydsynio seilwaith newydd yn gweithio, gan nodi pob cam yn y broses.

Crynodeb o'r Drefn Cydsynio Seilwaith:

Gwasanaethau cyn ymgeisio

Bydd darpar geisyddion yn gallu ceisio gwasanaethau cyn ymgeisio gan Weinidogion Cymru a/neu'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol. Mae hyn yn ddewisol ac nid yw'n ofyniad gorfodol.

Hysbysiad cyn ymgeisio

Bydd yn ofynnol i ddarpar geisyddion hysbysu Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol perthnasol a phersonau eraill a bennir mewn rheoliadau o'u bwriad i gyflwyno cais am gydsyniad seilwaith.

Ymgynghoriad cyn ymgeisio

Ar yr amod y derbynnir yr hysbysiad o'r bwriad i gyflwyno cais, bydd yn ofynnol i ddarpar geisyddion gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio am gyfnod penodedig o amser. Caiff y manylion penodol am ymgynghoreion, sut y bydd yn rhaid i ymgynghoriad gael ei gynnal, yr amserlen a sut y bydd yn rhaid i ddatblygiad arfaethedig gael ei gyhoeddi, eu cadw'n ôl ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

Cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyn ymgeisio, gellir cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith i Weinidogion Cymru. Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi materion megis ffurf a chynnwys y cais, y broses o'i gyflwyno a'r broses ddilysu. Bydd hefyd yn ofynnol i adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio gael ei gyflwyno gyda cheisiadau, y bydd yn rhaid iddo gynnwys yr holl sylwadau a gafwyd o'r ymgynghoriad a manylion sut mae'r sylwadau hyn wedi'u hystyried ac unrhyw newidiadau a wnaed i'r cais.

Hysbysiad am geisiadau a dderbynnir a gofynion cyhoeddusrwydd

Pan fydd Gweinidogion Cymru wedi derbyn cais fel un dilys, byddant yn hysbysu awdurdodau rhagnodedig yn ysgrifenedig gyda gofynion eraill o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu yn cael eu cadw'n ôl ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Rhagwelwn y bydd hyn yn cynnwys dulliau megis cyhoeddi mewn papurau newydd / cyfnodolion perthnasol ac arddangos hysbysiadau safle.

Os bydd awdurdod cynllunio lleol yn cael hysbysiad o'r fath, bydd yn ofynnol iddo gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru. Yn yr un modd, os bydd cais yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trwydded forol dybiedig, bydd yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno adroddiad effaith ar y môr.

Ymgynghorir ag awdurdodau cyhoeddus penodol hefyd a bydd yn ofynnol iddynt ddarparu ymateb amserol o sylwedd. Caiff manylion yr hyn y mae'n rhaid i adroddiad o sylwedd ei gynnwys ac erbyn pryd y mae'n rhaid ei ddarparu, eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth.

Archwilio

Bydd Gweinidogion Cymru yn penodi person neu banel o bersonau i archwilio cais; yr 'awdurdod archwilio'. Bydd yr awdurdod archwilio yn pennu gweithdrefn archwiliad, a all fod yn sylwadau ysgrifenedig, yn wrandawriad, yn ymchwiliad neu'n gyfuniad o'r dulliau hyn. Fodd bynnag, os na cheir unrhyw wrthwynebiadau cyn yr archwiliad, caiff yr awdurdod archwilio fynd yn syth i'r cam gwneud penderfyniad.

Caiff awdurdodau archwilio neu Weinidogion Cymru hefyd benodi aseswyr neu fargyfreithiwr neu gyfreithiwr i roi cyngor a chymorth cyfreithiol yn ystod archwiliad.

Penderfynu ar geisiadau

Ar ôl iddo gael ei archwilio, bydd naill ai'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru yn penderfynu ar y cais. Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi pwy fydd yr awdurdod penderfynu, yn seiliedig ar fathau o geisiadau. Gwneir penderfyniadau yn unol â pholisi a nodwyd a byddant yn ystyried materion ychwanegol a nodwyd.

Rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud o fewn 52 wythnos i dderbyn cais fel un dilys, er y caiff Gweinidogion Cymru ymestyn y cyfnod hwn drwy gyfarwyddyd. At hynny, caiff is-ddeddfwriaeth ddiwygio'r cyfnod rhagnodedig, er enghraifft, er mwyn lleihau'r cyfnod o amser a ganiateir ar gyfer gorchmynion sy'n llai cymhleth ac nad oes angen offeryn statudol arnynt. Gellir gwneud gorchmynion cydsyniad seilwaith gan ddefnyddio Offeryn Statudol, os bydd yn cynnwys darpariaethau penodol.

Ar ôl rhoi cydsyniad

Os bydd gorchmyn cydsyniad seilwaith wedi'i roi, mae'r Bil yn darparu ar gyfer diwygio neu ddiddymu'r cydsyniadau hyn.

Cymharu'r broses newydd â chyfundrefnau cydsynio presennol

Mae'r tabl isod yn nodi pob cam allweddol yn y broses o wneud cais am gydsyniad seilwaith, fel y'i nodwyd uchod Cymharwyd pob cam allweddol â phrosesau cydsynio a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru, y gyfundrefn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol gan gynnwys Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016, cydsyniadau o dan Ddeddf Trydan 1989, Gorchmynion Adolygu Harbwr a gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992.

Nodwyd hefyd y rhanddeiliaid perthnasol ar gyfer pob cam.

Cam allweddol yn y broses newydd	Rhanddeiliaid yn y broses newydd	Cymharu'r cam â phrosesau cydsynio presennol
Gwasanaethau cyn ymgeisio	<ul style="list-style-type: none"> • ACLI • Ceisydd • Gweinidogion Cymru 	<p><i>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol</i> – rheol.6 – 9 (Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol) Cais am wasanaethau cyn ymgeisio</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau cyn ymgeisio gan yr ACLI neu Weinidogion Cymru
		<p><i>Deddf Trydan</i> – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p>
		<p>Gorchmynion Adolygu Harbwr Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p>
		<p><i>Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992</i> – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p>
Hysbysiad	<ul style="list-style-type: none"> • ACLI • Ceisydd • Gweinidogion Cymru 	<p><i>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol</i> – erth.5 – 6 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016</p> <p>Hysbysiad o ddatblygiad arfaethedig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hysbysiad derbyn gan Weinidogion Cymru i'r ACLI a'r ceisydd • Mae gan y ceisydd 12 mis i gyflwyno cais

		<p>Deddf Trydan – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p> <hr/> <p>Gorchmynion Adolygu Harbwr - Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i geisyddion gyflwyno hysbysiad o fwriad i wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol • Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n cael yr hysbysiad benderfynu a oes angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer y prosiect <hr/> <p>Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 – rheol 5 Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i geisyddion anfon gorchymyn drafft o fewn 28 diwrnod cyn y cais
<p>Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio</p>	<ul style="list-style-type: none"> • ACLI • Ceisydd • Ymgynghoreion Statudol • Unrhyw berson arall sydd am gyflwyno sylw • Gweinidogion Cymru 	<p>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – erthyglau 7- 11 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 Gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoedduswydd ac ymgynghori cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio • Dyletswydd ymgynghoreion arbenigol i ymateb • Adroddiadau ymgynghori cyn ymgeisio <hr/> <p>Deddf Trydan – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p> <hr/> <p>Gorchmynion Adolygu Harbwr Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p>

		<p>Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p>
Cais	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisydd • Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) • Gweinidogion Cymru 	<p>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – erthyglau 12- 14 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 Ceisiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynion cyffredinol • Datganiad Dylunio a Mynediad
		<p>Deddf Trydan - Atodlen 8 i Ddeddf Trydan 1989</p> <ul style="list-style-type: none"> • Manylion y tir yn y cais • Manylion llinell, hyd a foltedd nominal yn achos llinell drydan
		<p>Gorchmynion Adolygu Harbwr - Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964</p> <ul style="list-style-type: none"> • Manylion y broses gwneud cais a phaddogfennau y mae'n rhaid eu hanfon gyda'r cais
		<p>Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 – rheol 9 o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneir y cais yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys yr wybodaeth ofynnol.
Derbyn y Cais	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisydd • Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) • Gweinidogion Cymru 	<p>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – erthyglau 15- 17 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 Derbyn Ceisiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hysbysiad derbyn • Hysbysiad os nad yw'n gais dilys • Amserlenni perthnasol

		<p>Deddf Trydan – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p> <hr/> <p>Gorchmynion Adolygu Harbwr – Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964</p> <p>Dim hysbysiad ffurfiol o ‘dderbyn’ y cais, er na chaiff y cais ei ystyried oni fydd ffioedd wedi’u talu a’i fod yn cydymffurfio â’r gofynion a nodir yn y Ddeddf.</p> <hr/> <p>Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p>
Cyhoeddusrwydd	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisydd • ACLI • Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) • Gweinidogion Cymru 	<p>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – erthyglau 18- 19 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 Cyhoeddusrwydd i geisiadau am ganiatâd cynllunio</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i Weinidogion Cymru roi cyhoeddusrwydd i gais • Rhaid i’r ACLI arddangos hysbysiad safle <hr/> <p>Deddf Trydan – Rheoliadau 4-9 Reoliadau Trydan (Ceisiadau am Ganiatâd) 1990 a wnaed o dan a.36(8) Atodlen 8 i Ddeddf Trydan 1989</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddir hysbysiad mewn papur lleol, fe’i cyflwynir i Cyfoeth Naturiol Cymru os yw’n ymwneud â SoDdGA, unrhyw berson arall a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol • Hysbysiad i’r ACLI yn achos llinellau trydan • Dylai gwrthwynebiadau ddod i law o fewn y terfyn amser a nodwyd • Mae’n gymwys i ddatblygiadau ar y môr ac ar y tir

		<p>Gorchmynion Adolygu Harbwr - Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r ceisydd gyhoeddi hysbysiadau yn y London Gazette ac mewn ffyrdd eraill a gyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol • Cyfle i gyflwyno sylwadau o fewn 42 diwrnod i'r dyddiad y mae'r hysbysiad yn ymddangos gyntaf mewn papur lleol. <p>Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 – rheolau 13-16 Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynir hysbysiadau i bob ACLI perthnasol, yr awdurdod arfordirol, cyhoeddir hysbysiad mewn papur newydd • Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'r ceisydd i sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael eu hysbysu
Ymgynghoriad	<ul style="list-style-type: none"> • ACLI • Ceisydd • Ymgynghoreion Statudol • Unrhyw berson arall sydd am gyflwyno sylw • Gweinidogion Cymru 	<p>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – erthyglau 22- 23 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 Dyletswydd i ymgynghori cyn rhoi caniatâd cynllunio</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghori ag ymgynghoreion arbenigol • Dyletswydd i ymateb <p>Deddf Trydan – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p> <p>Gorchmynion Adolygu Harbwr - Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ag unrhyw gyrff sy'n debygol o fod â diddordeb yn y prosiect

		<p>Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p>
Adroddiadau ar yr Effaith	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisydd • ACLI • Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) • Cyfoeth Naturiol Cymru • Gweinidogion Cymru 	<p>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – erthyglau 25- 26 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 Adroddiadau ar yr Effaith Leol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n ofynnol mewn perthynas â cheisiadau • Rhaid iddo gynnwys gwybodaeth ragnodedig
		<p>Deddf Trydan – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p>
		<p>Gorchmynion Adolygu Harbwr Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p>
		<p>Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth</p>
Archwilio	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisydd • ACLI • Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) • Unrhyw ymgylchreion statudol perthnasol • Gweinidogion Cymru 	<p>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol - rheoliadau 28-31 (Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol) Penderfynu ar weithdrefn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penodir person a hysbysir y ceisydd/ACLI • Penderfynir ar y weithdrefn
		<p>Deddf Trydan – Atodlen 8 i Ddeddf Trydan 1989</p> <ul style="list-style-type: none"> • Manylion ynglŷn â phryd y byddai ymchwiliad yn cael ei gynnal
		<p>Gorchmynion Adolygu Harbwr - Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964</p>

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n nodi'r paramedrau ar gyfer y broses archwilio ac a gaiff ymchwiliad ei gynnal.
		<p>Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 –a.11 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 rheolau 21-25 o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol achosi i ymchwiliad cyhoeddus gael ei gynnal at ddibenion cais • Manylion yr archwiliad
Penderfyniad	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisydd • ACLI • Gweinidogion Cymru 	<p>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – rheoliadau 35-36 (Rheoliadau 2016) erthyglau 28-31 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 Penderfyniad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau i'w hystyried
		<p>Deddf Trydan – a.36 o Ddeddf Trydan 1989</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydsyniadau ac amodau
		<p>Gorchymyn Adolygu Harbwr - Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyriaethau wrth wneud penderfyniad. • Manylion ystyriaethau yn y gorchymyn
		<p>Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 –adrannau 13-14 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu a ddylai ddyfarnu bod gorchymyn yn cael ei wneud neu beidio â gwneud gorchymyn

Ar ôl y penderfyniad	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisydd • Awdurdod Cynllunio Lleol • Gweinidogion Cymru 	<i>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol</i> – rheoliad 37 (Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol) <ul style="list-style-type: none"> • Y weithdrefn ar ôl i benderfyniad gael ei ddiddymu
		<i>Deddf Trydan</i> – a.36C o Ddeddf Trydan 1989 <ul style="list-style-type: none"> • Gellir amrywio neu ddirymu cydsyniadau ar gyfer llinellau trydan • Amrywio cydsyniadau
		Gorchmynion Adolygu Harbwr Heb eu nodi mewn deddfwriaeth
		<i>Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992</i> – Heb eu nodi mewn deddfwriaeth

Fel y dengys y tabl, nid yw llawer o'r prosesau cydsynio presennol yn cynnwys y gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio nac ymgynghoriad ffurfiol ar ôl i gais gael ei gyflwyno. Felly, nid yw'r cyfundrefnau hyn yn cynnwys y gofyniad i ymgysylltu â'r gymuned mewn modd priodol drwy gydol y broses gydsynio. Gan fod prosesau cydsynio yn dameidiog rhwng cyfundrefnau gwahanol, mae hyn yn peri dryswch i'r cyhoedd sy'n cymryd rhan yn y prosesau ac nid oes unrhyw effeithlonrwydd gweinyddol i ddatblygwyr na phenderfynwyr.

At hynny, gan fod prosesau cydsynio yn rhychwantu sawl cyfundrefn, na chaiff llawer ohonynt eu hategu gan bolisi/polisiâu penodol, mae gan ddatblygwyr lai o sicrwydd ynglŷn â'u gobaith o lwyddo. Felly, mae'r Bil yn darparu fframwaith polisi clir ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith.

Cwestiwn 2

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, ym mharagraff 3.9, “mae'r gwahaniaethau rhwng cyfundrefnau [cydsynio seilwaith] wedi parhau ac ehangu ymhellach yn sgil datganoli seilwaith ynni o dan Ddeddf Cymru 2017”. A wnewch chi roi mwy o eglurder, ac esboniad am y gwahaniaethau hyn.

Bwriedir i'r broses cydsynio seilwaith arfaethedig ddisodli sawl cyfundrefn gydsynio bresennol ar y tir ac yn rhanbarth y glannau yn sgil gweithredu Deddf Cymru 2017. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

- Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992;
- Deddf Trydan 1989;
- Deddf Priffyrdd 1980;
- Deddf Harbyrau 1964.

Mae pob un o'r cyfundrefnau hyn yn nodi eu prosesau a'u gweithdrefnau eu hunain ar gyfer y ffordd y rhoddir y caniatadau, y cydsyniadau a'r gorchmynion perthnasol ac ati, y mae ganddynt nifer o wahaniaethau. Mae rhai enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Mae proses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn nodi proses cyn ymgeisio clir a chyson er mwyn helpu i gynnwys rhanddeiliaid a chymunedau cyn gynted â phosibl. Nid oes gan y cyfundrefnau eraill a nodwyd uchod broses cyn ymgeisio ffurfiol.
- Ceir gofynion gwahanol o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu, megis y gofyniad i arddangos hysbysiadau safle, nad yw rhai cyfundrefnau cydsynio yn gofyn amdano (er enghraifft, Deddf Harbyrau 1964).
- Ceir gofynion gwahanol o ran y math o wybodaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno gyda chais.
- Ymdrinnir â materion a gwrthwynebiadau/sylwadau penodol drwy archwiliad fel rhan o broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol y gellir ei gynnal drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad, ymchwiliad neu unrhyw gyfuniad o'r gweithdrefnau hyn. Ar y llaw arall, mae'n bosibl mai dim ond materion sydd i'w gwrandao gan ymchwiliad a gaiff eu hystyried gan y cyfundrefnau cydsynion eraill.
- Nid yw rhai cyfundrefnau yn darparu ar gyfer caffael tir yn orfodol na rhoi fforddfreintiau dros dir tra bod cyfundrefnau eraill yn gwneud hynny.
- Mae gan y cyfundrefnau gwahanol systemau gorfodi gwahanol hefyd.

Mae'r tabl sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymateb i gwestiwn 1 yn rhoi manylion pellach am y gwahaniaethau rhwng y gwahanol gyfundrefnau cydsynio.

Cwestiwn 3

Mae'r Memorandwm Esboniadol, ym mharagraff 3.19, yn nodi y byddai cael proses gydsynio unedig "yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys cydsyniadau eraill ac awdurdodiadau sy'n ofynnol mewn dull 'siop un stop'". A allwch chi egluro ymhellach beth yw ystyr hyn, a rhoi esboniad ychwanegol.

Ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, yn aml mae angen cydsyniadau, trwyddedau neu awdurdodiadau pellach o dan gyfundrefnau gwahanol i'r un a fyddai'n rhoi cydsyniad, er mwyn rhoi cynllun ar waith, Mae enghreifftiau yn cynnwys trwyddedau morol, caffael tir yn orfodol, cydsyniad adeilad rhestredig a diddymu hawliau a ddelir dros dir.

Gall hyn arwain at ddyblygu gwaith a gweithdrefnau a gall gynyddu costau ceisiadau yn sylweddol. Gall hefyd fod yn rhwystr i gyflwyno cynigion a pheri rhwystredigaeth a dryswch i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y broses.

Nod y broses cydsynio seilwaith arfaethedig yw cyflwyno 'siop un stop' ar gyfer prosiectau seilwaith. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i awdurdodiadau neu drwyddedau eraill sydd eu hangen ar gyfer y datblygiad gael eu hystyried ar yr un pryd a bod yn rhan o'r un cydsyniad. Bydd hyn yn sicrhau proses gyson sy'n effeithlon yn weinyddol ar gyfer penderfynu ar seilwaith ynni, gwastraff, dŵr a thrafnidiaeth mawr yng Nghymru.

At hynny, ceir mathau penodol o ddatblygiadau sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd ar y tir ac ar y môr (megis môr-lynnoedd llanw ac addasiadau i harbyrau) ac maent yn ddarostyngedig i awdurdodaethau gwahanol. Byddai cael proses gydsynio unedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys cydsyniadau eraill ac awdurdodiadau sy'n ofynnol er mwyn hwyluso gwaith datblygu mewn dull 'siop un stop'.

Mae adran 60 o'r Bil yn nodi'r hyn y gellir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith, gyda darpariaeth sy'n ymwneud â gwaith datblygu neu faterion sy'n atodol i waith datblygu yn cael ei (eu) nodi yn Atodlen 1. Ystyrir bod y rhestr sydd wedi'i llunio yn un gynhwysfawr ar hyn o bryd.

Yn yr un modd, mae adran 81 o'r Bil yn darparu ar gyfer dileu gofynion cydsynio a'u tybio yn lle hynny. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i awdurdodiadau, caniatadau a chydsyniadau gael eu tybio heb ganiatâd yr awdurdod perthnasol a fyddai'n eu rhoi fel arfer. Bwriedir i'r manylion penodol gael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth ond gallai enghraifft gynnwys diddymu unrhyw ofyniad o dan Reoliadau Perthi 2017.

Cwestiwn 4

A wnewch chi gadarnhau nifer yr holl bwerau dirprwyedig yn y Bil, a'u dadansoddiad, fesul math, gan gynnwys pwerau gwneud rheoliadau (gan gynnwys a yw pŵer yn bŵer Harri VIII), pwerau gwneud cyfarwyddydau a phwerau gwneud gorchmynion, a'r weithdrefn graffu sydd ynghlwm wrth bob un.

Mae Tabl 1 yn rhestru pwerau gwneud rheoliadau yn y Bil.

Pŵer gwneud rheoliadau	A yw'n bŵer Harri VIII? Ydy/Nac ydy	Gweithdrefn
Adran 17(1)(a)	Ydy	Cadarnhaol drafft
Adran 17(1)(a)	Ydy	Cadarnhaol drafft
Adran 21(1)(a)	Ydy	Cadarnhaol drafft
Adran 21(1)(b)	Ydy	Cadarnhaol drafft
Adran 22(2)(c)	Nac ydy	Cadarnhaol drafft

Pŵer gwneud rheoliadau	A yw'n bŵer Harri VIII? Ydy/Nac ydy	Gweithdrefn
Adran 26	Nac ydy	Negyddol
Adran 27(1)	Nac ydy	Negyddol
Adran 28(5)	Nac ydy	Negyddol
Adran 29(1)(d)	Nac ydy	Negyddol
Adran 29(2) a (3)	Nac ydy	Negyddol
Adran 29(5)	Nac ydy	Negyddol
Adran 30(2) a (3)	Nac ydy	Negyddol
Adran 31(4)	Nac ydy	Negyddol
Adran 31(5)	Nac ydy	Negyddol
Adran 33(2)(c)	Nac ydy	Negyddol
Adran 33(3)	Nac ydy	Negyddol
Adran 33(5)	Nac ydy	Negyddol
Adran 34	Nac ydy	Negyddol
Adran 35(4)(b)	Nac ydy	Negyddol
Adran 36(4)(b)	Nac ydy	Negyddol
Adran 37(2) a (3)	Nac ydy	Negyddol
Adran 38	Nac ydy	Negyddol
Adran 39(5) a (6)	Nac ydy	Negyddol
Adran 41(3)	Nac ydy	Negyddol
Adran 41(5)	Nac ydy	Negyddol
Adran 42	Nac ydy	Negyddol
Adran 43	Nac ydy	Negyddol
Adran 45(6)	Nac ydy	Negyddol
Adran 52(1)	Nac ydy	Negyddol

Pŵer gwneud rheoliadau	A yw'n bŵer Harri VIII? Ydy/Nac ydy	Gweithdrefn
Adran 53(4)	Nac ydy	Negyddol
Adran 54(d)	Nac ydy	Negyddol
Adran 55	Nac ydy	Negyddol
Adran 56(4)	Nac ydy	Negyddol
Adran 56(6)	Ydy	Negyddol
Adran 57(6)	Nac ydy	Negyddol
Adran 59(3)	Nac ydy	Negyddol
Adran 60(5)	Ydy	Cadarnhaol drafft
Adran 62(4)	Nac ydy	Negyddol
Adran 69(1) a (2)	Nac ydy	Negyddol
Adran 81(1)	Nac ydy	Negyddol
Adran 81(2), (3) a (4)	Nac ydy	Negyddol
Adran 85	Nac ydy	Negyddol
Adran 88(1), (3) (5) a 6	Nac ydy	Negyddol
Adran 91(1)(a)	Nac ydy	Negyddol
Adran 91(3)	Nac ydy	Negyddol
Adran 92(2)	Nac ydy	Negyddol
Adran 93(7)(b)	Nac ydy	Negyddol
Adran 110(8)	Nac ydy	Negyddol
Adran 115(1)	Nac ydy	Negyddol
Adran 121	Nac ydy	Cadarnhaol drafft
Adran 125(6) a (7)	Nac ydy	Negyddol
Adran 126	Nac ydy	Negyddol
Adran 127	Nac ydy	Negyddol
Adran 128	Ydy	Cadarnhaol drafft
Adran 129(2)	Ydy	Negyddol
Adran 133(2)(e)	Nac ydy	Negyddol
Adran 141(2)	Ydy	Cadarnhaol drafft
Paragraff 1(3) o Atodlen 2	Nac ydy	Negyddol
Paragraff 2(1) o Atodlen 2	Nac ydy	Cadarnhaol drafft

Mae adran 141 (2) wedi'i rhestru'n anghywir yn y Memorandwm Esboniadol Asesiad Effaith Rheoleiddiol (EMRIA) fel gweithdrefn negyddol. Caiff hyn ei gywiro yn yr EMRIA ar y cyfle nesaf.

Mae Tabl 2 yn rhestru'r pwerau gwneud cyfarwyddydau yn y Bil.

Pŵer i wneud cyfarwyddydau	A yw'n bŵer Harri VIII? Ydy/Nac ydy	Gweithdrefn
Adran 22(1)	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 23(1)	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 24(1)	Ydy	Dim gweithdrefn
Adran 33(9)	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 36(2)	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 45(2)	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 46(2)	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 50(1)	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 52(4)	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 56(2)	Ydy	Dim gweithdrefn
Adran 70(5)	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 127(1)	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 128(1)	Ydy	Dim gweithdrefn
Atodlen 2 – Paragraff 7(1)(c)	Nac ydy	Dim gweithdrefn

Mae Tabl 3 yn rhestru pwerau gwneud gorchmynion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

Pwerau gwneud gorchmynion	A yw'n bŵer Harri VIII? Ydy/Nac ydy	Gweithdrefn
Adran 51(2)	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 57	Nac ydy	Dim gweithdrefn
Adran 60(6)	Ydy	Dim gweithdrefn
	Nac ydy	
Adran 84	Nac ydy	Dim gweithdrefn ar gyfer cydsyniad seilwaith ar ffurf gorchmyn cyffredin. Os yw'r cydsyniad seilwaith yn Offeryn Statudol, fe'i gosodir gerbron y Senedd ynghyd â'r fersiwn ddiweddaraf o unrhyw gynllun a'r datganiad o

		resymau dros roi'r gorchymyn
Adran 87	Ydy	Dim gweithdrefn
Adran 111	Nac ydy	Cais i'r Llys Ynadon
Adran 143(2) a (3)	Nac ydy	Dim Gweithdrefn

Cwestiwn 5

Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r rheoliadau sydd angen iddynt gyflwyno, neu ddarparu ar gyfer "manyion sylweddol" yn cael eu defnyddio fel cyfiawnhad dros ddefnyddio'r weithdrefn negyddol mewn perthynas â nifer o bwerau dirprwyedig yn y Bil. Mae'r rhain yn cynnwys adrannau 27(1), 31(4), 33(3), 34, 53(4), 55, 126, a 129(2). Rhoddir esboniad tebyg am y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 128 o'r Bil sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. A wnewch chi roi rhagor o eglurder ac eglurhad o ran sut mae'r angen i gyflwyno neu ddarparu ar gyfer "manyion sylweddol" yn berthnasol i'r dewis o weithdrefn ym mhob un o'r darpariaethau hyn?

Bydd y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am gydsyniad seilwaith wedi'i nodi mewn rheoliadau, oherwydd lefel y manylder fydd ei hangen. Bydd rheoliadau yn ymwneud â chynnwys, ffurf, amserlenni a manylebau tebyg eraill y weithdrefn gwneud cais yn adrannau 27(1), 31(4), 33(3), 34, 53(4), 55, 126, a 129(2).

Ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer yr adrannau hyn, am eu bod yn ymwneud ag elfennau gweithdrefnol a thechnegol o'r prosesau ar gyfer gwneud ceisiadau am gydsyniadau seilwaith a phenderfynu arnynt, y bydd angen ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn eu cylch. Mae a wnelo adran 33(3), er enghraifft, â'r ffordd y rhoddir cyhoeddusrwydd i gais.

Mae defnyddio'r weithdrefn negyddol ar gyfer y rheoliadau hyn hefyd yn rhoi hyblygrwydd a'r cyfle i ymateb i newidiadau yn amserol er mwyn sicrhau bod y system cydsynio yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Er enghraifft, efallai y caiff y ffordd y cyhoeddir hysbysiadau ei diwygio er mwyn ystyried technoleg trafndiaeth.

Mae adran 128 o'r Bil yn nodi'r pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ddatgymhwysu gofynion penodol o ran gwneud cais am gydsyniad seilwaith. Yn wahanol i'r adrannau y cyfeiriwyd atynt uchod, gallai'r materion hyn gael effaith sylweddol ar y broses cydsynio seilwaith gyfan. Felly, ystyrir ei bod yn briodol bod y Senedd yn craffu ar y manylion sylweddol sy'n ofynnol o dan y rheoliadau hyn ac, am y rheswm hwn, mae'r rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Cwestiwn 6

Yn y Memorandwm Esboniadol, defnyddir y gallu i "ddeddfu'n gyflym" fel cyfiawnhad dros ddefnyddio'r weithdrefn negyddol mewn perthynas â nifer o bwerau dirprwyedig yn y Bil. Mae'r rhain yn cynnwys adrannau 26, 27(1), 28(5), 29(1)(d), 30(2) a (3), 31(4), 31(5), 33(2)(c), 33(3), 33(5), 35(4)(b), 36(4)(b), 37(2) a (41), 3(5), 37(2) a (41), 3(5), 37(2) a (34), 52(1), 53(4), 54(d), 55, 56(4) a (6), 57(6), 59(3), 62(4), 69(1) a (2), 81(1), 81(4), 85, 88(1) i (3) a (5) i (7), 9(1), 85, 88(1) i (3) a

(5) i (7), 9(1), 9 1(1) a (5) i (7), 9 1(1), 9 1(1), 5(1), 125(6) a (7), 126(1), (3) a (4), 127(2)(c), 127(3) a (4), 133(2)(e), a 141. Sut mae'r angen i weithredu'n "gyflym" yn berthnasol i'r dewis o weithdrefn ym mhob un o'r darpariaethau hyn?

Rwyf wedi grwpio'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ôl Rhannau perthnasol yn y Bil a, lle y bo'n briodol, yn ôl pwnc ym mhob Rhan.

Yn gyffredinol, mae'r weithdrefn negyddol a'r gallu i ddeddfu'n gyflym yn briodol er mwyn rhoi digon o hyblygrwydd i'r Bil a'r ffordd y bwriedir iddo weithredu. Byddai'r gallu i ddeddfu'n gyflym er mwyn diwygio rheoliadau hefyd yn helpu i sicrhau y gellir ymdrin ag unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen i'r cyfundrefnau cydsynio seilwaith presennol mewn modd amserol. Wrth ddewis y weithdrefn negyddol, dim ond un o'n hystyriaethau yw'r gallu i ddeddfu'n gyflym. Mae ffactorau eraill, megis y ffaith bod y pwnc yn un technegol neu'n un sy'n cynnwys manion, hefyd yn berthnasol i'r enghreifftiau isod.

Rhan 2 o'r Bil – Adran 26

Mae adran 2 o'r Bil yn nodi'r gofyniad am gydsyniad seilwaith. Mae adran 26 yn gwneud darpariaethau ynghylch materion gweithdrefnol mewn cysylltiad â phwerau i wneud cyfarwyddydau o dan adrannau 22, 23 a 24.

Caiff y rheoliadau nodi terfynau amser i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ynghylch a yw prosiect yn brosiect seilwaith arwyddocaol, yn dilyn cais am gyfarwyddyd a chânt hefyd nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyflwyno gyda chais. Efallai y bydd newidiadau i reoliadau diogelu data, er enghraifft, yn gofyn am newid y wybodaeth sydd ei hangen mewn cais o'r fath. Felly, byddai'r gallu i weithredu'n gyflym er mwyn diwygio rheoliadau yn briodol, er mwyn sicrhau bod y broses yn aros yn gyfredol. Felly, mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r effeithlonrwydd i ymateb yn gyflym i newidiadau ac atgyfnerthu'r Bil.

Rhan 3 o'r Bil – Adrannau 27(1), 28(5), 29(1)(d), 30(2) a (3), 31(4), 31(5) 33(2)(c), 33(3), 33(5), 35(4)(b), 36(4)(b), 37(2) a (3), a 38

Mae rhan 3 o'r Bil yn nodi'r broses ar gyfer gwneud cais am gydsyniad seilwaith. Mae a wnelo pwerau gwneud rheoliadau â gwasanaethau cyn ymgeisio, hysbysu, ymgynghori cyn ymgeisio a chyhoeddusrwydd, cyflwyno cais, hysbysiad derbyn a hysbysiadau am bersonau a chanddynt fuddiant mewn tir y mae archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef

Byddai unrhyw newidiadau posibl yn y dyfodol wedi'u cyfyngu i elfennau gweithdrefnol a manion y broses gwneud cais megis y ffurflen gais a'i chynnwys, amserlenni, personau i ymgynghori â nhw a'u hysbysu ac unrhyw fanylion perthnasol eraill. Efallai y bydd newidiadau a wneir yn y dyfodol i'r gofynion o ran rhoi cyhoeddusrwydd i gais, megis mewn papur newydd neu ar wefan, yn mynd yn anghyfredol neu'n anghywir. Os bydd hynny'n digwydd, bydd y ffaith y gall rheoliadau ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau allanol yn fanteisiol.

Mae a wnelo adrannau 35(4)(b) a 36(4)(b) ag Adroddiadau ar yr Effaith Leol ac Adroddiadau Effaith ar y Môr, yn y drefn honno, gan nodi y bydd rheoliadau yn nodi ffurf a chynnwys Adroddiad ar yr Effaith Leol ac Adroddiad Effaith ar y Môr. Efallai y bydd angen diwygio ffurf a chynnwys Adroddiad ar yr Effaith Leol neu Adroddiad Effaith

ar y Môr yn gyflym er mwyn ystyried unrhyw newidiadau a wneir er mwyn darparu ar gyfer diwydiant sy'n datblygu'n gyflym o ran datblygiadau ar y môr. Bydd ymateb yn gyflym a chadw i fyny â datblygiadau mewn diwylliant sy'n newid yn gyflym yn atgyfnerthu nodau ac amcanion y Bil.

Rhan 4 o'r Bil – Adrannau 41(3), 41(5), 42, a 45(6)

Mae a wnelo rhan 4 o'r Bil ag archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae a wnelo'r adrannau a restrwyd uchod â'r dewis o ymchwiliad, gwrandawriad neu weithdrefn ysgrifenedig, y weithdrefn ysgrifenedig a mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad.

Mae a wnelo gweithdrefnau archwilio a nodir mewn is-ddeddfwriaeth â materion technegol manwl ac maent yn debygol o nodi terfynau geiriau ar gyfer sylwadau pellach a'r amserlenni y mae'n rhaid i wrandawriad neu ymchwiliad gael eu cynnal yn unol â nhw. Fel yr awdurdod archwilio, bydd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn cynnal archwiliadau ac mae'n bosibl y gallai prosesau a gweithdrefnau mewnol mewn PEDW newid neu y byddai'r angen i ddiwygio terfynau amser olygu bod angen newid rheoliadau.

Rhan 5 o'r Bil – Adrannau 52(1), 53(4), 54(d), 55, 56(4) a (6), 57(6), 59(3)

Mae a wnelo rhan 5 o'r Bil â phenderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith.

- Mae a wnelo adrannau 52(1), 53(4), 54(d) a 55 â swyddogaethau penderfynu ar geisiadau, y ddyletswydd i benderfynu ar geisiadau yn unol â pholisïau statudol a materion penodol a materion y caniateir eu diystyru wrth wneud penderfyniadau.
- Mae a wnelo adrannau 56(4) a (6), 57(6), 59(3) â'r amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau, rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith a'r rhesymau dros y penderfyniad.

Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi mân fanylion sy'n ymwneud â'r adrannau uchod megis nodi ceisiadau y penderfynir arnynt gan yr awdurdod archwilio ar ôl i archwiliad ddod i ben. Mae'r weithdrefn negyddol, a'r gallu i ddeddfu o bryd i'w gilydd, yn briodol yn yr achos hwn er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn ceisiadau a gyflwynir.

Rhan 6 o'r Bil – Adrannau 62(4), 69(1) a (2), 81(1), 81(4) 85, 88(1) to (3) a (5) i (7), 91(3), 92(2) a 93(7)(b)

Mae a wnelo rhan 6 o'r Bil â gorchmynion cydsyniad seilwaith. Mae a wnelo Adrannau 62(4) a 69(1) a (2) â thir y gall awdurdodiad i gaffael yn orfodol ymwneud ag ef a hysbysiad o awdurdodiad i gaffael yn orfodol. Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi'r gweithdrefnau sydd eu hangen er mwyn awdurdodi caffael yn orfodol a manylion y broses i gyflwyno hysbysiad a'r hyn y dylai ei gynnwys. Mae'r gallu i ddeddfu'n gyflym yn angenrheidiol er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau i weithdrefnau caffael yn orfodol, megis cyfnodau amser i ymateb i hysbysiadau.

Mae a wnelo Adran 81(1) ac 81(4) â dileu gofynion cydsynio a thybio cydsyniadau Bydd rheoliadau yn llunio rhestr o gydsyniadau y gellid eu tybio a chydsyniadau y gellid eu hawdurdodi o fewn y cydsyniad seilwaith. Mae hyn yn briodol ar gyfer y weithdrefn negyddol gan y bydd angen diwygio rheoliadau o bryd i'w gilydd, os bydd angen dileu neu ychwanegu unrhyw gydsyniadau.

Mae a wnelo adrannau 85 ac 88(1) i (3) a (5) i (7) â chywiro gwallau a'r weithdrefn ar gyfer newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith. Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi'r weithdrefn ar gyfer cywiro gwallau, gan gynnwys manylion ymgynghori, manylion gofynion cyhoeddi ac effaith cywiro gwall. Efallai y bydd angen inni ddeddfu'n gyflym er mwyn diwygio'r gofynion o ran ymgynghori neu gyhoeddusrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r gofynion sy'n ymwneud â gwneud cais yn gyffredinol.

Mae a wnelo adrannau 91(3), 92(2) a 93(7)(b) â hyd gorchmynion cydsyniad seilwaith, pryd y mae datblygiad yn dechrau a heriau cyfreithiol. Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i ddatblygiad ddechrau cyn diwedd cyfnod a ragnodir a'r amgylchiadau lle y gellir herio cydsyniad. Efallai y bydd yn briodol ymateb er mwyn cadw i fyny â datblygiadau mewn diwylliant sy'n newid yn gyflym a diwygio terfynau amser ar gyfer datblygiadau penodol.

Rhan 7 o'r Bil - Adrannau 110(8) a 115(1)

Mae rhan 7 o'r Bil yn nodi camau gorfodi mewn perthynas â chydsyniad seilwaith, gydag Adran 110(8) yn ymwneud â hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig ac Adran 115(1) yn nodi cyfyngiadau ar y pŵer i ddyroddi hysbysiadau stop dros dro. Mae rheoliadau yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol i hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig yn ogystal ag amgylchiadau lle na fydd hysbysiad stop dros dro yn gymwys. Ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol mewn perthynas â'r darpariaethau am eu bod yn faterion technegol manwl, lle y gallai fod angen diwygio gofynion yn y dyfodol.

Rhan 8 o'r Bil – Adrannau 125(6) a (7), 126(1), (3) a (4), 127(2)(c) a (4)

Mae Rhan 8 yn darparu sawl swyddogaeth atodol i'r Bil. Mae a wnelo'r Adrannau a restrwyd uchod â gofynion mewn cysylltiad â chofrestr o geisiadau, y pŵer i ymgynghori a'r ddyletswydd i ymateb a chodi ffioedd. Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi manylion, megis y wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gofrestr o geisiadau a rhestr o ymgynghoreion statudol.

Mae'r gallu i ddeddfu'n gyflym yn yr achos hwn yn angenrheidiol, oherwydd gallai newidiadau gael eu gwneud i'r wefan sy'n cynnal y gofrestr o geisiadau neu gallai'r rhestr o ymgynghoreion statudol newid. Bydd gallu Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym i hyn yn sicrhau y caiff egwyddorion y Bil eu hatgyfnerthu ac na fydd y system cydsynio seilwaith yn mynd yn anghyffredol.

Rhan 9 o'r Bil – Adrannau 133(2)(e) a 141

Mae Rhan 9 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol y Bil. Mae a wnelo Adran 133(2)(e) ac Adran 141 â rhoi hysbysiadau, cyfarwyddydau a dogfennau eraill sy'n ymwneud â seilwaith a phŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau canlyniadol a throsiannol.

Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi unrhyw ffordd arall y gellir darparu hysbysiadau a dogfennau ac unrhyw ddiwygiadau, addasiadau neu ddirymiadau sydd eu hangen mewn perthynas â darpariaethau canlyniadol a throsiannol. Mae'r weithdrefn negyddol yn briodol mewn perthynas â'r darpariaethau am eu bod yn faterion technegol manwl.

Cwestiwn 7

Mae adran 22 o'r Bil yn ymdrin â chyfarwyddydau sy'n nodi datblygiad fel prosiect seilwaith sylweddol. a) A wnewch chi gadarnhau diben y cyfarwyddyd a'r pwerau gwneud rheoliadau a geir yn adran 22 o'r Bil, a'r gofyniad amdano? b) Rydym yn nodi bod pŵer ar wahân i ychwanegu, amrywio neu ddileu prosiectau seilwaith sylweddol yn adran 17 o'r Bil. Pam y bydd angen y pwerau yn adran 22, o gofio bod y pwerau yn adran 17 hefyd yn cael eu darparu i Weinidogion Cymru?

Rhan a

Mae'r Bil yn nodi meini prawf a throthwyon Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol sydd wedi'u cynnwys yn y gyfundrefn gydsynio newydd.

Ar gyfer mathau penodol o brosiectau, megis y rhai ag allbwn canolig neu brosiect sy'n cynnwys technoleg newydd neu amgylchiadau newydd, efallai na fydd trothwy meintiol gorfodol syml yn ddigonol i bennu a yw prosiect mor arwyddocaol a chymhleth fel y gellir cyfiawnhau defnyddio proses gydsynio unedig ar ei gyfer.

Felly, os bydd datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol i Gymru caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i nodi bod datblygiad arfaethedig yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol. Rhoddir dwy enghraifft isod.

Enghraifft 1 –pan fo'r prosiect islaw meini prawf gorfodol

Os bydd prosiect ychydig o fan feini prawf gorfodol y Bil ond ei fod yn debygol o godi pryderon sylweddol oherwydd ei leoliad a'i gymhlethdod, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod y prosiect yn cael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol.

Er enghraifft, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod fferm solar arfaethedig sydd â chapasiti cynhyrchu o 30MW ond sydd wedi'i leoli ger derbynnydd sensitif yn cael ei hystyried yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol oherwydd ei heffeithiau sylweddol posibl.

Enghraifft 2 – pan fo'r prosiect yn cynnwys technoleg newydd neu amgylchiadau newydd

Yn ogystal â'r pŵer i gyfarwyddo pan fo prosiect islaw'r trothwyon gorfodol, mae'r Bil yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wrth ystyried a ddylai technoleg newydd neu amgylchiadau newydd ddod o dan y gyfundrefn gydsynio.

Os cyflwynir prosiectau newydd sy'n fwy cymhleth ac a allai gael effeithiau sylweddol, efallai y byddai'r prosiectau hyn yn elwa o gael eu cynnwys yn y gyfundrefn gydsynio unedig newydd, oherwydd eu hamgylchiadau newydd.

Fodd bynnag, mae'r Bil wedi'i lunio i fod yn dryloyw ac, felly, mae'r Bil yn gosod cyfyngiadau ar y pŵer cyfarwyddo hwn. Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi cwmpas prosiectau y gellir cyfarwyddo eu bod yn cael eu hystyried yn Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol.

Rhan b

Mae cwmpas y pwerau gwneud rheoliadau yn adran 17 ac adran 22 yn wahanol. Mae is-adran 22(2)(c) yn cyfyngu ar bŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd ac fe'i hesbonnir uchod. Mae adran 17 yn caniatáu i is-ddeddfwriaeth newid wyneb y Bil er mwyn ychwanegu prosiectau a gaiff eu hystyried yn Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol yn awtomatig. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Mae Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys prosiectau lle mae tystiolaeth y byddant yn arwyddocaol yn genedlaethol. Mae'n bosibl y daw tystiolaeth newydd i'r amlwg y dylid cynnwys mathau gwahanol o brosiect neu y dylid diwygio un o drothwyon y prosiectau presennol. Mae adran 17 yn darparu'r pŵer hwn i wneud y newid hwn.

Cwestiwn 8

Mewn perthynas ag adran 30(2) a (3) sy'n ymwneud ag ymgynghori cyn ymgeisio, mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, yn nodi y bydd y gofynion a nodir yn y rheoliadau yn darparu ar gyfer "lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil". At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio fel "mân fater gweithdrefnol". a) A allwch chi egluro ymhellach beth yw ystyr hyn? b) Pam ydych chi wedi bod o'r farn mai mân fater yw'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio?

Rhan a

Bydd angen i ymgynghoriad cyn ymgeisio sicrhau y bodlonir gofynion sylfaenol penodol a fydd yn helpu i gynnwys cynifer o bobl â phosibl. Bydd hefyd angen iddo ymateb i'r ffaith y bydd pob datblygiad arfaethedig yn wahanol ac yn gofyn am fathau gwahanol o weithgarwch ymgysylltu.

Rhagwelwn y bydd y gofynion sylfaenol yn cynnwys materion gweithdrefnol megis arddangos hysbysiadau safle a chyhoeddi hysbysiad am gais mewn papur newydd sydd mewn cylchrediad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, bydd angen i fanylion penodol a sylweddol fod ynghlwm wrth y materion hyn, megis yr hyn y bydd angen ei gynnwys mewn hysbysiad, ble mae'n rhaid eu harddangos ac am ba hyd. Er enghraifft, rhagwelwn ei bod yn debygol y bydd angen gofynion gwahanol o ran arddangos hysbysiadau safle ar gyfer llwybrau llinol (megis llinellau trydan neu reilffyrdd), o gymharu â datblygiadau ar safle â ffiniau pendant.

Mae hefyd angen inni ystyried unrhyw drefniadau amgen ar gyfer datblygiadau yn rhanbarth y glannau, lle na fyddai gofynion arfaethedig ar gyfer gwaith datblygu ar dir yn addas nac yn ymarferol. Er enghraifft, ni fyddai'n bosibl nac yn fuddiol arddangos hysbysiad safle o dan yr amgylchiadau hyn.

Bydd y rheoliadau yn rhoi manylion sylweddol am unrhyw ofynion sylfaenol ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio. Byddai eu cynnwys ar wyneb y Bil yn ei wneud yn feichus i'w ddarllen. At hynny, bydd materion yn nodi gofynion gweithdrefnol, gan gynnwys

gweithdrefnau gwahanol ar gyfer datblygiadau ar y tir ac yn rhanbarth y glannau, yn ogystal â'r hyblygrwydd sydd ei angen i addasu'r gofynion hyn ac ymateb i newid. O ystyried hyn, rydym wedi dod i'r casgliad ei bod yn fwy priodol nodi materion penodol a gweithdrefnol o'r fath mewn is-ddeddfwriaeth.

Rhan b

Nid ydym o'r farn mai mân fater yn y broses gydsynio ehangach yw'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod unrhyw ofynion gweithdrefnol penodol, megis cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol, yn fân faterion technegol a gweithdrefnol a fydd yn gofyn am fanylion penodol a sylweddol (gweler yr ymateb uchod).

Cwestiwn 9

Mewn perthynas ag adran 31(5) sy'n ymwneud â gwneud cais am gydsyniad seilwaith, mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, yn nodi y bydd y rhestr o swyddogaethau posibl yn cyflwyno "lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil". Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a gallant roi swyddogaeth i unrhyw berson, gan gynnwys arfer disgrisiwn. Rhoddir esboniad tebyg am y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 128 o'r Bil sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. A allwch chi egluro ymhellach beth yw ystyr hyn a pham eich bod o'r farn mai "mân fater technegol" yw hwn?

Mae'r pŵer yn adran 31(5) o'r Bil yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (4) gynnwys disgrisiwn i ddatgymhwyso gofynion. Bydd y disgrisiwn hwn yn helpu i sicrhau na fydd gofynion gweithdrefnol yn creu baich diangen.

Y rheswm dros hyn yw bod y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer cael cydsyniad seilwaith yn arbennig o ragnodol ac y cydnabyddir y gallai deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i bartion fodloni gofynion a allai fod yn ormodol o dan rai amgylchiadau cyfyngedig. Er enghraifft, bydd rheoliadau a wneir o dan is-adran (4) yn nodi pa wybodaeth arall, pa ddogfennau eraill neu ba ddeunyddiau eraill y mae'n rhaid ei chyflwyno (eu cyflwyno) gyda ffurflen gais. Fodd bynnag, ar ôl iddi gael ei dilysu, os bydd y ceisydd yn gweld gwall ar y ffurflen gais nad yw'n cael effaith sylweddol ar y datblygiad arfaethedig (megis cyfeiriad anghywir) a'i bod yn ofynnol i'r ffurflen gais gael ei hailgyflwyno gyda'r manylion cywir, o dan y deddfwriaeth byddai'n ofynnol i'r ceisydd ailgyflwyno'r holl ddogfennau ategol hefyd. Byddai'r amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau hefyd yn cyd-fynd â'r dyddiad yr ystyriwyd bod y cais yn un dilys. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi disgrisiwn i'w gwneud yn bosibl i fân newidiadau o'r math hwn gael eu gwneud i'r ffurflen gais heb ailddechrau'r broses gwneud cais.

Ystyrir bod hwn yn fân fater technegol am fod y pŵer yn adran 31(5) i roi swyddogaethau, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys arfer disgrisiwn, wedi'i gyfyngu i reoliadau a wneir o dan yr adran honno. Am fod yr adran hon yn rhagnodi materion sy'n ymwneud yn benodol â'r broses gwneud cais (er enghraifft, sut y dylid gwneud cais, pa wybodaeth a dogfennau ategol y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda chais a'r

ffordd y caiff ceisiadau eu dilysu), ystyrir mai mân fater gweithdrefnol a thechnegol ydyw yn y broses gydsynio ehangach.

Fodd bynnag, er y bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn Adran 128 hefyd yn rhagnodi manylion, fel y nodir yng nghwestiwn 5, bydd y ddeddfwriaeth, os caiff ei gwneud, yn rhoi pwerau pellach i Weinidogion Cymru. Felly, ystyrir ei bod yn briodol i reoliadau a wneir o dan Adran 128 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Cwestiwn 10

Mae adran 34 yn ymdrin â rheoliadau ynghylch hysbysiadau a chyhoeddusrwydd. Mae adran 34(1)(b) yn datgan y caiff rheoliadau osod gofynion ar bersonau a bennir yn y rheoliadau i ymateb i hysbysiad o dan adran 33(2). Pa ofynion fydd yn cael eu gosod ac a oes unrhyw ofynion na ellid eu gosod?

Disgwylir i'r personau a bennir mewn rheoliadau o dan yr amgylchiadau hyn fod yn ymgynghoreion statudol. Bydd pwy yr ystyrir ei fod yn ymgynghorai statudol yn amrywio fesul achos, yn dibynnu ar y math o ddatblygiad sy'n cael ei gynig.

Gan y bydd gan yr ymgynghoreion hyn wybodaeth ac arbenigedd mewn meysydd penodol, ystyrir bod eu mewnbwn a'u barn ar ddatblygiad arfaethedig yn hanfodol. Felly, pan gaiff ymgynghori statudol ei hysbysu am ddatblygiad arfaethedig, bydd yn ofynnol iddo ymateb i'r hysbysiad ar ffurf ymateb o sylwedd, y bydd yn rhaid ei gyflwyno hefyd i Weinidogion Cymru o fewn cyfnod penodol o amser.

Rhagwelir y bydd ymateb o sylwedd yn datgan y canlynol:

- Nid oes gan yr ymgynghorai statudol unrhyw sylw i'w wneud;
- Nid oes ganddo unrhyw wrthwynebiadau;
- Mae ganddo bryderon ynghylch y datblygiad arfaethedig a'r ffordd y gellir ymdrin â'r pryderon hyn; neu
- Mae ganddo bryderon ynghylch y datblygiad arfaethedig ac mae'n bwriadu ei wrthwynebu.

Dim ond os bydd yn methu o dan un o'r categorïau a nodir yn adran 34(1)(a) i (d) y caiff y Rheoliadau osod gofyniad.

Cwestiwn 11

Mae adran 37(4) yn diffinio “person yr effeithir arno” at ddiben yr adran honno. Mae'n datgan bod person yn “berson yr effeithir arno” os yw'r ceisydd “ar ôl gwneud ymholiad diwyd” yn gwybod bod gan y person fuddiant yn y tir y mae'r cais caffael gorfodol yn ymwneud ag ef. a) Beth yw ystyr “ymholi'n ddyfal”? b) Sut bydd hyn yn cael ei brofi? c) A yw hwn yn gysyniad sefydledig yn y gyfraith bresennol sy'n ymwneud â gwneud cais am gydsyniad seilwaith a/neu geisiadau caffael?

Rhan a

Ystyr “ymholi'n ddyfal” yw bod yn rhaid i'r ceisydd arfer diwydrwydd rhesymol wrth ymchwilio i fuddiannau mewn tir. Mae ymholi'n ddiwyd yn gysyniad sefydledig ar gyfer geisiadau caffael gorfodol fel y rhagnodir gan Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 a Deddf Caffael Tir 1981. Nodir ei ystyr mewn cyfraith achosion¹ ac mae'n derm sefydledig a ragnodir o dan Ddeddf Cynllunio 2008 fel rhan o'r gyfundrefn ar gyfer penderfynu ar brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol gan Lywodraeth y DU lle y bydd tir yn cael ei gaffael yn orfodol.

Rhan b

Caiff ymholi'n ddiwyd ei ystyried gan y corff penderfynu wrth asesu a ddylid caniatáu caffael yn orfodol. Caiff ei ystyried fesul achos a'i ategu gan ganllawiau a fydd yn helpu'r ceisydd a'r corff penderfynu. Mae'r canllawiau yn debygol o gynnwys gwybodaeth am ddulliau arfer gorau gan gynnwys ymchwil i wybodaeth am deitl, holiaduron buddiant mewn tir, chwiliadau tŷ'r cwmnïau, arolygiadau safle ac ymchwil ar y we er mwyn helpu i sicrhau bod ymholiad dyfal wedi'i wneud.

Rhan c

Gweler ateb a.

Cwestiwn 12

Mae adran 38 yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud a fydd yn gofyn am ymgynghori mewn perthynas â chaffael gorfodol. Rydym ar ddeall bod is-adran (1) yn cynnwys y pŵer i wneud rheoliadau yn yr adran hon. a) A wnewch chi egluro sut y bydd is-adrannau (2) a (3) yn gweithredu ac, yn benodol, yn cadarnhau bod y cyfeiriad at is-adran (2) yn is-adran (3) yn gywir. b) O dan ba amgylchiadau na fydd angen ymgynghori?

Rhan a

Ceir dau bŵer gwahanol i wneud rheoliadau yn Adran 38. Mae is-adran (1) yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisydd gynnal ymgynghoriad os bydd y cais am orchymyn cydsyniad seilwaith yn cynnwys cais i awdurdodi caffael yn orfodol. Mae is-adran 2 yn bŵer gwneud rheoliadau ar wahân sy'n caniatáu i reoliadau nodi'r amgylchiadau pryd y caiff yr ymgynghoriad hwnnw ei gynnal a gwneud darpariaethau eraill mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad. Mae is-adran (3) yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (2). Felly, mae'r cyfeiriad at is-adran (2) yn gywir.

Rhan b

Ar yr adeg hon, rhagwelwn mai dim ond os nodir buddiannau ychwanegol mewn tir ar ôl i gais am gydsyniad seilwaith gael ei gyflwyno sy'n cynnwys cais i awdurdodi caffael yn orfodol y byddai angen cynnal ymgynghoriad pellach o dan reoliadau a ragnodir gan Adran 38.

¹Gweler: R v yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ex parte Blackett [1992] 1 WLUK 524 (HC).

Cwestiwn 13

Mae adran 42 yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud a fydd yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad ag archwilio cais o dan Ran 4 o'r Bil. a) A wnewch chi roi esboniad pellach ac eglurder ynghylch y cyfarwyddyd a bennir yn is-adran (3), a chadarnhau pa bŵer y dibynnir arno er mwyn 'newid' y penderfynwr (o Weinidogion Cymru i'r awdurdod archwilio, ac i'r gwrthwyneb). b) Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 42, yn nodi y bydd y manylion yn y rheoliadau yn darparu ar gyfer "lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil." Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Rhoddir esboniad tebyg am y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 128 o'r Bil sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. A allwch chi egluro ymhellach beth yw ystyr hyn a pham eich bod o'r farn mai mân fater yw hwn?

Rhan a

Darperir y pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd, sy'n trosglwyddo'r swyddogaeth o benderfynu ar gais o'r awdurdod archwilio iddynt hwy eu hunain, neu fel arall, gan Adran 52, Is-adran (4) o'r Bil.

Bwriedir i'r pŵer i wneud cyfarwyddydau roi hyblygrwydd er mwyn sicrhau, yn y pen draw, y caiff y penderfyniad terfynol ar gais ei wneud gan y corff priodol. Gall fod yn briodol newid y corff penderfynu os bydd awdurdod archwilio yn archwilio cais a bod materion yn codi sydd, er enghraifft, yn arbennig o ddadleuol ac y byddai'n fwy priodol i Weinidogion Cymru gymryd drosodd a delio â'r achos. Yn yr un modd, gall Gweinidogion Cymru fod yn archwilio cais a dod i'r casgliad y byddai'n fwy priodol petai'r awdurdod archwilio yn delio â'r achos; er enghraifft, os na fydd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau i'r cais wedi dod i law. Bydd y Rheoliadau o dan Adran 42 yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn o dan yr amgylchiadau hyn. Bydd hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, faterion megis pwy y bydd angen ei hysbysu am gyfarwyddyd a'r terfyn amser y mae'n rhaid rhoi hysbysiad o'r fath o'i fewn er mwyn peidio ag effeithio'n ormodol ar y broses o wneud penderfyniad.

Rhan b

Mae Adran 42 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad ag archwilio cais o dan Ran 4. Mae hyn yn ymdrin â mwy na'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd cyfarwyddyd mewn perthynas â'r penderfynwr yn ei roi. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad â gwneud penderfyniad o dan Adran 41, ynghylch sut y caiff cais ei archwilio, ynghylch materion paratoadol neu faterion yn dilyn archwiliad ac ynghylch cynnal archwiliad, gan gynnwys y weithdrefn ar gyfer trosglwyddo'r swyddogaeth o archwilio cais i gorff arall. Felly, bydd y rheoliadau yn rhagnodi lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil. At hynny, mae'r Bil yn cynnwys materion technegol iawn a manion ac efallai y bydd angen ei ddiwygio ac, felly, mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Ar y llaw arall, bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn Adran 128 yn rhoi pwerau pellach i Weinidogion Cymru. Felly, ystyrir ei bod yn briodol i reoliadau a wneir o dan Adran 128 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Cwestiwn 14

Mae adran 43 yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer pwerau mynediad i archwilio tir y mae'r ceisydd yn berchen arno neu'n ei feddiannu heblaw gan y ceisydd. a) Pa egwyddorion fydd yn berthnasol i'r pwerau i fynd ar dir, a pham nad ydyn nhw ar wyneb y Bil? b) Pwy sy'n cael ei gwmpasu gan yr ymadrodd "person, ar ei ben ei hun neu gydag eraill" at ddiben adran 43? c) Nid yw'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, gan nad yw wedi'i restru yn adran 138(4) o'r Bil. Pam yr ystyriwyd bod y weithdrefn negyddol yn briodol yn yr achos hwn? Mae'r Memorandwm Esboniadol ond yn datgan bod y pŵer i fynd ar dir yn "fân fater gweithdrefnol o fewn y cynllun deddfwriaethol ehangach."

Rhan a

Caiff yr egwyddorion sy'n gymwys i bwerau i fynd ar dir eu rhagnodi drwy is-ddeddfwriaeth. Ar yr adeg hon, rhagwelwn y bydd yr egwyddorion hyn fel a ganlyn:

- Bydd yn rhaid i'r tir ymwneud â'r cais sy'n cael ei archwilio;
- Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio a fydd yn mynd ar dir fel rhan o archwiliad hysbysu'r ceisydd o'u bwriad (o'i fwriad) i wneud hynny a phersonau eraill yr ystyrir bod angen eu hysbysu. Mae'n debygol y bydd personau eraill yn cynnwys perchennog/meddiannydd y tir a bydd angen cyfnod o rybudd iddynt. Bydd yr hysbysiad yn ysgrifenedig a bydd yn cynnwys dyddiad ac amser arfaethedig yr archwiliad;
- Ni pherir oedi i'r amserlen ar gyfer archwilio cais o ganlyniad i ymweliad safle. Bydd is-ddeddfwriaeth yn darparu na fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru/yr awdurdod archwilio ohirio archwiliad os na fydd unrhyw berson (gan gynnwys y ceisydd) yn bresennol ar adeg archwiliad.

Caiff yr egwyddor i fynd ar dir fel rhan o archwiliad ei sefydlu gan y Bil. Nid yw'r manylion ar wyneb y Bil am eu bod yn ymwneud â materion gweithdrefnol technegol ar gyfer mynd ar dir. Bydd eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth yn rhoi hyblygrwydd i ystyried yr angen posibl i ddiwygio'r gofynion manwl hynny yn y dyfodol. Mae hyn yn debyg i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan y gyfundrefn i Lywodraeth y DU benderfynu ar brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol gan Lywodraeth y DU Mae'r egwyddor i fynd ar dir fel rhan o'r broses o archwilio ceisiadau o dan y gyfundrefn honno wedi'i sefydlu gan Adran 97, Is-adran 3 o Ddeddf Cynllunio 2008. Rhagnodir materion manwl ar gyfer mynd ar di a chynnal arolygiadau safle gan Reol 16 o Reolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010. Mae'r weithdrefn ar gyfer cynnal arolygiadau safle fel rhan o gyfundrefn 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' hefyd wedi'i sefydlu gan is-ddeddfwriaeth, o dan Reoliad 16 o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016.

Rhan b

Mae'r ymadrodd "person, ar ei ben ei hun neu gydag eraill" at ddiben Adran 43 yn cwmpasu'r personau hynny y byddai'n ofynnol iddynt asesu'r safle er mwyn llywio'r archwiliad, er enghraifft yr Arolygydd a bennwyd i archwilio'r cais. Cydnabyddir y gallai fod angen mwy nag un person ag arbenigeddau gwahanol i asesu'r safle os bydd amrywiaeth o faterion i'w hystyried mewn perthynas ag ef (er enghraifft pe gallai fod materion ecolegol a materion yn ymwneud â phriffyrdd i'w hystyried mewn perthynas â safle).

Rhan c

Mae a wnelo'r materion sydd i'w rhagnodi o dan Adran 43 mewn rheoliadau â'r weithdrefn i bobl fynd ar dir fel rhan o'r broses o archwilio cais. Ystyrir ei bod yn briodol i'r rheoliadau hynny fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Byddant yn rhagnodi materion technegol manwl yn ymwneud â phroses y bydd yr egwyddor ar ei chyfer eisoes wedi'i sefydlu drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. At hynny, ystyrir bod y materion yn fân faterion gweithdrefnol disgresiynol yn y broses gydsynio ehangach. Os bwriedir i'r gofynion hyn gael eu diweddarau yn y dyfodol, byddai'n bwysig deddfu'n gyflym er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth benderfynu ar geisiadau seilwaith.

Cwestiwn 15

Mae adran 45 yn ymwneud â mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol. Mae is-adran (6) yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau a fydd yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaethau ynghylch gweithdrefnau i'w dilyn a swyddogaethau cynrychiolydd penodedig. Mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, yn nodi yr ystyrir bod y mater hwn yn addas i'w gynnwys mewn rheoliadau "oherwydd bod angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol". Nid yw'n ymddangos bod y cyfiawnhad yn mynd i'r afael ag is-adran (6)(b) a fydd yn galluogi'r rheoliadau i ddarparu ar gyfer swyddogaethau cynrychiolydd penodedig, ac nad yw'n ymwneud â gweithdrefnau. A wnewch chi roi mwy o eglurder, gan gynnwys esboniad o beth yw swyddogaethau cynrychiolydd penodedig a sut y gallent newid dros amser.

Bydd rheoliadau i nodi swyddogaethau cynrychiolydd penodedig yn cynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Cynrychioli buddiannau'r person yr effeithir arno, er enghraifft drwy dderbyn cyfarwyddydau gan y person yr effeithir arno cyn cael copïau o dystiolaeth gaeedig neu dystiolaeth a allai fod yn gaeedig, ymdrin â materion rhagarweiniol, gwneud argymhellion a chroesholi tystion;
- Sicrhau y caiff y copïau o'r dystiolaeth gaeedig neu'r dystiolaeth a allai fod yn gaeedig eu dychwelyd i'r person a'u darparodd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ymchwiliad.
- Gwneud ceisiadau i'r Llys mewn perthynas ag unrhyw un o'i swyddogaethau.

Rhagnodir deddfwriaeth debyg sy'n rhestru cynrychiolydd penodedig at ddibenion rhoi tystiolaeth yn y system gynllunio, o dan Reoliad 4 o Reoliadau Cynllunio (Cyfarwyddydau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006.

Ystyrir bod angen rhoi hyblygrwydd wrth nodi swyddogaethau cynrychiolydd penodedig yn y rheoliadau am ei bod yn bosibl na fydd angen swyddogaethau penodol mwyach yn y dyfodol neu am y gallai fod angen ychwanegu swyddogaethau oherwydd newidiadau i'r weithdrefn archwilio. Er enghraifft, yn y dyfodol os ystyrir y gellir gwneud y broses o gynnal archwiliad yn fwy effeithlon (drwy ddefnyddio technoleg, er enghraifft), efallai y bydd angen addasu swyddogaethau'r cynrychiolydd penodedig er mwyn adlewyrchu proses wedi'i diweddarau.

Cwestiwn 16

Mae adran 55 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu materion y caiff yr awdurdod eu harchwilio, neu Weinidogion Cymru, eu diystyru wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith. Beth yw pwrpas y ddarpariaeth hon a pha faterion y gellir eu diystyru? Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw fanylion am yr hyn y mae'r ddarpariaeth hon yn ceisio'i gyflawni, dim ond y bydd y materion "yn cyflwyno lefel sylweddol o fanylion a bydd angen iddo hefyd fod yn hyblyg i ymateb i unrhyw newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol".

Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys er mwyn cydnabod y dystiolaeth a'r wybodaeth helaeth y mae'n debygol y bydd angen iddynt gael eu hystyried gan y corff penderfynu ar gyfer cais am gydsyniad seilwaith. Diben y ddarpariaeth hon yw helpu i sicrhau proses gwneud penderfyniadau effeithlon drwy ddiystyru materion nad ydynt yn darparu tystiolaeth briodol na chadarn i lywio'r penderfyniad ar gydsyniad seilwaith arfaethedig. Ar yr adeg hon, ystyrir y gallai tystiolaeth a gwybodaeth o'r fath gynnwys sylwadau blinderus neu wacsaw a sylwadau sy'n herio polisi cenedlaethol sefydledig a ragnodir gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu'r Cynllun Morol. Fodd bynnag, wrth weithredu'r gyfundrefn newydd, efallai y bydd angen diwygio'r rhestr er mwyn nodi'n glir pa wybodaeth y gellir ei diystyru. Er enghraifft, gellid ychwanegu datganiadau polisi Llywodraeth y DU os ystyrir bod eu hangen.

Cwestiwn 17

Mae adran 56(6) yn darparu pŵer i reoliadau ddiwygio adran 56(1)(a). Mae hwn yn bŵer Harri VIII sy'n galluogi diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Pam, felly, nad yw rheoliadau a wneir o dan adran 56(6) wedi'u cynnwys yn adran 138(4) o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol iddynt ddilyn y weithdrefn gadarnhaol?

Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod statudol drwy is-ddeddfwriaeth o dan is-adran 56(6). Ar yr adeg hon, ni ragwelir y caiff y cyfnod o amser ei ddiwygio. Fodd bynnag, gallai dystiolaeth ddod i'r amlwg drwy weithredu'r broses sy'n nodi y gallai cyfnod byrrach neu hwy o amser fod yn fwy priodol.

Ni all y pŵer hwn i wneud rheoliadau ond diwygio is-adran 56(1)(a). Am fod hwn yn fater gweithdrefnol, h.y. newid nifer yr wythnosau sydd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar gais, nid ystyrir bod angen y weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Cwestiwn 18

Mae adran 57 yn ymdrin â rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith. Mae is-adran (6) yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud a fydd yn gwneud darpariaeth sy'n rheoleiddio'r weithdrefn sydd i'w dilyn os yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith ar delerau sy'n "sylweddol wahanol" i'r rheini a gynigir yn y cais. Mae rheoliadau o'r fath i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol. O ystyried bod "sylweddol wahanol" yn debygol o gynnwys newidiadau sy'n fwy na mân newidiadau o ran eu natur, ac y gallent gynnwys newidiadau sylweddol, a wnewch chi egluro pam yr ydych yn ystyried bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau o'r fath.

O ran cynnig Gweinidogion Cymru y dylid gwneud newidiadau "sylweddol wahanol" i gais. Rhagwelwn y bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi mai dim ond gorchymyn sy'n cynnwys mân newidiadau i'r hyn y gofynnwyd amdano yn wreiddiol yn y cais am gydsyniad seilwaith y dylai Gweinidogion Cymru ei wneud. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb o ran pa fathau o ddiwygiadau ac amrywiadau a ystyrir yn dderbyniol pan ofynnir amdanynt drwy gais ar wahân i amrywio neu ddiwygio cydsyniad seilwaith sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft, rhaid iddynt fod yn newidiadau sylweddol neu'n fân newidiadau sylweddol. Felly, er y cyfeirir at newidiadau i gais fel rhai "sylweddol" ar wyneb y Bil, bydd y rheoliadau yn egluro mai dim ond mân newidiadau y dylai Gweinidogion Cymru eu gwneud i orchymyn. Gan y bydd y rheoliadau yn nodi mater technegol manwl mewn perthynas â'r weithdrefn i'w dilyn ar gyfer newidiadau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud i gais, ystyrir ei bod yn briodol iddynt fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Cwestiwn 19

Mae adran 59 o'r Bil yn ymwneud â'r rhesymau dros benderfyniad i roi neu wrthod cydsyniad seilwaith. A oes unrhyw bersonau a fydd bob amser yn cael copi o ddatganiad gan Weinidogion Cymru o dan adran 59(3)?

Bydd is-ddeddfwriaeth a ddarperir o dan adran 59(3) yn nodi'r personau hynny y bydd yn rhaid rhoi copi o ddatganiad o resymau iddynt. Ar yr adeg hon, rhagwelwn y bydd y ceisydd bob amser yn cael y datganiad o resymau. Bydd personau eraill a hysbysir yn amrywio yn ôl y math neu'r categori o ddatblygiad y mae cais yn ymwneud ag ef. Rhagwelwn y gallai personau o'r fath gynnwys ACLlau perthnasol a chynghorau cymuned, ymgynghoreion statudol yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses gwneud cais, unrhyw berson a gyflwynodd sylwadau ar gais ac unrhyw bersonau eraill a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru.

Cwestiwn 20

Mae adran 81 o'r Bil yn ymwneud â dileu gofynion cydsynio a thybio cydsyniadau. a) Pa gydsyniadau penodol a gwmpesir gan adran 81(1)(a)? b) O dan adran 81(4) caiff rheoliadau ddarparu eithriadau i'r gofyniad i fodloni'r amodau yn is-adrannau (2) a (3). Beth yw'r eithriadau a pham na ellir eu gosod ar wyneb y Bil?

Rhan a

Er mwyn rhoi Prosiect Seilwaith Arwyddocaol ar waith a'i ddatblygu, fel arfer byddai angen cael cydsyniad ar gyfer sawl mater atodol. Er mwyn rhoi proses gydsynio unedig go iawn ar waith, caiff y Cydsyniad Seilwaith a roddir gan Weinidogion Cymru hefyd roi caniatâd, gan awdurdodi, cymeradwyo, cydsynio, trwyddedu neu ganiatáu'r materion atodol hyn.

Nid oes unrhyw gydsyniadau penodol ar wyneb y Bil gan fod is-adrannau 81(1) (a) a (b) yn caniatáu i orchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys unrhyw gydsyniad atodol a roddir gan awdurdod perthnasol ac nad yw wedi'i restru yn rhan 2 o'r Bil.

Mae'r Bil yn mabwysiadu dull amodol, sy'n mynnu bod awdurdod cydsynio perthnasol wedi rhoi caniatâd i'w gydsyniad/trwydded/awdurdodiad gael ei (d)defnyddio o fewn y Cydsyniad Seilwaith. Nodir hyn ar wyneb y Bil yn adrannau 81(2) a (3).

Rhan b

Mae Adran 82(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi, mewn is-ddeddfwriaeth, awdurdodiadau/caniatadau/cydsyniadau na fyddant yn ddarostyngedig i adrannau 81(2) na (3). Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i dybio cydsyniad heb gydsyniad (penodol na mud) yr awdurdod perthnasol.

Bydd y rheoliadau hyn yn destun ymgynghoriad pellach ond cânt, er enghraifft:

- dybio cydsyniad i sefydlu parth diogelwch o amgylch gosodiadau ynni adnewyddadwy o dan adran 95 o Ddeddf Ynni 2004.
- dirymu unrhyw ofyniad o dan Reoliadau Perthi 1997.

Nid yw'r eithriadau ar wyneb y Bil gan y byddant yn destun ymgynghoriad pellach â rhanddeiliaid perthnasol ac y gallai fod angen eu diwygio wrth weithredu'r broses gydsynio.

Cwestiwn 21

Mae adran 82 o'r Bil yn ymwneud â chyhoeddi a'r weithdrefn ar gyfer gorchmynion cydsyniad seilwaith. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o offeryn statudol, cynllun a datganiad o resymau gerbron y Senedd. Rydym yn nodi bod adran 138(5) o'r Bil yn darparu y bwriedir i'r weithdrefn negyddol fod yn gymwys i unrhyw offeryn sy'n cynnwys rheoliadau nad yw 138(4) yn gymwys iddo. Nid yw offeryn a wneir o dan adran 82 wedi ei restru yn adran 138(4). Ai'r bwriad yw y byddai offeryn o'r fath yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol, neu ai gweithdrefn hollol newydd a fwriedir?

Mae is-adran 138(5) o'r Bil yn cymhwyso'r weithdrefn negyddol at unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf nad ydynt wedi'u rhestru yn adran 138(4). Nid yw hyn yn gymwys i orchmynion cydsyniad seilwaith gan nad ydynt yn rheoliadau. Nid yw gorchmynion cydsyniad seilwaith yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol na'r weithdrefn gadarnhaol. Fodd bynnag, os bodlonir y meini prawf yn adran 82 a bod y gorchymyn wedi'i gynnwys mewn offeryn statudol, rhaid iddo gael ei osod gerbron y Senedd ynghyd â'r fersiwn ddiweddaraf o unrhyw gynllun a'r datganiad o resymau dros roi'r gorchymyn.

Cwestiwn 22

A wnewch chi gadarnhau ein dealltwriaeth bod adran 84(4) yn cynnwys pŵer i wneud gorchymyn, ac y bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny ar y cyfle nesaf sydd ar gael.

Mae adran 84(4) yn cynnwys pŵer i wneud gorchmynion ar gyfer gwneud Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith (pan fo'n offeryn statudol) o ganlyniad i gywiro gwall mewn dogfen penderfyniad. Diolch ichi am ddwyn y mater hwn i'n sylw. Caiff y Memorandwm Esboniadol ei ddiwygio ar y cyfle nesaf er mwyn adlewyrchu'r pŵer hwn i wneud gorchmynion. Caiff y Memorandwm Esboniadol ei gywiro hefyd er mwyn cynnwys adran 57(1)(a) sy'n cynnwys y pŵer i wneud gorchmynion i wneud gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad seilwaith ("gorchymyn cydsyniad seilwaith") pan fo'n offeryn statudol.

Cwestiwn 23

Mewn perthynas ag adran 88 sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer newid a dirymu gorchmynion cydsynio seilwaith, mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, yn nodi y bydd y gofynion a nodir yn y rheoliadau yn darparu ar gyfer "manyllion sylweddol a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil". Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Rhoddir esboniad tebyg am y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 128 o'r Bil sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. A allwch chi egluro ymhellach beth yw ystyr hyn a pham eich bod o'r farn mai mân fater yw hwn?

Mae'r pŵer yn adran 88 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith.

Bydd y Rheoliadau yn rhagnodi materion sy'n ymwneud yn benodol â'r broses newid a dirymu, er enghraifft, sut y dylid gwneud cais, pa wybodaeth a dogfennau ategol y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda chais, pa ymgynghoriad a gynhelir a manylion y broses gwneud penderfyniadau. Byddai graddau'r gweithdrefnau yn gwneud y Bil yn feichus i'w ddarllen ac ystyrir eu bod yn fân fater gweithdrefnol a thechnegol yn y broses gydsynio ehangach.

Ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer yr adran hon, am ei bod yn ymwneud ag elfennau gweithdrefnol o'r broses ar gyfer newid a dirymu cydsyniad seilwaith. Mae'r weithdrefn negyddol ar gyfer y rheoliadau hyn hefyd yn rhoi hyblygrwydd a'r cyfle i ymateb i newidiadau yn amserol er mwyn sicrhau bod y system cydsynio yn cael ei diweddarau'n rheolaidd, er enghraifft, os byddwn yn penderfynu diwygio'r gofynion o ran cyhoeddusrwydd er mwyn ystyried newidiadau mewn technoleg.

Fodd bynnag, bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn Adran 128 yn rhoi pwerau pellach i Weinidogion Cymru. Felly, ystyrir ei bod yn briodol i reoliadau a wneir o dan Adran 128 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Cwestiwn 24

Mae adran 92 yn ymdrin â phryd y bydd datblygiad yn dechrau, at ddibenion y Ddeddf. Mae adran 92(2) yn nodi bod “gweithrediad materol” yn golygu “unrhyw weithrediad ac eithrio gweithrediad o fath a bennir mewn rheoliadau”. Pa weithrediadau na fydd yn weithrediadau materol?

Mae adran 92 states nodi yr ystyrir bod datblygiad yn dechrau ar y diwrnod cynharaf y caiff unrhyw weithrediad perthnasol ei gynnal. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn bosibl i reoliadau nodi'r mathau o weithrediadau nad ydynt yn “weithrediad perthnasol” at ddibenion dechrau datblygiad.

Mae hepgor gweithrediadau penodol o'r diffiniad o weithrediad perthnasol yn rhoi eglurder. Er enghraifft, rhagwelir y bydd y rheoliadau yn nodi na fydd gwaith samplu pridd na dŵr yn gyfystyr â gweithrediad perthnasol ar ei ben ei hun ac, felly, nid ystyrir ei fod yn dechrau datblygiad at ddibenion hyd gorchymyn cydsyniad seilwaith.

Cwestiwn 25

Mae adran 115 yn ymdrin â chyfyngiadau ar y pŵer i roi hysbysiad stop dros dro. Pa weithgareddau na fydd hysbysiad stop dros dro o dan adran 115(1) yn eu gwahardd?

Prif ddiben cyfyngu ar y defnydd o hysbysiadau stop dros dro yw sicrhau nad effeithir ar hawliau penodol a all fod gan unigolyn neu pan fyddai i ddyroddi hysbysiad o'r fath oblygiadau negyddol eraill, er enghraifft i iechyd a diogelwch neu ddiogelwch cenedlaethol.

Mae'r pŵer hwn yn adlewyrchu adran 171F(1)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac efallai y cyflwynir cyfyngiadau penodol yn system gynllunio ehangach a fyddai hefyd yn berthnasol i geisiadau am gydsyniad seilwaith. Felly, mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i gysoni â'r system gynllunio ehangach, lle y bo'n berthnasol.

Cwestiwn 26

Mae adran 121 yn ymdrin â ffioedd am gyflawni swyddogaethau a gwasanaethau cydsyniad seilwaith. a) O dan adran 121, pa awdurdodau cyhoeddus fydd yn cael codi ffioedd? b) O dan adran 121(5) gellir rhoi swyddogaethau i unrhyw berson drwy reoliadau. Beth yw'r swyddogaethau ac i bwy y cânt eu rhoi?

Rhan a

Mae'r Bil hwn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chodi ffioedd gan awdurdod cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â chydsyniad seilwaith. Er mwyn creu cyfundrefn codi ffioedd sy'n syml a thryloyw, rhagwelir y bydd ffioedd yn gyfuniad o gyfraddau sefydlog ac amrywiadwy. Gall costau amrywio yn ôl maint, graddfa a lleoliad datblygiad arfaethedig a gall ffactorau eraill megis chwyddiant effeithio ar gostau. Mae'r ffaith bod cyfradd amrywiadwy i'r chael o fewn y broses yn rhoi hyblygrwydd o'r fath.

Rwyf eisoes wedi nodi, yn sesiwn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 6 Gorffennaf, fy mod yn awyddus i weld ffioedd yn cael eu codi ar sail adennill costau. Bydd y pŵer hwn yn fy ngalluogi i wneud hyn drwy ganiatáu i gyrff cyhoeddus godi ffioedd.

Rhagwelaf mai'r awdurdodau cyhoeddus a nodir gan reoliadau yw:

- Gweinidogion Cymru;
- Awdurdodau Cynllunio Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Ymgylgoreion Statudol penodol

Rhan b

Yr awdurdodau cyhoeddus y caniateir iddynt godi ffioedd mewn perthynas â gorchmynion cydsyniad seilwaith yw'r cyrff y gellir rhoi swyddogaethau iddynt hefyd. Serch hynny, nid yw'r ffaith bod corff cyhoeddus yn cyflawni swyddogaeth neu'n darparu gwasanaeth fel rhan o'r Bil o reidrwydd yn golygu y gellir codi ffi. Rhaid i ffioedd a godir fod yn rhesymol ac yn briodol.

Gweinidogion Cymru

Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru, neu'r rhai a benodir ar eu rhan (megis PEDW), gyflawni'r swyddogaethau canlynol mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith:

- Darparu gwasanaethau cyn ymgeisio (os gofynnir amdanynt);
- Ymateb i ffurflen hysbysu cyn ymgeisio;
- Dilysu cais ar ôl iddo gael ei gyflwyno;

- Bodloni unrhyw ofynion perthnasol o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu;
- Ystyried amrywiadau i gais (os bydd ceisydd yn gofyn amdanynt);
- Archwilio cais;
- Penderfynu ar gais.

Gallai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflawni swyddogaethau tebyg pan ofynnir am ddiwygiad i orchymyn cydsyniad seilwaith ar ôl i gydsyniad gael ei roi, yn ogystal â swyddogaethau sy'n ymwneud â dirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith. Ein bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru yn codi ffi am brosesu gorchymyn cydsyniad seilwaith a phenderfyniad arno.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Bydd yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ("ACLI") gyflawni'r swyddogaethau canlynol mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith:

- Darparu gwasanaethau cyn ymgeisio (os gofynnir amdanynt);
- Cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol;
- Bod yn bresennol yn ystod yr archwiliad (lle y bo'n berthnasol).

Cyfoeth Naturiol Cymru

Bydd yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni'r swyddogaethau canlynol mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer trwydded forol dybiedig:

- Cyflwyno adroddiad effaith ar y môr (MIR)
- Bod yn bresennol yn ystod yr archwiliad (lle y bo'n berthnasol).

Ymgynghoreion statudol

Bydd yn ofynnol i ymgynghoreion statudol gyflawni'r swyddogaethau canlynol mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith:

- Ymateb i ymgynghoriadau ar ffurf ymateb o sylwedd;
- Bod yn bresennol yn ystod yr archwiliad (lle y bo'n berthnasol).

O ran rhoi swyddogaethau i ymgynghoreion statudol, efallai eich bod yn ymwybodol fy mod wedi ceisio cydsyniad Gweinidog y Goron i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys i ymgynghoreion statudol penodol. Mewn gohebiaeth â Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ym mis Mehefin 2023, yr anfonwyd copi ohoni i Gadeirydd y Pwyllgor hwn, atodais fy llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn ceisio'r cydsyniadau hynny. Mae trafodaethau rhwng swyddogion ynghylch y mater hwn yn dal i fynd rhagddynt.

Cwestiwn 27

A wnewch chi gadarnhau ein dealltwriaeth bod adran 127(3) yn cynnwys pŵer i wneud cyfarwyddydau, ac y bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny ar y cyfle nesaf sydd ar gael.

Darperir y pŵer i wneud cyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymgymryd ag unrhyw faterion perthnasol mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad seilwaith a gyflwynir i Weinidogion Cymru, o dan Adran 127(1). Mae adran 127(3) yn egluro sut y caiff cyfarwyddydau o'r fath eu rhoi. Nodwn fod gwall yn y tabl o is-ddeddfwriaeth sy'n awgrymu bod adran 127(3) yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau. Mae hyn yn anghywir ac, felly, byddwn yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol ar y cyfle nesaf.

Cwestiwn 28

Mae adran 128 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru a fydd yn eu galluogi i gyfarwyddo nad yw gofynion o dan y Ddeddf yn gymwys mewn achosion a bennir yn y cyfarwyddyd. Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth gyfiawnhau'r weithdrefn, yn nodi y bydd "is-ddeddfwriaeth yn cyfyngu'r pŵer hwn". a) Pam fod y pŵer hwn yn briodol ac yn angenrheidiol? b) Sut bydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei defnyddio i gyfyngu ar y pŵer?

Rhan a

Bwriedir i'r broses gydsynio a gyflwynir gan y Bil fod yn siop un stop ar gyfer cydsynio seilwaith yng Nghymru. Defnyddir un broses ar gyfer amrywiaeth eang o ddatblygiadau seilwaith ac mewn amrywiaeth eang o amgylchiadau gwahanol.

Bwriedir i'r broses fod yn rhagnodol. Er enghraifft, bydd is-ddeddfwriaeth yn rhagnodi'n fanwl sut mae'n rhaid i ymgynghoriadau gael eu cynnal neu sut y bydd yr awdurdod archwilio yn hysbysu partïon â buddiant ar ôl cael cais dilys.

Wrth fod yn rhagnodol, cydnabyddir y gallai deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i bartïon fodloni gofynion a allai fod yn ormodol o dan rai amgylchiadau cyfyngedig. Nod y Bil yw sicrhau proses archwilio dryloyw a theg sydd hefyd yn effeithlon ac yn amserol. Er mwyn parhau i gyflymu'r broses gydsynio, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i hepgor gofynion gweithdrefnol penodol ond dim ond os byddant o'r farn na fyddai hynny yn amharu ar degwch gweithdrefnol.

Nodir isod enghreifftiau o amgylchiadau lle y gellir ystyried anwybyddu gofynion.

Er enghraifft, bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi gofynion o ran cyhoeddusrwydd. Yn achos llwybr llinol, megis rheilffordd neu ffordd newydd, gallai hyn gynnwys sawl hysbysiad. Fodd bynnag, os bydd angen rhoi cyhoeddusrwydd ychwanegol i fân

ddiwygiad i'r cynllun, mae'n bosibl na fydd Gweinidogion Cymru yn gweld unrhyw reswm dros roi cyhoeddusrwydd i'r diwygiad hwn yn yr un ffordd.

Enghraifft arall yw pan fydd is-ddeddfwriaeth yn nodi gofynion y bydd yn rhaid i geisydd eu bodloni yn ystod yr ymgynghoriad cyn ymgeisio. Os bydd y rheoliad yn gofyn am gynnal digwyddiadau cyhoeddus er mwyn ymgynghori ar ddatblygiad arfaethedig, gallai fod achosion lle na fydd hyn yn ffisegol bosibl, er enghraifft yn ystod pandemig.

Enghraifft derfynol yw pan fydd is-ddeddfwriaeth yn pennu gofynion ymgynghori sy'n gysylltiedig â chywiro gwallau mewn penderfyniad. Yn dibynnu ar natur y cywiriad, gallai fod yn briodol hepgor rhai gofynion ymgynghori.

Mewn achosion o'r fath, byddai'n ddefnyddiol ac yn gymesur i Weinidogion Cymru arfer pŵer sy'n eu galluogi i hepgor gofyniad neu ofynion gweithdrefnol a nodir yn y Bil neu mewn rheoliadau. Er mwyn sicrhau tryloywder, pan gaiff gofynion eu hepgor, byddai'n bwysig bod y rhesymau dros hepgor y gofynion hynny yn cael eu cyhoeddi.

Rheoliadau i gyfyngu ar y pŵer hwn

Oherwydd natur y pŵer hwn, bwriedir cyfyngu ar ei gwmpas drwy is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid iddi nodi'r gofynion y gellir eu datgymhwysu drwy gyfarwyddyd.

Ar yr adeg hon, rhagwelir y bydd y pŵer hwn wedi'i gyfyngu i weithdrefnau cyn ymgeisio, i rai gweithdrefnau gwneud cais a'r weithdrefn ar gyfer cywiro gwallau mewn cydsyniad neu newid neu ddirymu cydsyniad seilwaith.

Ni fwriedir i'r is-ddeddfwriaeth, o dan unrhyw amgylchiadau, ei gwneud yn bosibl i gyfarwyddyd gael ei roi i ddatgymhwysu gofynion sy'n diogelu hawliau neu'n sicrhau na chyflawnir unrhyw droseddau, megis gweithdrefnau sy'n ymwneud â phrynu gorfodol.

Bydd rheoliadau hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd sy'n hepgor gofyniad a nodi'r rhesymau dros ei hepgor.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Legislation, Justice and
Constitution Committee**

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

27 Gorffennaf 2023

Annwyl Julie,

Y Bil Seilwaith (Cymru)

Diolch am dderbyn ein gwahoddiad i fod yn bresennol yn ein cyfarfod ar 25 Medi 2023 i drafod Bil Seilwaith (Cymru) ("y Bil").

Cyn y sesiwn honno, mae gennym nifer o gwestiynau i'w gofyn ichi am y Bil. Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad erbyn dydd Gwener, 8 Medi.

Anfonir copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



ATODIAD

Cwestiwn 1: A allwch chi ddarparu naratif sy'n esbonio'n fras sut y bydd y drefn cydsynio seilwaith newydd yn gweithio, gan nodi'r rhai sy'n chwarae rhan allweddol, y prosesau a'r cerrig milltir allweddol, ac ym mha fodd y mae'n wahanol i'r broses bresennol.

Cwestiwn 2: Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, yn mharagraff 3.9, "mae'r gwahaniaethau rhwng cyfundrefnau [cydsynio seilwaith] wedi parhau ac ehangu ymhellach yn sgil datganoli seilwaith ynni o dan Ddeddf Cymru 2017". A wnewch chi roi mwy o eglurder, ac esboniad am y gwahaniaethau hyn.

Cwestiwn 3: Mae'r Memorandwm Esboniadol, ym mharagraff 3.19, yn nodi y byddai cael proses gydsynio unedig "yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys cydsyniadau eraill ac awdurdodiadau sy'n ofynnol mewn dull 'siop un stop'". A allwch chi egluro ymhellach beth yw ystyr hyn, a rhoi esboniad ychwanegol.

Cwestiwn 4: A wnewch chi gadarnhau nifer yr holl bwerau dirprwyedig yn y Bil, a'u dadansoddiad, fesul math, gan gynnwys pwerau gwneud rheoliadau (gan gynnwys a yw pŵer yn bŵer Harri VIII), pwerau gwneud cyfarwyddiadau a phwerau gwneud gorchmynion, a'r weithdrefn graffu sydd ynghlwm wrth bob un.

Cwestiwn 5: Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r rheoliadau sydd angen iddynt gyflwyno, neu ddarparu ar gyfer "manyion sylweddol" yn cael eu defnyddio fel cyfiawnhad dros ddefnyddio'r weithdrefn negyddol mewn perthynas â nifer o bwerau dirprwyedig yn y Bil. Mae'r rhain yn cynnwys adrannau 27(1), 31(4), 33(3), 34, 53(4), 55, 126, a 129(2). Rhoddir esboniad tebyg am y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 128 o'r Bil sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. A wnewch chi roi rhagor o eglurder ac eglurhad o ran sut mae'r angen i gyflwyno neu ddarparu ar gyfer "manyion sylweddol" yn berthnasol i'r dewis o weithdrefn ym mhob un o'r darpariaethau hyn?

Cwestiwn 6: Yn y Memorandwm Esboniadol, defnyddir y gallu i "ddeddfu'n gyflym" fel cyfiawnhad dros ddefnyddio'r weithdrefn negyddol mewn perthynas â nifer o bwerau dirprwyedig yn y Bil. Mae'r rhain yn cynnwys adrannau 26, 27(1), 28(5), 29(1)(d), 30(2) a (3), 31(4), 31(5), 33(2)(c), 33(3), 33(5), 35(4)(b), 36(4)(b), 37(2) a (41), 3(5), 37(2) a (41), 3(5), 37(2) a (34), 52(1), 53(4), 54(d), 55, 56(4) a (6), 57(6), 59(3), 62(4), 69(1) a (2), 81(1), 81(4), 85, 88(1) i (3) a (5) i (7), 9(1), 85, 88(1) i (3) a (5) i (7), 9(1), 9 1(1) a (5) i (7), 9 1(1), 9 1(1), 5(1), 125(6) a (7), 126(1), (3) a (4), 127(2)(c), 127(3) a (4), 133(2)(e), a 141. Sut mae'r angen i weithredu'n "gyflym" yn berthnasol i'r dewis o weithdrefn ym mhob un o'r darpariaethau hyn?

Cwestiwn 7: Mae adran 22 o'r Bil yn ymdrin â chyfarwyddiadau sy'n nodi datblygiad fel prosiect seilwaith sylweddol. **a)** A wnewch chi gadarnhau diben y cyfarwyddyd a'r pwerau gwneud rheoliadau a geir yn adran 22 o'r Bil, a'r gofyniad amdano? **b)** Rydym yn nodi bod pŵer ar wahân i ychwanegu, amrywio neu ddileu prosiectau seilwaith sylweddol yn adran 17 o'r Bil. Pam y bydd angen y pwerau yn adran 22, o gofio bod y pwerau yn adran 17 hefyd yn cael eu darparu i Weinidogion Cymru?

Cwestiwn 8: Mewn perthynas ag adran 30(2) a (3) sy'n ymwneud ag ymgynghori cyn ymgeisio, mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, yn nodi y bydd y gofynion a nodir yn y rheoliadau yn darparu ar gyfer "lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil". At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio fel "mân fater gweithdrefnol". **a)** A allwch chi egluro ymhellach beth yw ystyr hyn? **b)** Pam ydych chi wedi bod o'r farn mai mân fater yw'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio?

Cwestiwn 9: Mewn perthynas ag adran 31(5) sy'n ymwneud â gwneud cais am gydsyniad seilwaith, mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, yn nodi y bydd y rhestr o swyddogaethau posibl yn cyflwyno "lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil". Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a gallant roi swyddogaeth i unrhyw berson, gan gynnwys arfer disgresiwn. Rhoddir esboniad tebyg am y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 128 o'r Bil sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. A allwch chi egluro ymhellach beth yw ystyr hyn a pham eich bod o'r farn mai "mân fater technegol" yw hwn?

Cwestiwn 10: Mae adran 34 yn ymdrin â rheoliadau ynghylch hysbysiadau a chyhoedduswydd. Mae adran 34(1)(b) yn datgan y caiff rheoliadau osod gofynion ar bersonau a bennir yn y rheoliadau i ymateb i hysbysiad o dan adran 33(2). Pa ofynion fydd yn cael eu gosod ac a oes unrhyw ofynion na ellid eu gosod?

Cwestiwn 11: Mae adran 37(4) yn diffinio "person yr effeithir arno" at ddiben yr adran honno. Mae'n datgan bod person yn "berson yr effeithir arno" os yw'r ceisydd "ar ôl gwneud ymholiad diwyd" yn gwybod bod gan y person fuddiant yn y tir y mae'r cais caffael gorfodol yn ymwneud ag ef. **a)** Beth yw ystyr "ymholi'n ddyfal"? **b)** Sut bydd hyn yn cael ei brofi? **c)** A yw hwn yn gysyniad sefydledig yn y gyfraith bresennol sy'n ymwneud â gwneud cais am gydsyniad seilwaith a/neu geisiadau caffael?

Cwestiwn 12: Mae adran 38 yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud a fydd yn gofyn am ymgynghori mewn perthynas â chaffael gorfodol. Rydym ar ddeall bod is-adran (1) yn cynnwys y pŵer i wneud rheoliadau yn yr adran hon. **a)** A wnewch chi egluro sut y bydd is-adrannau (2) a (3) yn gweithredu ac, yn benodol, yn cadarnhau bod y cyfeiriad at is-adran (2) yn is-adran (3) yn gywir. **b)** O dan ba amgylchiadau na fydd angen ymgynghori?

Cwestiwn 13: Mae adran 42 yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud a fydd yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad ag archwilio cais o dan Ran 4 o'r Bil. **a)** A wnewch chi roi esboniad pellach ac eglurder ynghylch y cyfarwyddyd a bennir yn is-adran (3), a chadarnhau pa bŵer y dibynnir arno er mwyn 'newid' y penderfynwr (o Weinidogion Cymru i'r awdurdod archwilio, ac i'r gwrthwyneb). **b)** Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 42, yn nodi y bydd y manylion yn y rheoliadau yn darparu ar gyfer "lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil." Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Rhoddir esboniad tebyg am y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 128 o'r Bil

sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. A allwch chi egluro ymhellach beth yw ystyr hyn a pham eich bod o'r farn mai mân fater yw hwn?

Cwestiwn 14: Mae adran 43 yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer pwerau mynediad i archwilio tir y mae'r ceisydd yn berchen arno neu'n ei feddiannu heblaw gan y ceisydd. **a)** Pa egwyddorion fydd yn berthnasol i'r pwerau i fynd ar dir, a pham nad ydyn nhw ar wyneb y Bil? **b)** Pwy sy'n cael ei gwmpasu gan yr ymadrodd "person, ar ei ben ei hun neu gydag eraill" at ddiben adran 43? **c)** Nid yw'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, gan nad yw wedi'i restru yn adran 138(4) o'r Bil. Pam yr ystyriwyd bod y weithdrefn negyddol yn briodol yn yr achos hwn? Mae'r Memorandwm Esboniadol dim ond yn datgan bod y pŵer i fynd ar dir yn "fân fater gweithdrefnol o fewn y cynllun deddfwriaethol ehangach."

Cwestiwn 15: Mae adran 45 yn ymwneud â mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol. Mae is-adran (6) yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau a fydd yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaethau ynghylch gweithdrefnau i'w dilyn a swyddogaethau cynrychiolydd penodedig. Mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, yn nodi yr ystyrir bod y mater hwn yn addas i'w gynnwys mewn rheoliadau "oherwydd bod angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol". Nid yw'n ymddangos bod y cyfiawnhad yn mynd i'r afael ag is-adran (6)(b) a fydd yn galluogi'r rheoliadau i ddarparu ar gyfer swyddogaethau cynrychiolydd penodedig, ac nad yw'n ymwneud â gweithdrefnau. A wnewch chi roi mwy o eglurder, gan gynnwys esboniad o beth yw swyddogaethau cynrychiolydd penodedig a sut y gallent newid dros amser.

Cwestiwn 16: Mae adran 55 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu materion y caiff yr awdurdod eu harchwilio, neu Weinidogion Cymru, eu diystyru wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith. Beth yw pwrpas y ddarpariaeth hon a pha faterion y gellir eu diystyru? Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw fanylion am yr hyn y mae'r ddarpariaeth hon yn ceisio'i gyflawni, dim ond y bydd y materion "yn cyflwyno lefel sylweddol o fanylion a bydd angen iddo hefyd fod yn hyblyg i ymateb i unrhyw newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol".

Cwestiwn 17: Mae adran 56(6) yn darparu pŵer i reoliadau ddiwygio adran 56(1)(a). Mae hwn yn bŵer Harri VIII sy'n galluogi diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Pam, felly, nad yw rheoliadau a wneir o dan adran 56(6) wedi'u cynnwys yn adran 138(4) o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol iddynt ddilyn y weithdrefn gadarnhaol?

Cwestiwn 18: Mae adran 57 yn ymdrin â rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith. Mae is-adran (6) yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud a fydd yn gwneud darpariaeth sy'n rheoleiddio'r weithdrefn sydd i'w dilyn os yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith ar delerau sy'n "sylweddol wahanol" i'r rheini a gynigir yn y cais. Mae rheoliadau o'r fath i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol. O ystyried bod "sylweddol wahanol" yn debygol o gynnwys newidiadau sy'n fwy na mân newidiadau eu natur, ac y gallent gynnwys newidiadau

sylweddol, a wnewch chi egluro pam yr ydych yn ystyried bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau o'r fath.

Cwestiwn 19: Mae adran 59 o'r Bil yn ymwneud â'r rhesymau dros benderfyniad i roi neu wrthod cydsyniad seilwaith. A oes unrhyw bersonau a fydd bob amser yn cael copi o ddatganiad gan Weinidogion Cymru o dan adran 59(3)?

Cwestiwn 20: Mae adran 81 o'r Bil yn ymwneud â dileu gofynion cydsynio a thybio cydsyniadau. **a)** Pa gydsyniadau penodol a gwmpesir gan adran 81(1)(a)? **b)** O dan adran 81(4) caiff rheoliadau ddarparu eithriadau i'r gofyniad i fodloni'r amodau yn is-adrannau (2) a (3). Beth yw'r eithriadau a pham na ellir eu gosod ar wyneb y Bil?

Cwestiwn 21: Mae adran 82 o'r Bil yn ymwneud â chyhoeddi a'r weithdrefn ar gyfer gorchmynion cydsyniad seilwaith. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o offeryn statudol, cynllun a datganiad o resymau gerbron y Senedd. Rydym yn nodi bod adran 138(5) o'r Bil yn darparu y bwriedir i'r weithdrefn negyddol fod yn gymwys i unrhyw offeryn sy'n cynnwys rheoliadau nad yw 138(4) yn gymwys iddo. Nid yw offeryn a wneir o dan adran 82 wedi ei restru yn adran 138(4). Ai'r bwriad yw y byddai offeryn o'r fath yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol, neu ai gweithdrefn hollol newydd a fwriedir?

Cwestiwn 22: A wnewch chi gadarnhau ein dealltwriaeth bod adran 84(4) yn cynnwys pŵer i wneud gorchymyn, ac y bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny ar y cyfle nesaf sydd ar gael.

Cwestiwn 23: Mewn perthynas ag adran 88 sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer newid a dirymu gorchmynion cydsynio seilwaith, mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, yn nodi y bydd y gofynion a nodir yn y rheoliadau yn darparu ar gyfer "manyllion sylweddol a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil". Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Rhoddir esboniad tebyg am y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 128 o'r Bil sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. A allwch chi egluro ymhellach beth yw ystyr hyn a pham eich bod o'r farn mai mân fater yw hwn?

Cwestiwn 24: Mae adran 92 yn ymdrin â phryd y bydd datblygiad yn dechrau, at ddibenion y Ddeddf. Mae adran 92(2) yn nodi bod "gweithrediad materol" yn golygu "unrhyw weithrediad ac eithrio gweithrediad o fath a bennir mewn rheoliadau". Pa weithrediadau na fydd yn weithrediadau materol?

Cwestiwn 25: Mae adran 115 yn ymdrin â chyfyngiadau ar y pŵer i roi hysbysiad stop dros dro. Pa weithgareddau na fydd hysbysiad stop dros dro o dan adran 115(1) yn eu gwahardd?

Cwestiwn 26: Mae adran 121 yn ymdrin â ffioedd am gyflawni swyddogaethau a gwasanaethau cydsyniad seilwaith. **a)** O dan adran 121, pa awdurdodau cyhoeddus fydd yn cael codi ffioedd? **b)** O

dan adran 121(5) gellir rhoi swyddogaethau i unrhyw berson drwy reoliadau. Beth yw'r swyddogaethau ac i bwy y cânt eu rhoi?

Cwestiwn 27: A wnewch chi gadarnhau ein dealltwriaeth bod adran 127(3) yn cynnwys pŵer i wneud cyfarwyddydau, ac y bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny ar y cyfle nesaf sydd ar gael.

Cwestiwn 28: Mae adran 128 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru a fydd yn eu galluogi i gyfarwyddo nad yw gofynion o dan y Ddeddf yn gymwys mewn achosion a bennir yn y cyfarwyddyd. Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth gyfiawnhau'r weithdrefn, yn nodi y bydd "is-ddeddfwriaeth yn cyfyngu'r pŵer hwn". **a)** Pam fod y pŵer hwn yn briodol ac yn angenrheidiol? **b)** Sut bydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei defnyddio i gyfyngu ar y pŵer?

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-0994-23

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

12 Mehefin 2023

Annwyl Llŷr

Yn sgil cyflwyno Bil Seilwaith (Cymru) i'r Senedd ar 12 Mehefin, amgaeaf gopi o Bapur Methodoleg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA). Darperir y ddogfen hon i helpu'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil. Mae'n ategu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drwy roi manylion y gwaith cyfrifo sy'n sail i'r costau ar gyfer yr opsiynau amrywiol a amlinellir ar gyfer penderfynu ar geisiadau datblygu seilwaith yn y dyfodol, fel y gwelir ym Mhenodau 7 ac 8 yr asesiad.

Edrychaf ymlaen at ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 62
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/0994/23

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Medi 2023

Annwyl Llŷr,

Yn dilyn cyflwyno Bil Seilwaith (Cymru) i'r Senedd ar 12 Mehefin 2023, amgaeaf gopi o'r Datganiad o Fwriad Polisi mewn perthynas â'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil. Darperir y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo'r Senedd i graffu ar y Bil.

Edrychaf ymlaen at gyflwyno rhagor o dystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Byddaf yn angon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 63



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Seilwaith (Cymru)

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y
Bil hwn

Medi 2023

Bil Seilwaith (Cymru)

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi rhyw syniad o fwriad y polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w gwneud neu y byddai'n ofynnol iddynt ei gwneud o dan ddarpariaethau Bil Seilwaith (Cymru) ("y Bil").

Lluniwyd y Datganiad er mwyn helpu'r Senedd yn ystod y broses o graffu ar y Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n ei ategu.

Yn unol â'n harfer wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid. Bydd y cynigion manwl yn destun ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn llywio'r darpariaethau terfynol er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.

Caiff cyfres o ddogfennau canllaw eu llunio hefyd er mwyn helpu i roi'r Bil ar waith.

RHAN 1 – PROSIECTAU SEILWAITH ARWYDDOCAOL

Pŵer(au): Rhan 1, adran 17

Disgrifiad:

Bydd y pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- diwygio Rhan 1 o'r Bil er mwyn ychwanegu math newydd o brosiect seilwaith arwyddocaol neu amrywio neu ddileu prosiect seilwaith arwyddocaol presennol
- gwneud darpariaeth bellach, neu ddiwygio neu ddiddymu darpariaeth bresennol, ynghylch y math o brosiect sy'n brosiect seilwaith arwyddocaol neu nad yw'n brosiect seilwaith arwyddocaol.

Bwriad y polisi:

Nodir meini prawf a throthwyon prosiectau seilwaith arwyddocaol cymwys yn Rhan 1. Mae'n hanfodol bod y meini prawf cymhwys hyn yn parhau i fod yn ystwyth yn wyneb amgylchiadau sy'n newid.

Mae technoleg sy'n ymwneud â seilwaith, yn enwedig ynni adnewyddadwy, yn datblygu'n gyflym. Mae angen proses ystwyth a all gynnwys y prosiectau perthnasol ar yr adeg gywir.

Er mwyn sicrhau bod y broses yn addas at y dyfodol, mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid y trothwyon a'r meini prawf a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol drwy is-ddeddfwriaeth.

Maes Pwnc	Disgrifiad
<p>Adran 17</p> <p>Pŵer i ychwanegu, amrywio neu ddileu prosiectau a diwygio trothwyon cymhwyso</p>	<p>Cefndir</p> <p>Mae technoleg sy'n ymwneud â seilwaith, yn enwedig ynni adnewyddadwy, yn datblygu'n gyflym. Mae'r Bil yn cynnwys proses hyblyg a chymesur i gynnwys prosiectau perthnasol a ddylai fod yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn gydsynio newydd.</p> <p>Rhagwelwn dri senario lle y gallai fod angen diwygio'r meini prawf a throthwyon cymhwyso yn y dyfodol, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • newidiadau o ran effeithlonrwydd technolegol sy'n lleihau arwynebedd y tir sydd ei angen i sicrhau capasiti cynhyrchu uwch. Er enghraifft, trothwy Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ar gyfer gorsaf gynhyrchu (yn hytrach na datblygiad gwynt ar y tir) yw capasiti cynhyrchu o hyd at 10MW. Dengys datblygiadau technolegol sydd wedi digwydd ers 2015 y gellir cyrraedd y trothwy hwn yn fwy effeithlon bellach ag ôl troed llai o faint. Adlewyrchir hyn gan y ffaith bod trothwy'r gyfundrefn Gydsynio Seilwaith wedi'i bennu ar lefel uwch, sef 50MW, yn hytrach na 10MW. Mae'n debygol y bydd angen gwneud addasiad o'r fath unwaith eto yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y broses gydsynio yn gymesur. • efallai y bydd newidiadau i bolisi neu ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth Cymru gael ei haddasu. Er enghraifft, datganolodd Deddf Cymru 2017 ragor o gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer cydsynio prosiectau ynni ac roedd Gweinidogion Cymru yn gallu addasu'r gyfundrefn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn gyflym am fod y trothwyon wedi'u rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth.

- gallai math newydd neu gynyddol amlwg o dechnoleg cynhyrchu ynni ddod ar gael yn fasnachol a gallai fod angen ei gynnwys, megis ymasiad niwclear. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu dynodi'r prosiectau hyn yn Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol.

Is-ddeddfwriaeth

Am y tri rheswm a ddisgrifiwyd uchod, mae'r Bil yn caniatáu i is-ddeddfwriaeth ddileu neu ychwanegu math o brosiect o'r meini prawf cymhwyso a geir yn Rhan 1 o'r Bil neu amrywio'r trothwyon cymhwyso. Dim ond os bydd y gwaith yn cael ei wneud yng Nghymru, ardal forol Cymru neu'r naill a'r llall a'i fod yn dod o fewn y meysydd a nodir yn adran 17(4) y caiff rheoliadau ychwanegu math newydd o brosiect neu amrywio prosiect presennol.

Gan fod y Rheoliadau yn gallu diwygio, amrywio neu ddileu deddfiadau o'r Ddeddf hon a Deddfau eraill Senedd Cymru, mae hwn yn bŵer Harri VIII. Felly, bydd angen craffu ar yr is-ddeddfwriaeth drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

RHAN 2 – GOFYNIAD AM GYDSYNIAD SEILWAITH

Pŵer(au): Rhan 2, adrannau 21, 22 a 26

Disgrifiad:

Bydd y pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- ychwanegu math o gydsyniad/awdurdodiad at y rhestr o gydsyniadau a nodir yn adran 20 na ellir eu cael na'u rhoi ar gyfer datblygiadau sydd i'w cynnwys yn y broses gydsynio newydd neu ei ddileu o'r rhestr honno;
- amrywio'r achosion presennol y mae math o gydsyniad yn cael ei nodi yn adran 20 mewn perthynas â nhw;
- gwneud darpariaethau pellach mewn perthynas â'r math o gydsyniadau a'r achosion a nodir yn adran 20;
- gwneud rheoliadau sy'n pennu mathau o brosiectau y gellid cyfarwyddo eu bod yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol;
- gwneud darpariaethau ynghylch materion gweithdrefnol mewn cysylltiad â'r pwerau i wneud cyfarwyddydau a nodir yn adrannau 22, 23 neu 24.

Bwriad y polisi:

Ychwanegu neu ddileu math o gydsyniad/awdurdodiad

Mae'r Bil yn atal datblygwyr rhag gallu cael cydsyniadau nac awdurdodiadau, megis caniatâd neu gydsyniad cynllunio o dan adran 37 o Ddeddf Trydan 1989, pan fydd prosiect yn gymwys i gael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol. Mae adran 20 yn rhestru'r math o gydsyniad na ellir ei gael na'i roi mwyach i'r graddau y mae angen Cydsyniad Seilwaith ar gyfer datblygiad.

Fodd bynnag, mae'r Bil hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu meini prawf a throthwyon cymhwyso Prosiect Seilwaith Arwyddocaol (yn unol ag adran 17), er mwyn rhoi hyblygrwydd yn y gyfundrefn gydsynio i ymateb i alwadau ac amgylchiadau sy'n newid yn y dyfodol (gweler y Datganiad o Fwriad y Polisi sy'n ymwneud ag adran 17 am ragor o fanylion).

Lle y ceisir yr hyblygrwydd a roddir gan adran 17, mae'n bosibl y bydd angen i gydsyniadau/awdurdodiadau ychwanegol nad oes eu hangen mwyach gael eu nodi yn y Bil. Felly, mae rheoliadau yn ei gwneud yn bosibl i'r rhestr hon o gydsyniadau/awdurdodiadau neu'r amgylchiadau lle mae angen y cydsyniadau hyn neu lle nad oes eu hangen mwyach, gael ei haddasu drwy is-ddeddfwriaeth.

Pŵer i gyfarwyddo bod prosiect yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol

Os bydd prosiect islaw'r trothwyon gorfodol a nodir yn Rhan 1 o'r Bil ond yr ystyrir ei fod o arwyddocâd cenedlaethol, er enghraifft drwy gael effeithiau sylweddol, neu ei fod yn cynnwys technoleg newydd neu amgylchiadau newydd, mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo bod y cyfryw brosiect yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol y dylid penderfynu arno o dan y broses gydsynio newydd.

Mae'r Bil yn pennu cyfyngiadau ar y pŵer hwn i wneud cyfarwyddydau drwy ei gwneud yn ofynnol i is-ddeddfwriaeth ddisgrifio math o ddatblygiad y gellir cyfarwyddo iddo gael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol. Caiff y rheoliadau hyn gynnwys trothwyon, ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny.

Caiff mân faterion gweithdrefnol sy'n ymwneud â'r ffordd y dylid cyflwyno cais am gyfarwyddyd i Weinidogion Cymru a'r amserlen i Weinidogion Cymru benderfynu a yw prosiect neu gais yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol eu nodi mewn rheoliadau hefyd.

Maes Pwnc	Disgrifiad
<p>Adran 21</p> <p>Ychwanegu neu ddileu math o gydsyniad/awdurdodiad o'r rhestr o gydsyniadau nad oes eu hangen mwyach ar gyfer datblygiad fel y'u nodir yn adran 20</p> <p>Amrywio'r achosion y mae math o gydsyniad yn cael ei nodi yn</p>	<p>Cefndir</p> <p>Mae angen y pŵer hwn i wneud rheoliadau o ganlyniad uniongyrchol i adran 17 yn Rhan 1.</p> <p>Mae angen cael Cydsyniad Seilwaith ar gyfer unrhyw ddatblygiad sy'n Brosiect Seilwaith Arwyddocaol neu sy'n rhan o brosiect o'r fath, fel y nodir yn Rhan 1.</p> <p>Er mwyn atal y broses olrhain cydsyniadau ar y cyd neu atal datblygwr rhag defnyddio llwybr gwahanol i gael cydsyniad, mae'r Bil yn atal cydsyniadau eraill ar gyfer y datblygiad neu'r gwaith sy'n gymwys i gael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol rhag cael eu rhoi.</p>

<p>adran 20 mewn perthynas â nhw</p>	<p>I'r graddau y mae angen Cydsyniad Seilwaith, ni ellir rhoi cydsyniadau nac awdurdodiadau a nodir yn adran 20 o'r Bil mewn perthynas â Phrosiect Seilwaith Arwyddocaol</p> <p>Pŵer i ddiwygio'r rhestr o gydsyniadau/awdurdodiadau</p> <p>Mae adran 17 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu meini prawf a throthwyon prosiectau cymwys. Mae'n bosibl y bydd angen nodi cydsyniadau/awdurdodau ychwanegol nad oes eu hangen mwyach yn y Bil er mwyn osgoi olrhain ar y cyd neu lwybrau cydsynio amgen a ddefnyddir gan ddatblygwyr. Felly, mae rheoliadau yn ei gwneud yn bosibl i'r rhestr hon o gydsyniadau/awdurdodiadau neu'r amgylchiadau lle mae angen y cydsyniadau hyn neu lle nad oes eu hangen mwyach, gael ei haddasu drwy is-ddeddfwriaeth.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r Bil yn caniatáu i is-ddeddfwriaeth ddiwygio adran 20 o'r Bil. Ystyrir bod hyn yn briodol er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn addas at y dyfodol ac ymateb yn effeithlon i newidiadau yn neddfwriaeth y DU. Efallai y bydd tystiolaeth hefyd yn dod i'r amlwg, o anghenion diwydiant a pholisïau ac amcanion y llywodraeth yn y dyfodol, y dylid cynnwys mathau ychwanegol o gydsyniad yn y broses gydsynio hon neu y dylid amrywio'r achosion presennol y mae cydsyniad wedi'i gynnwys yn y broses hon mewn perthynas â nhw.</p> <p>Efallai y bydd angen addasu ymatebion i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn amlach nag y byddai'n bosibl i'r Senedd ddeddfu.</p> <p>Gan fod y Rheoliadau yn gallu diwygio, amrywio neu ddileu deddfiadau o'r Ddeddf hon a Deddfau eraill Senedd Cymru, byddant yn ddarostyngedig i weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft y Senedd.</p>
--------------------------------------	--

<p>Adran 22</p> <p>Gwneud rheoliadau sy'n pennu mathau o brosiectau y gellid cyfarwyddo eu bod yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol</p>	<p>Cefndir</p> <p>Mae'n Bil yn nodi meini prawf a throthwyon prosiectau seilwaith arwyddocaol sydd wedi'u cynnwys yn y gyfundrefn gydsynio newydd ar hyn o bryd.</p> <p>Ar gyfer mathau penodol o brosiectau (yn bennaf y rhai ag allbwn ynni canolig), neu brosiect sy'n cynnwys technoleg newydd neu amgylchiadau newydd, efallai na fydd trothwy meintiol gorfodol syml yn ddigonol i bennu a yw prosiect mor arwyddocaol a chymhleth fel y gellir cyfiawnhau defnyddio proses gydsynio unedig ar ei gyfer.</p> <p>Felly, os bydd datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol i Gymru caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i bennu bod datblygiad arfaethedig yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol.</p> <p>Enghraifft 1 – pan fo'r prosiect islaw meini prawf gorfodol</p> <p>Os bydd prosiect ychydig o dan feini prawf gorfodol y Bil ond ei fod yn debygol o godi pryderon sylweddol oherwydd ei leoliad a'i gymhlethdod, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod y prosiect yn cael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol ac, felly, fod angen cael cydsyniad seilwaith ar ei gyfer.</p> <p>Er enghraifft, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod fferm solar arfaethedig sydd â chapasiti cynhyrchu o 30MW ond sydd wedi'i leoli ger derbynnydd sensitif yn cael ei hystyried yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol oherwydd ei heffeithiau sylweddol posibl.</p> <p>Enghraifft 2 – pan fo'r prosiect yn cynnwys technoleg newydd neu amgylchiadau newydd</p> <p>Yn ogystal â'r pŵer i gyfarwyddo pan fo prosiect islaw'r trothwyon gorfodol, mae'r Bil yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wrth ystyried a ddylai technoleg newydd neu amgylchiadau newydd ddod o dan y gyfundrefn gydsynio.</p>
--	---

	<p>Er enghraifft, nid yw datblygiad sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen wedi'i gynnwys yn y Bil ar hyn o bryd am ei fod yn dechnoleg gymharol newydd ac am fod gan yr achosion sydd wedi'u cyflwyno hyd yma gapasiti bach ac nad ydynt yn gymhleth.</p> <p>Fodd bynnag, os cyflwynir prosiect newydd sy'n fwy cymhleth ac a allai gael effeithiau sylweddol, efallai y byddai'r prosiectau hyn yn elwa o gael eu cynnwys yn y gyfundrefn gydsynio unedig newydd, oherwydd eu hamgylchiadau newydd.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Fodd bynnag, mae'r Bil wedi'i lunio i fod yn dryloyw ac yn deg ac, felly, mae'r Bil yn gosod cyfyngiadau ar y pwerau hyn i gyfarwyddo, lle y bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi cwmpas prosiectau y gellir cyfarwyddo eu bod yn cael eu hystyried yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol y dylid penderfynu arno o dan y broses gydsynio newydd.</p> <p>Mae'r Bil yn darparu y gall y datblygwr wneud cais i Weinidogion Cymru benderfynu a yw prosiect yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol neu gall Gweinidogion Cymru wneud hynny yn unochrog. Ni all trydydd partïon gyflwyno cais i Weinidogion Cymru.</p> <p>Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i ymateb i gais gan ddatblygwr. Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi'r terfyn amser ar gyfer ymateb (gweler adran 26).</p> <p>Bydd monitro'r cyfarwyddydau a wneir mewn perthynas â datblygiadau hefyd yn llywio unrhyw newidiadau i'r rheoliadau hyn. Os bydd angen, gallai hefyd ddarparu sail dystiolaeth i ystyried newid y trothwyon gorfodol ar wyneb y Bil.</p>
<p>Adran 26</p> <p>Gwneud darpariaethau ynghylch materion gweithdrefnol mewn</p>	<p>Cefndir</p> <p>Mae Rhan 2 o'r Bil yn rhoi sawl pŵer i wneud cyfarwyddydau i Weinidogion Cymru, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pŵer i gyfarwyddo bod prosiect neu gais yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol

<p>cysylltiad â'r pwerau i wneud cyfarwyddydau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • pŵer i gyfarwyddo nad yw prosiect yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol. <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Caiff rheoliadau bennu materion gweithdrefnol mewn cysylltiad â'r pŵer i gyfarwyddo a roddir i Weinidogion Cymru. Caiff rheoliadau bennu'r terfynau amser i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ynghylch a yw prosiect yn brosiect seilwaith arwyddocaol, yn dilyn cais am gyfarwyddyd. Caiff rheoliadau hefyd bennu ffurf cais am gyfarwyddyd a'r wybodaeth y mae angen ei chyflwyno gyda chais er mwyn helpu Gweinidogion Cymru yn y broses gwneud penderfyniadau.</p> <p>Caiff safonau gofynnol eu pennu mewn rheoliadau a allai gynnwys gofyniad i gyflwyno cynllun lleoliad fel rhan o gais am gyfarwyddyd ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, a oes cais cydredol neu flaenorol wedi'i gyflwyno mewn cysylltiad â'r datblygiad arfaethedig a'r rhesymau pam mae'r datblygwr o'r farn bod y prosiect yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol.</p> <p>Ystyrir bod y materion gweithdrefnol yn addas ar gyfer rheoliadau gan y byddant yn darparu ar gyfer manion technegol. Mae angen hyblygrwydd hefyd er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau gweithdrefnol os ystyrir bod eu hangen neu eu bod yn briodol i fod o fudd i'r broses gydsynio.</p>
--	---

RHAN 3 – GWNEUD CAIS AM GYDSYNIAD SEILWAITH

Pŵer(au): Rhan 3, adrannau 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37 a 38

Disgrifiad:

Bydd y pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- nodi sut a phryd y mae'n rhaid darparu gwasanaethau cyn gwneud cais, os gwneir cais;
- pennu ffurf a chynnwys hysbysiad cyn gwneud cais, sut y dylid ei roi a'r cyfnod y mae'n rhaid iddo gael ei roi o'i fewn;
- pennu gofynion ymgynghori cyn gwneud cais;
- nodi'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith, gan gynnwys pa wybodaeth a deunyddiau y mae'n rhaid eu darparu gyda chais a'r broses ddilysu;
- pennu gofynion o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu ar i gais dilys gael ei dderbyn;
- pennu ffurf a chynnwys Adroddiadau ar yr Effaith Leol ac Adroddiadau Effaith ar y Môr;
- nodi gofynion sy'n ymwneud â chaffael tir yn orfodol;

Bwriad y polisi:

Gwasanaethau, hysbysu ac ymgynghori cyn gwneud cais

Mae rhoi mwy o bwyslais ar gamau rhagarweiniol y broses gwneud cais am gydsyniad seilwaith yn agwedd bwysig ar y broses gydsynio gyfan, oherwydd gall ymgysylltu'n gynnar â Gweinidogion Cymru a/neu'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol ("ACLI"), yn ogystal â rhanddeiliaid a chymunedau lleol, helpu i ddatrys unrhyw broblemau gyda chynnig datblygu ar gam cynnar.

Bwriad ein polisi yw cyflwyno nifer o ddarpariaethau cyn gwneud cais, sy'n debyg i'r rhai a nodwyd eisoes fel rhan o broses 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i ddarpar geisyddion ofyn am gyngor cyn gwneud cais gan Weinidogion Cymru a/neu'r ACLI perthnasol, gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru o fwriad i gyflwyno cais am gydsyniad seilwaith a gofyniad i ymgynghori ac ymgysylltu cyn gwneud cais cyn y gellir cyflwyno cais. Bydd hyn yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru, ACLlau, rhanddeiliaid a chymunedau lleol yn cael eu hysbysu am ddatblygiad arfaethedig ac y gallant wneud sylwadau cyn gynted â phosibl.

Gwneud cais am gydsyniad seilwaith

Er mwyn archwilio cais am gydsyniad seilwaith yn effeithlon a sicrhau bod gan y person(au) sy'n archwilio cais yr holl wybodaeth a thystiolaeth angenrheidiol o'u blaen er mwyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth, bwriedir pennu ffurf a chynnwys cais, sut y dylid cyflwyno ceisiadau a pha wybodaeth, dogfennau a deunyddiau eraill y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cais, fel gofyniad sylfaenol.

Gofynion o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu

Er mwyn sicrhau proses agored a thryloyw, yn ogystal â rhoi cyfle i gynifer o bobl â phosibl weld cais a gwneud sylwadau arno pan fydd un wedi'i ddilysu gan Weinidogion Cymru, mae'r Bil yn darparu ar gyfer ymgymryd â gofynion penodol sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd a hysbysu.

Bwriad y polisi yw defnyddio cynifer o ddulliau addas â phosibl i roi cyhoeddusrwydd i gais a hysbysu partïon perthnasol. Felly, rydym yn bwriadu rhagnodi pa ddulliau fydd y rhain, o ran datblygiadau ar y tir ac ar y môr, pa bersonau a phartïon y dylid eu targedu yn ystod y broses hon a, lle y defnyddir hysbysiadau ysgrifenedig a hysbysiadau safle, pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn yr hysbysiadau hyn.

Adroddiadau ar yr effaith leol ac adroddiadau effaith ar y môr

Pan fo cais yn cael ei archwilio, mae'n bwysig bod y person(au) sy'n cynnal yr archwiliad yn ymwybodol o unrhyw effeithiau tebygol y byddai datblygiad arfaethedig yn eu cael ar ardal leol neu'r amgylchedd morol. Felly, mae'r Bil yn nodi'r amgylchiadau lle mae'n rhaid i ACLlau (ac unrhyw gynghorau cymuned) gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol ("LIR") neu lle y gallant wneud hynny, neu yn achos datblygiad ar y môr, lle mae'n ofynnol i'r awdurdod morol perthnasol gyflwyno adroddiad effaith ar y môr ("MIR"). Er mwyn sicrhau bod adroddiadau ar yr effaith leol ac adroddiadau effaith ar y môr yn darparu gwybodaeth ystyrlon, rydym yn bwriadu nodi beth mae'n rhaid i'r adroddiadau hyn eu cynnwys, o leiaf.

Caffael tir yn orfodol

Prif fwriad y polisi ar gyfer caffael tir yn orfodol yw sicrhau, pan fo ceisydd yn cyflwyno ei gynnig am brosiect seilwaith arwyddocaol, a bod angen caffael tir neu hawliau dros dir er mwyn gallu gweithredu'r prosiect hwnnw, gall caffael gorfodol gael ei ystyried ac, os

yw'n dderbyniol, ei gymeradwyo fel rhan o'r cydsyniad seilwaith dilynol. Bydd hyn yn sicrhau y caiff materion caffael tir ar gyfer datblygiadau seilwaith eu cynnwys yn y broses gydsynio newydd, gan roi mwy o sicrwydd.

Bwriedir i'r darpariaethau penodol o dan Ran 3 ar gyfer caffael gorfodol sicrhau, pan fydd gan bobl fuddiant mewn tir fel rhan o gydsyniad seilwaith arfaethedig, yr ymgynghorir â nhw yn llawn ynghylch y cynnig a'r elfen caffael tir yn arbennig ac y cânt eu hysbysu amdanynt.

Yn amodol ar ymgynghori â rhanddeiliaid, crynhoir isod fwriad y polisi presennol ynghylch y manylion sydd i'w rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth.

Maes Pwnc	Disgrifiad
<p>Adran 27</p> <p>Darparu gwasanaethau cyn gwneud cais</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â darparu gwasanaethau cyn gwneud cais gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol.</p> <p>Cefndir</p> <p>Mae darparu gwasanaethau cyn gwneud cais yn rhoi cyfle i ddarpar geisyddion drafod, ymhlith pethau eraill, unrhyw agweddau technegol sy'n ymwneud â ffurf a chynnwys cais, ceisio cyngor ar unrhyw bolisiâu perthnasol a meithrin dealltwriaeth o unrhyw faterion lleol sy'n ymwneud â safle datblygu arfaethedig, gan gynnwys mesurau lliniaru posibl. Gellir ceisio gwasanaethau cyn gwneud cais gan Weinidogion Cymru, yr ACLlau perthnasol neu'r naill a'r llall.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Ffurf a chynnwys cais am wasanaethau cyn gwneud cais</u></p>

	<p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu ffurf a chynnwys cais am wasanaethau cyn gwneud cais sydd i'w wneud gan ddatblygwr, gan gynnwys pa wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu gyda chais, megis cynllun o leoliad safle ac unrhyw gynlluniau neu luniadau eraill a nodir.</p> <p>Bydd ceisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais hefyd yn destun proses ddilysu, gyda'r weithdrefn a'r gofynion yn cael eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn cynnwys cais am wasanaethau cyn gwneud cais yn cael ei ystyried yn ddilys ai peidio o fewn 28 diwrnod a chadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwn yn cael ei roi i'r person a ofynnodd am y gwasanaethau.</p> <p><u>Darparu gwasanaeth cyn gwneud cais</u></p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth hefyd yn rhagnodi pa wybodaeth y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ac ACLlau ei darparu (o leiaf), fel rhan o'u gwasanaethau cyn gwneud cais er mwyn helpu darpar geisyddion i gael gwasanaeth digonol sy'n eu galluogi i ddatblygu eu cynnig er budd y gymuned leol a'r gymuned ehangach. Bydd hyn yn amrywio rywfaint yn dibynnu ar b'un a yw ceisydd yn ceisio cyngor cyn gwneud cais gan Weinidogion Cymru neu Awdurdod Cynllunio Lleol. Fodd bynnag, gallant geisio cyngor gan y naill a'r llall os ystyrir bod angen gwneud hynny.</p> <p>Rhagwelwn y caiff Gweinidogion Cymru roi cyngor ar faterion megis y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):</p> <ul style="list-style-type: none"> • ffurf a chynnwys y cais am gydsyniad seilwaith; • unrhyw bolisiâu a chanllawiau perthnasol; • y broses ar gyfer cael cydsyniad seilwaith, gan gynnwys cydsyniadau eilaidd. <p>Yn yr un modd, rhagwelwn y caiff ACLlau roi cyngor ar faterion megis y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):</p> <ul style="list-style-type: none"> • hanes cynllunio perthnasol y safle datblygu; • unrhyw bolisiâu perthnasol (megis y rhai a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol);
--	---

	<ul style="list-style-type: none"> • syniad o unrhyw faterion lleol sy'n gysylltiedig â'r safle datblygu, gan gynnwys mesurau lliniaru posibl; • unrhyw unigolion, grwpiau neu gymdeithasau y gallai fod yn briodol ymgynghori â nhw. <p>Caiff terfyn amser ar gyfer rhoi cyngor cyn gwneud cais i ddarpar geisydd ei ragnodi mewn is-ddeddfwriaeth hefyd. Rhagwelwn mai'r terfyn amser hwn fydd 28 diwrnod o'r dyddiad y mae Gweinidogion Cymru neu'r ACLI yn cadarnhau bod cais am wasanaethau cyn gwneud cais yn ddilys, oni chytunir ar estyniad amser yn ysgrifenedig, yn achos ACLlau, neu oni fydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod angen rhagor o amser.</p> <p><u>Cyhoeddi gwasanaethau cyn gwneud cais</u></p> <p>At hynny, bydd is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru neu ACLlau gyhoeddi manylion am y gwasanaethau cyn gwneud cais a gynigir ganddynt a rhestr ffioedd, ar wefan y maent yn berchen arni neu a gynhelir ganddynt. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod darpar geisyddion yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig a sut y gallant ryngweithio â'r gwasanaethau hyn.</p> <p>Er mwyn sicrhau gwasanaeth cyn gwneud cais cynhwysfawr, bydd is-ddeddfwriaeth yn caniatáu i ddarpar geisyddion ofyn am gyfarfod cyn gwneud cais â Gweinidogion Cymru a/neu'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru a/neu'r ACLI wrthod cais am gyfarfod, os byddant o'r farn nad oes ei angen.</p>
<p>Adran 28</p> <p>Cael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau yr hysbysiad a roddir pan fo cais arfaethedig neu gam gydsyniad seilwaith yn cynnwys archiad caffael gorfodol.</p>

	<p>Cefndir</p> <p>Bydd yn ofynnol darparu ‘llyfr cyfeirio’ i gyd-fynd â chais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol. Rhaid i'r llyfr cyfeirio gynnwys enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt personau perthnasol a chanddynt fuddiant mewn tir sy'n ddarostyngedig i'r archiad caffael gorfodol, ar ôl iddynt gael eu canfod gan y ceisydd drwy ymholi'n ddyfal. Awgrymir bod ymholi'n ddyfal yn yr ystyr hwn yn golygu diwydrwydd rhesymol wrth ymchwilio i fuddiannau mewn tir.</p> <p>Er mwyn galluogi ceisyddion i gael enwau a chyfeiriadau pobl a chanddynt fuddiant yn y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, caniateir i geisyddion gyflwyno ‘hysbysiad buddiannau mewn tir’ er mwyn gofyn am y cyfryw wybodaeth, lle bo Gweinidogion Cymru yn eu hawdurdodi i wneud hynny. Bydd yr ymgysylltu hwn gan y ceisydd yn creu cydberthynas â'r perchenogion tir/buddiannau mewn tir a rhoi trosolwg o'r prosiect a'r broses gynllunio iddynt.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Ffurf a chynnwys hysbysiad</u></p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi darpariaethau manwl i'r ceisydd roi hysbysiad buddiannau mewn tir er mwyn cael gwybodaeth am bobl sydd â buddiant mewn tir sy'n ymwneud â'r cais neu a allai fod â hawlogaeth i wneud hawliad mewn perthynas â'r tir dan sylw. Dylai hyn gynnwys rhagnodi ffurf a chynnwys hysbysiad a'r terfynau amser ar gyfer ymateb iddo.</p> <p>O ran ffurf hysbysiad, ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y byddwn yn rhagnodi bod yn rhaid i geisyddion gyflwyno hysbysiad yn y ffordd ganlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddi): ei gyflwyno yn ysgrifenedig; gan gadarnhau bod ganddynt yr awdurdod i'w gyflwyno o dan y ddeddfwriaeth cydsynio seilwaith; gan nodi a disgrifio'r tir y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef; gan bennu'r terfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid i'r derbynnydd roi'r wybodaeth ofynnol i'r ceisydd; a gan dynnu sylw at ddarpariaethau ynghylch methiant i gydymffurfio â hysbysiad neu roi gwybodaeth anwir.</p>
--	--

	<p>O ran terfynau amser ar gyfer ymateb i hysbysiad, ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y byddwn yn rhagnodi bod yn rhaid ymateb i hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad i dderbynnnydd yr hysbysiad. Bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau bod ceisyddion yn rhoi digon o amser i'r rhai sydd â buddiant mewn tir i ymateb, o ystyried y gallai'r rhai â buddiant mewn tir gael eu cosbi am beidio â gwneud hynny. Gall ceisyddion roi mwy o amser i ymateb na'r terfyn amser sydd i'w rhagnodi os byddant o'r farn ei bod yn briodol.</p>
<p>Adran 29</p> <p>Hysbysu am gais arfaethedig</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n ceisio cydsyniad seilwaith roi hysbysiad o'i fwriad i gyflwyno cais am gydsyniad seilwaith.</p> <p>Cefndir</p> <p>Fel rhan o'r broses cyn gwneud cais, bydd yn ofynnol i ddarpar geisyddion hysbysu partïon rhagnodedig o'u bwriad i gyflwyno cais am gydsyniad seilwaith. Bydd angen hysbysu partïon penodol ym mhob achos, megis Gweinidogion Cymru ac ACLlau perthnasol ac, felly, fe'u nodir ar wyneb y Bil.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Hysbysu partïon eraill</u></p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu unrhyw bartïon eraill y mae'n rhaid eu hysbysu, yn ogystal â'r rhai a nodir ar wyneb y Bil, er y byddant yn amrywio yn ôl y categori neu'r math o ddatblygiad, yn ogystal â sut a phryd y rhoddir hysbysiad. Gallai'r rhain gynnwys cyrff a sefydliadau megis y Sefydliad Rheoli Morol, unrhyw gynghorau cymuned perthnasol a'r Awdurdod Hedfan Sifil.</p>

	<p><u>Ffurf a chynnwys hysbysiad o ddatblygiad arfaethedig</u></p> <p>Er mwyn sicrhau bod hysbysiad o ddatblygiad arfaethedig yn cynnwys gwybodaeth berthnasol, bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu ffurf a chynnwys hysbysiad, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth, dogfennau neu ddeunyddiau eraill y bydd angen eu cyflwyno gyda hysbysiad, megis disgrifiadau annhechnegol o'r datblygiad arfaethedig, amserlen ddangosol ar gyfer ymgynghori cyn gwneud cais a chynllun o leoliad y safle (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).</p> <p><u>Derbyn hysbysiad</u></p> <p>Ar ôl cael hysbysiad gan ddarpar geisydd sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir mewn deddfwriaeth, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r darpar geisydd bod ei hysbysiad wedi'i dderbyn. Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu ffurf a chynnwys yr hysbysiad, sut y dylid ei roi a'r cyfnod y mae'n rhaid iddo gael ei roi o'i fewn. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd Gweinidogion Cymru yn anfon hysbysiad ysgrifenedig i gadarnhau eu bod wedi cael a derbyn yr hysbysiad o fewn 10 diwrnod gwaith iddo gael ei dderbyn ganddynt, neu 309 diwrnod gwaith pan geisir cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i gynnwys datblygiad arfaethedig fel prosiect seilwaith arwyddocaol.</p>
<p>Adran 30</p> <p>Ymgynghoriad a chyhoedduswydd cyn gwneud cais</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n bwriadu gwneud cais am gydsyniad seilwaith gynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu materion sy'n ymwneud â'r cyfryw ymgynghoriadau mewn rheoliadau, megis â phwy y mae'n rhaid ymgynghori a sut y mae'n rhaid i ymgynghoriad gael ei gynnal.</p> <p>Cefndir</p> <p>Mae'n hanfodol bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid perthnasol yn cael eu hysbysu am ddatblygiadau arfaethedig a fydd yn effeithio arnynt cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn darparu ar gyfer cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid ac ymgysylltu â nhw yn fwy effeithiol er mwyn</p>

	<p>helpu i ddylanwadu ar gynlluniau. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn ei wneud yn ofyniad statudol i ddarpar geisyddion gynnal ymgynghoriad cyn i gais ffurfiol gael ei gyflwyno.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Gofynion ymgynghori cyn gwneud cais</u></p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu sut mae'n rhaid i ymgynghoriad gael ei gynnal a'r gofynion sylfaenol a ddisgwylir gan ddatblygwyr. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd o weithgarwch ymgynghori cyn gwneud cais a wnaed fel rhan o broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn awgrymu bod datblygwyr seilwaith yn mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol sylfaenol ar gyfer ymgynghori cyn gwneud cais yn y rhan fwyaf o achosion. Byddem yn disgwyl i ddatblygwyr sy'n ceisio cydsyniad seilwaith fabwysiadu'r un dull gweithredu.</p> <p>Rhagwelwn y bydd ymgynghoriad cyn gwneud cais yn cynnwys pedwar gofyniad (o leiaf), sef:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ar gyfer datblygiadau ar y tir, bydd yn ofynnol i ddarpar geisyddion arddangos hysbysiad safle ar safle datblygiad arfaethedig, neu mor agos ato ag y bo'n rhesymol bosibl, mewn lle sy'n hygyrch ac yn weladwy i'r cyhoedd am y cyfnod sylwadau cyfan (ar gyfer cynlluniau llinol sy'n fwy na 5km o hyd, rhaid arddangos hysbysiad safle bob 5km neu lai o ddechrau i ddiwedd y llwybr arfaethedig, oni fydd yn anymarferol gwneud hynny). Bydd yn ofynnol i hysbysiadau safle gael eu harddangos am gyfnod penodedig, y rhagwelwn y bydd yn cyfateb i 42 diwrnod. Ni fyddai'n ofynnol i hysbysiadau safle gael eu harddangos ar gyfer datblygiadau yn rhanbarth y glannau. 2. Ar gyfer datblygiadau ar y tir ac yn rhanbarth y glannau, bydd yn ofynnol i ddarpar geisyddion anfon hysbysiad ysgrifenedig i bartïon penodedig. Rhagwelwn y bydd y rhain yn cynnwys perchenogion a meddianwyr tir sy'n ffinio â'r tir y mae cais yn ymwneud ag ef, ymgynghoreion statudol, ymgynghoreion cymunedol ac unrhyw bersonau eraill a nodir (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).
--	--

3. Ar gyfer datblygiadau ar y tir, bydd yn ofynnol i ddarpar geisyddion gyhoeddi hysbysiad o ddatblygiad arfaethedig mewn o leiaf un papur newydd sydd mewn cylchrediad yn yr ardal leol y mae cais arfaethedig yn ymwneud â hi.

Ar gyfer datblygiadau yn ardal forol Cymru, bydd yn ofynnol i ddarpar geisyddion gyhoeddi hysbysiad am gais arfaethedig mewn o leiaf un papur newydd ac sy'n debygol o ddod i sylw'r rhai y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt, yn Rhestr Lloyd's ac mewn o leiaf un cyfnodolyn pysgota (os oes un mewn cylchrediad).

4. Bydd yn ofynnol i ddarpar geisyddion agor a chynnal gwefan sy'n ymwneud yn benodol â datblygiad arfaethedig a byddwn hefyd yn ceisio rhagnodi pa wybodaeth y mae angen ei chynnwys ar wefan, o leiaf. Bydd angen i wefannau gael eu hagor o fewn 3 mis i'r dyddiad y mae darpar geisyddion yn cael cadarnhad gan Weinidogion Cymru fod eu hysbysiad cyn gwneud cais wedi'i dderbyn ac mae'n rhaid iddynt gael eu cynnal am o leiaf 42 diwrnod.

Rhagwelwn y bydd angen i wefannau gynnwys y wybodaeth ganlynol (ymhlith pethau eraill): copi drafft o orchymyn cydsyniad seilwaith, cynllun sy'n nodi'r tir y mae datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef, datganiad amgylcheddol (os yw'n gymwys) ac unrhyw gynlluniau neu luniadau eraill neu unrhyw wybodaeth arall sydd eu (ei) hangen i ddisgrifio datblygiad arfaethedig.

Darparu ymateb o sylwedd

Gan y bydd gan wahanol randdeiliaid wybodaeth ac arbenigedd mewn meysydd penodol, mae eu mewnbwn a'u barn ar ddatblygiad arfaethedig yn hanfodol. Felly, bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu, pan ymgynghorir â phersonau penodol ar y cam cyn gwneud cais, y bydd yn ofynnol iddynt roi ymateb o sylwedd, y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd yn gwneud y canlynol:

- datgan nad oes gan yr ymgynghorai statudol unrhyw sylw i'w wneud;
- datgan nad oes gan yr ymgynghorai statudol unrhyw wrthwynebiadau;

- datgan bod gan yr ymgynghorai statudol bryderon ynghylch y datblygiad arfaethedig a'r ffordd y gellir ymdrin â nhw; neu
- datgan bod gan yr ymgynghorai statudol bryderon ynghylch y datblygiad arfaethedig a'i fod yn bwriadu ei wrthwynebu os caiff cais tebyg i'r un yr ymgynghorir arno ei gyflwyno.

Bydd angen i Weinidogion Cymru gael ymatebion o sylwedd o fewn cyfnod o 42 diwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir hysbysiadau ysgrifenedig i'r ymgynghoreion hynny. Fodd bynnag, bydd is-ddeddfwriaeth yn rhoi estyniad amser, os bydd cytundeb ysgrifenedig rhwng y ddarpar geisydd a'r ymgynghorai perthnasol.

Yn seiliedig ar y gofyniad i ddarparu ymateb o sylwedd, bydd is-ddeddfwriaeth hefyd yn cyflwyno trefniadau monitro perfformiad, lle y bydd yn ofynnol i ymgynghoreion statudol gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru bob blwyddyn, yn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion ymgynghori.

Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiadau monitro perfformiad hyn (fan lleiaf). Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cynnwys:

- sawl gwaith yr ymgynghorwyd â'r ymgynghorai statudol yn ystod y flwyddyn;
- sawl gwaith y cyflwynwyd ymateb o sylwedd;
- sawl gwaith y darparwyd ymateb (o sylwedd ai peidio) y tu allan i'r cyfnod penodedig ar gyfer ymateb, gan gynnwys y rhesymau pam na chydymffurfiwyd â'r cyfnod penodedig.

Bydd is-ddeddfwriaeth yng nghyd-destun gofynion cyn gwneud cais hefyd yn pennu gofynion i ymgynghori â buddiannau tir perthnasol, os bydd cydsyniad seilwaith arfaethedig yn cynnwys caffael tir yn orfodol. Rhaid rhoi'r un amser i fuddiannau tir ag a roddir i bob ymgynghori arall, gyda'r cyfnod o amser ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i gais arfaethedig ac ymgynghori arno i'w gwblhau gan y ceisydd o fewn cyfnod o 12 mis.

Cydnabyddir hefyd ar y cam cyn gwneud cais, ei bod yn bosibl y nodir buddiannau ychwanegol mewn tir nad ydynt wedi bod yn destun y cyfnod ymgynghori cyn gwneud cais

	<p>statudol llawn. O dan amgylchiadau o'r fath, ystyrir ei bod yn briodol cynnal ymgynghoriad pellach ynghylch buddiannau mewn tir â'r partïon hynny, er mwyn sicrhau tegwch o ran y ffordd yr ymgynghorir ynghylch buddiannau mewn tir. Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi'r gofynion ar gyfer ymgynghori ymhellach ynghylch buddiannau mewn tir, a fydd yn cynnwys darparu'r ddogfennaeth ymgynghori cyn gwneud cais statudol wreiddiol a gwybodaeth wedi'i diweddarau am y cynllun. Cynigir y byddai'r ymgynghoriad pellach ynghylch buddiannau mewn tir hwn yn cael ei gynnal o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y caiff y parti ychwanegol olaf â buddiant mewn tir a nodwyd ac a gadarnhawyd, ei hysbysu am yr ymgynghoriad.</p>
<p>Adran 31</p> <p>Gwneud cais am gydsyniad seilwaith</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn pennu bod yn rhaid i gais am gydsyniad seilwaith gael ei wneud i Weinidogion Cymru ac yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys gyda chais, o leiaf. Mae hyn yn cynnwys y datblygiad y mae cais yn ymwneud ag ef, copi o'r gorchymyn cydsyniad seilwaith drafft a chopi o'r adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais.</p> <p>Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r canlynol, ymhlith pethau eraill: ffurf a chynnwys cais, pa wybodaeth, dogfennau neu ddeunyddiau eraill y mae'n rhaid ei chynnwys (eu cynnwys), yn ogystal â'r rhai a nodir ar wyneb y Bil, a'r ffordd y caiff ceisiadau eu dilysu.</p> <p>Cefndir</p> <p>Er mwyn sicrhau cymaint o gysondeb â phosibl yn y broses gydsynio ac y gall Gweinidogion Cymru (neu'r awdurdod archwilio yn ôl y digwydd) wneud penderfyniad rhesymegol ar gais yn amserol, mae'n bwysig bod ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol o'u blaen cyn gynted â phosibl.</p>

Is-ddeddfwriaethFfurf a chynnwys cais

Bydd is-ddeddfwriaeth yn rhagnodi ffurf a chynnwys cais, sut mae'n rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno a pha wybodaeth, dogfennau a deunyddiau eraill y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cais, o leiaf.

Yn ogystal â ffurflen gais, rhagwelwn y gallai fod angen cyflwyno'r canlynol hefyd:

- adroddiad sy'n dogfennu'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran trafodaethau â'r ACLI(au) lle mae'r cynnig wedi'i leoli (neu'r ACLlau agosaf mewn perthynas â chynigion ar y môr) ac ymgygoreion eraill mewn perthynas â chyfraniadau datblygwyr;
- cynllun sy'n nodi'r tir y mae datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef;
- unrhyw gynlluniau neu luniadau perthnasol eraill ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd eu hangen i ddisgrifio datblygiad arfaethedig, megis asesiad gweledol o'r datblygiad;
- datganiad amgylcheddol (os bydd angen un);
- y ffi berthnasol.

Amserlen ar gyfer dilysu cais

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu hysbysiad i'r ceisydd yn cadarnhau p'un a yw cais wedi cael ei dderbyn ai peidio (gweler adran 32), a bwriedir pennu terfyn amser ar gyfer gwneud hynny mewn is-ddeddfwriaeth. Rhagwelwn mai'r terfyn amser fydd 42 diwrnod o'r dyddiad y daw cais i law os oes angen cyflwyno Datganiad Amgylcheddol i gyd-fynd â'r cais, neu 28 diwrnod os nad oes angen Datganiad Amgylcheddol.

Amrywio cais ar ôl iddo gael ei gyflwyno

Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer amrywio ceisiadau ar ôl iddynt gael eu cyflwyno ac ar ôl i randdeiliaid, cymunedau lleol ac ati gael y cyfle i wneud sylwadau ar y cam

	<p>cyhoedduswydd a hysbysu o'r broses. Er enghraifft, os byddai mân newid i gynllun arfaethedig yn datrys gwrthwynebiadau a godwyd yn ystod y cam cyhoedduswydd a hysbysu.</p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu y caiff ceisyddion un cyfle i gynnig amrywiad i'w cais a rhaid iddynt ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o fewn 10 diwrnod gwaith i ddiwedd y cyfnod sylwadau am eu bwriad i amrywio eu cais.</p> <p>Rhaid i'r amrywiadau hyn fod yn fân amrywiadau neu'n amrywiadau ansylweddol. Bydd canllawiau'n ymdrin â'r hyn a gaiff eu hystyried yn fân amrywiadau neu'n amrywiadau ansylweddol, ond ni allwn ddarparu enghreifftiau penodol oherwydd efallai na fydd yr hyn a gaiff eu hystyried yn fân amrywiadau neu'n amrywiadau ansylweddol i un datblygiad, yn fân amrywiadau neu'n amrywiadau ansylweddol i ddatblygiad arall. Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod amrywiad arfaethedig yn newid sylweddol, ni chaniateir iddynt gytuno ar yr amrywiad.</p> <p>Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu ceisydd am eu penderfyniad i gymeradwyo neu wrthod amrywiad arfaethedig i gais o fewn 5 diwrnod gwaith i gael hysbysiad am y bwriad i amrywio'r cais. Bydd penderfyniad Gweinidogion Cymru yn derfynol ac ni fydd cyfle i apelio yn erbyn y penderfyniad, ond gellir cyflwyno her drwy adolygiad barnwrol.</p> <p>Lle cytunir ar amrywiad arfaethedig, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi amserlen ar gyfer cyflwyno'r amrywiad a chânt ymgynghori ar yr amrywiad a rhoi hysbysiad mewn unrhyw fodd a chydag unrhyw berson(au) sy'n briodol yn eu barn nhw.</p> <p>Os bydd unrhyw amrywiad i gais yn effeithio ar gamau i gaffael tir yn orfodol a phersonau a chanddynt fuddiant yn y tir dan sylw, gall fod angen ymgynghori ymhellach â'r personau hynny ar y cam ar ôl gwneud cais, fel y rhagnodir o dan adran 38. Gweler adran 38 am wybodaeth am is-ddeddfwriaeth a ddeddfir i'r perwyl hwn. Er mai dim ond un cyfle fyddai ar gael i newid sylwedd cais drwy amrywiad, rhagwelir y gall fod mwy nag un cyfle i bersonau a chanddynt fuddiant yn y tir gymryd rhan, yn enwedig os caiff buddiannau ychwanegol yn y tir eu nodi yn ystod y broses gwneud cais.</p>
--	--

<p>Adran 32</p> <p>Penderfynu ar ddilysrwydd cais a hysbysu'r ceisydd</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu ar ddilysrwydd cais os oes un wedi cael ei gyflwyno iddynt. Mae'n nodi o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid ystyried bod cais yn ddilys, yn ogystal â gofynion hysbysu. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau yr amserlen y mae'n rhaid cyflwyno cais o fewn iddi er mwyn iddo gael ei ystyried yn gais dilys.</p> <p>Cefndir</p> <p>Fel rhan o'r gofynion dilysu pan gaiff cais ei gyflwyno, ni ellir derbyn cais oni ddaw i law o fewn cyfnod a bennir mewn is-ddeddfwriaeth</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Amserlen ar gyfer cyflwyno cais</u></p> <p>Er mwyn sicrhau y caiff yr ymgynghoriad cyn gwneud cais ei gynnal mewn ffordd drylwyr a phwyllog, rhagwelwn y caiff cyfnod o 12 mis ei bennu er mwyn cyflwyno cais, a fydd yn dechrau ar ddyddiad cyhoeddi cais drafft darpar geisydd fel rhan o'r broses cyn gwneud cais.</p> <p>Pe bai ceisydd yn cyhoeddi cais drafft yn unol â'r weithdrefn cyn gwneud cais fwy nag unwaith, yna o fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi diweddaraf cais drafft y ceisydd.</p> <p>Ni chaiff unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y cyfnod o 12 mis ei dderbyn a bydd yn ofynnol i geisyddion gynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais arall oni bai fod Gweinidogion Cymru wedi cytuno'n ysgrifenedig i ymestyn y cyfnod o 12 mis.</p>
---	--

Adran 33

Hysbysiad am geisiadau a dderbynnir a chyhoedduswydd

Crynodeb

Mae'r adran hon yn pennu'r gofynion ar gyfer rhoi cyhoedduswydd i gais ar ôl i Weinidogion Cymru dderbyn ei fod yn ddilys, yn ogystal â sut y dylid hysbysu rhanddeiliaid a chymunedau lleol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r partïon hyn gyflwyno sylwadau mewn perthynas â chais os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau sut y mae'n rhaid ymgymryd â'r fath ofynion cyhoedduswydd a hysbysu.

Cefndir

Lle bo cais wedi cael ei ddilysu a'i dderbyn gan Weinidogion Cymru, bydd yn ofynnol ymgymryd â gofynion cyhoedduswydd a hysbysu penodol er mwyn sicrhau bod yr holl randdeiliaid a'r rhai sydd â diddordeb mewn cais yn gwybod bod cais wedi cael ei dderbyn.

Is-ddeddfwriaethGofynion o ran cyhoedduswydd a hysbysu

Yn gyntaf, bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu y bydd y fath ofynion ar ffurf hysbysiad ysgrifenedig i randdeiliaid amrywiol. Er bod y rhai a fyddai'n cael eu hysbysu ym mhob achos wedi'u pennu yn y Bil, fel ACLlau a chynghorau cymuned perthnasol, bydd is-ddeddfwriaeth yn rhagnodi rhanddeiliaid eraill y bydd angen eu hysbysu, ond bydd y rhain yn amrywio yn dibynnu ar y math o ddatblygiad a gynigir. Un enghraifft o'r fath fyddai perchnogion a/neu feddianwyr tir sy'n ffinio â safle'r datblygiad arfaethedig. Bydd is-ddeddfwriaeth hefyd yn pennu ffurf a chynnwys yr hysbysiadau hyn.

Bydd is-ddeddfwriaeth hefyd yn pennu'r gofynion a'r weithdrefn ar gyfer swyddogaethau cyhoedduswydd ychwanegol i gynyddu'r graddau y caiff partïon a chanddynt fuddiant a darpar bartïon a chanddynt fuddiant eu hysbysu am ddatblygiad arfaethedig a'r cyfle a gynigir iddynt wneud sylwadau.

	<p>Ar gyfer datblygiadau ar y tir, rhagwelwn y bydd y gofynion hyn yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyhoeddi hysbysiad am y cais mewn o leiaf un papur newydd sydd mewn cylchrediad yn yr ardal y mae cais yn ymwneud â hi am gyfnod sylfaenol a bennir; • arddangos hysbysiad safle ar safle datblygiad arfaethedig, neu mor agos ato ag sy'n rhesymol bosibl, mewn lle sy'n hygyrch ac yn weladwy i'r cyhoedd am y cyfnod sylwadau cyfan (ar gyfer cynlluniau llinol sy'n fwy na 5km o hyd, rhaid arddangos hysbysiad safle bob 5km neu lai o ddechrau i ddiwedd y llwybr arfaethedig, oni fydd yn anymarferol gwneud hynny). <p>Ar gyfer datblygiadau ar y môr, rhagwelwn y bydd y gofynion hyn yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyhoeddi hysbysiad am y cais mewn o leiaf un papur newydd ac sy'n debygol o ddod i sylw'r rhai y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt. Lle bo'r cynnig yn cynnwys datblygiad ar y tir ac ar y môr, gellir defnyddio'r un cyhoeddiad â'r gofyniad ar gyfer datblygiad ar y tir; • cyhoeddi hysbysiad am y cais yn Rhestr Lloyd's; • cyhoeddi hysbysiad am y cais mewn o leiaf un cyfnodolyn pysgota priodol, os oes un mewn cylchrediad.
<p>Adran 34</p> <p>Rheoliadau ynghylch hysbysiadau a chyhoeddusrwydd</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud â'r elfennau gweithdrefnol a manwl penodol o'r modd y mae'n rhaid ymgymryd â gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu cais am gydsyniad seilwaith, gan gynnwys ffurf a chynnwys hysbysiadau a sylwadau, sut y caiff hysbysiadau a sylwadau eu rhoi ac amserlenni cysylltiedig.</p>

Cefndir

Mae'r Bil yn darparu pŵer gwneud rheoliadau mewn perthynas â hysbysiadau a roddir o dan adran 32 neu 33, yn ogystal â sylwadau ar gais a roddir o dan adran 33.

Is-ddeddfwriaethGofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu penodol

Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu ffurf a chynnwys hysbysiadau a gaiff eu rhoi neu'u harddangos fel rhan o'r gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu ar gyfer cais ar ôl iddo gael ei dderbyn gan Weinidogion Cymru. Rhagwelwn y bydd hysbysiadau yn pennu'r wybodaeth ganlynol, ymhlith eraill:

- enw a chyfeiriad ceisydd;
- datganiad yn nodi bod cais wedi cael ei wneud i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ganddynt;
- cyfeirnod a ddyrannwyd i'r cais gan Weinidogion Cymru;
- crynodeb o'r prif gynigion gan gynnwys a yw'r cais yn cynnwys archiad i awdurdodi camau i gaffael tir yn orfodol;
- datganiad yn pennu a yw'r cais yn ddatblygiad AEA;
- pennu ble y gellir gweld copi o'r cais ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig;
- manylion gwefan sy'n cynnwys gwybodaeth am ddatblygiad arfaethedig, os yw'r ceisydd yn dal i gynnal gwefan o'r fath ar y cam hwn;
- manylion ynghylch sut y gellir gwneud sylwadau;
- y dyddiad cau ar gyfer gwneud sylwadau (heb fod yn llai na 30 diwrnod lle ceir datganiad amgylcheddol i gyd-fynd â chais a heb fod yn llai na 21 diwrnod ym mhob achos arall).

Yn debyg i ymgynghoriad cyn gwneud cais, os ymgynghorir ag ymgynghorai statudol ar y cam hwn, bydd yn ofynnol iddo roi ymateb o sylwedd. Bydd yr un gofynion yn gynnwys.

<p>Adran 35</p> <p>Adroddiadau ar yr Effaith Leol</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn pennu'r amgylchiadau lle bo'n rhaid i ACLlau neu gynghorau cymuned, neu lle y gall ACLlau neu gynghorau cymuned, roi adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu ffurf a chynnwys adroddiad ar yr effaith leol mewn rheoliadau.</p> <p>Cefndir</p> <p>Lle caiff hysbysiad ynghylch cais ei roi i ACLlau a chynghorau cymuned o dan adran 33(2)(a) a (2)(b)(ii), bydd yr hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol, neu'n cynnig y cyfle, i gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol ("LIR") i Weinidogion Cymru.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Cyflwyno adroddiadau ar yr effaith leol</u></p> <p>Ar gyfer datblygiad ar y tir, rhaid i ACLI gyflwyno LIR os bydd datblygiad arfaethedig wedi'i leoli o fewn ffiniau'r awdurdod a chaiff unrhyw gyngor cymuned gyflwyno LIR, ond ni fydd yn ofynnol iddynt wneud hynny. Ar gyfer datblygiad ar y môr, caiff unrhyw ACLI neu gyngor cymuned sy'n cael hysbysiad ynghylch cais gyflwyno LIR, ond ni fydd yn ofynnol iddynt wneud hynny.</p> <p>Diben LIR yw nodi'r effaith y mae datblygiad arfaethedig yn debygol o'i chael ar ardal leol. Yna gall yr wybodaeth hon gael ei defnyddio fel tystiolaeth wrth archwilio cais ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, neu'r awdurdod archwilio fel y bo'n briodol, ei hystyried wrth wneud eu penderfyniad.</p> <p>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob LIR, boed yn orfodol neu'n wirfoddol, ddarparu manylion ynghylch effaith debygol datblygiad arfaethedig, a chaiff materion eraill eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth.</p>
---	--

	<p>Ar gyfer ACLlau lle mae gofyniad gorfodol i gyflwyno LIR, rydym yn rhagweld y bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu'r materion gofynnol i'w cynnwys mewn LIR, sy'n cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hanes cynllunio perthnasol y tir y mae cais yn ymwneud ag ef; • unrhyw ddynodiadau sy'n berthnasol i'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef; • effaith debygol unrhyw gais mewn perthynas â chydsyniad eilaidd; • unrhyw bolisiâu, canllawiau a dogfennau cynllunio eraill sy'n gymwys yn lleol ac sy'n berthnasol i gais, fel y rhai a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol neu'r Cynllun Datblygu Strategol; • amodau neu rwymedigaethau drafft y mae'r ACLI yn ystyried a ddylai fod yn gymwys i gais, pe bai'n cael ei roi; • cadarnhad bod yr ACLI wedi bodloni unrhyw ofynion perthnasol o ran hysbysu a rhoi cyhoeddusrwydd, lle y bo'n gymwys. <p>Os hoffai ACLI neu gyngor cymuned gyflwyno LIR yn wirfoddol, ni fyddem yn disgwyl i'r un gofynion gorfodol fod yn gymwys. Felly, yn yr amgylchiadau hyn, rydym yn rhagweld y bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu gofynion sylfaenol penodol, sy'n cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • effaith debygol unrhyw gais mewn perthynas â chydsyniad eilaidd; • unrhyw bolisiâu, canllawiau a dogfennau cynllunio eraill sy'n gymwys yn lleol ac sy'n berthnasol i gais, fel y rhai a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol neu'r Cynllun Datblygu Strategol; • amodau neu rwymedigaethau drafft y mae'r ACLI neu'r cyngor cymuned yn ystyried a ddylai fod yn gymwys i gais, pe bai'n cael ei roi.
<p>Adran 36</p> <p>Adroddiadau Effaith ar y Môr</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn pennu'r amgylchiadau lle bo'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno adroddiad effaith ar y môr i Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion</p>

	<p>Cymru wneud rheoliadau i bennu ffurf a chynnwys adroddiad effaith ar y môr (“MIR”) mewn rheoliadau.</p> <p>Cefndir</p> <p>Lle bo Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael hysbysiad ynghylch cais o dan adran 33(2)(b)(i), os bydd y gorchymyn drafft a gyflwynir gyda chais am gydsyniad seilwaith yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trwydded forol dybiedig, bydd yr hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol, neu'n cynnig y cyfle, i gyflwyno MIR i Weinidogion Cymru. Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno MIR mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith ac eithrio mewn ymateb i hysbysiad a roddir o dan adran 33(2)(b) neu gyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (2) cyn y dyddiad cau a nodir mewn cyhoeddusrwydd o dan adran 33(3).</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Cyflwyno adroddiadau effaith ar y môr</u></p> <p>Diben MIR yw nodi'r effaith y mae datblygiad arfaethedig yn debygol o'i chael ar yr amgylchedd morol. Yna gall yr wybodaeth hon gael ei defnyddio fel tystiolaeth wrth archwilio cais ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, neu'r awdurdod archwilio, ei hystyried wrth wneud eu penderfyniad.</p> <p>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob MIR, boed yn orfodol neu'n wirfoddol, ddarparu manylion ynghylch effaith debygol datblygiad arfaethedig, a chaiff materion eraill eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth.</p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu ffurf a chynnwys MIR ac rydym yn rhagweld y byddant yn cynnwys y canlynol, o leiaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifiad o ddynodiadau sy'n berthnasol i'r tir y mae cais yn ymwneud ag ef; • hanes cynllunio perthnasol yr ardal y mae cais yn ymwneud â hi;
--	--

	<ul style="list-style-type: none"> • unrhyw bolisiau, canllawiau a dogfennau eraill sy'n gymwys yn lleol ac sy'n berthnasol i gais, fel y rhai a nodir yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru; • sylwadau ar unrhyw amodau neu rwymedigaethau drafft sydd wedi'u cynnwys mewn trwydded forol dybiedig; • unrhyw amodau ychwanegol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried a ddylai fod yn gymwys i gais, pe bai'n cael ei roi.
<p>Adran 37</p> <p>Hysbysiad am bersonau a chanddynt fuddiant mewn tir y mae archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau sut y dylai ceisydd ddarparu gwybodaeth am fuddiannau mewn tir i Weinidogion Cymru pan fo cais am gydsyniad seilwaith yn cynnwys archiad caffael gorfodol.</p> <p>Cefndir</p> <p>Bydd yn ofynnol darparu 'llyfr cyfeirio' i gyd-fynd â chais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol. Rhaid i'r llyfr cyfeirio gynnwys enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt personau perthnasol a chanddynt fuddiant mewn tir sy'n ddarostyngedig i'r archiad caffael gorfodol, ar ôl iddynt gael eu canfod gan y ceisydd drwy ymholi'n ddyfal. Awgrymir bod ymholi'n ddyfal yn yr ystyr hwn yn golygu diwydrwydd rhesymol wrth ymchwilio i fuddiannau mewn tir.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Er mwyn galluogi ceisyddion i gael enwau a chyfeiriadau pobl a chanddynt fuddiant yn y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, caniateir i geisyddion gyflwyno 'hysbysiad buddiannau mewn tir' er mwyn gofyn am y cyfryw wybodaeth, lle bo Gweinidogion Cymru yn eu hawdurdodi i wneud hynny. Mae adran 28 yn nodi'r gofynion a ragnodir mewn is-ddeddfwriaeth ar gyfer rhoi hysbysiad o'r fath.</p>

	<p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi darpariaethau manwl ar gyfer y diffiniad o 'llyfr cyfeirio'. Bydd y ddogfen hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd roi manylion i Weinidogion Cymru am bobl a chanddynt fuddiant mewn rhan o'r tir, neu'r holl dir, y mae'r caffaeliad gorfodol sy'n rhan o'r cais am gydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef. Bydd y llyfr cyfeirio yn cynnwys enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt yr unigolion hynny. Bydd is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddiweddarau'r llyfr cyfeirio a hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw ddiwygiadau a wneir iddo cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a heb fod yn hwyrach na'r dyddiad cau ar gyfer pennu'r amserlen ar gyfer archwilio'r cais cysylltiedig.</p>
<p>Adran 38</p> <p>Ymgynghoriad ar ôl cais mewn perthynas â chaffael gorfodol</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau sut y dylid cynnal ymgynghoriad ychwanegol ar gais a gyflwynir am gydsyniad seilwaith ac o dan ba amgylchiadau. Dim ond pan fo'r cais yn cynnwys archiad caffael gorfodol y byddai angen cynnal yr ymgynghoriad ychwanegol hwn.</p> <p>Cefndir</p> <p>Pan fo caffaeliad tir gorfodol arfaethedig yn rhan o gais am gydsyniad seilwaith, cydnabyddir y gall partïon eraill gael eu nodi nad oeddent wedi'u cynnwys yn y broses ymgynghori cyn gwneud cais. Er enghraifft, gall y ceisydd gynnig cynnwys tir newydd ('ychwanegol') fel rhan o'r cydsyniad seilwaith arfaethedig nad oedd wedi'i gynnwys i ddechrau fel rhan o'r cais a gall fod angen ymgynghori â'r buddiannau tir newydd hyn.</p> <p>Felly, pan fo cais a gyflwynwyd am gydsyniad seilwaith yn cynnwys archiad caffael tir gorfodol, gall fod yn ofynnol i'r ceisydd gynnal ymgynghoriad ychwanegol o dan amgylchiadau rhagnodedig. Gwneir hyn er mwyn darparu diogelwch ychwanegol i sicrhau y gellir ymgynghori'n briodol â'r bobl hynny yr effeithir arnynt o bosibl ac nad ydynt yn cael eu rhoi o dan anfantais am na chawsant eu nodi i ddechrau.</p>

	<p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi darpariaethau manwl ar gyfer ymgynghoriad ychwanegol ar gais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys caffael tir yn orfodol, a gynhelir ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno. Dylai hyn gynnwys manylion y bobl y dylid ymgynghori â nhw, amserlen yr ymgynghoriad a'r dogfennau y mae'n ofynnol i'r ceisydd eu darparu yn ystod yr ymgynghoriad. Er enghraifft, pan fo'r ceisydd yn gwneud archiad i gynnwys tir ychwanegol ar ôl cyflwyno cais, mae'n debygol y bydd yn cynnwys gofyniad i gyflwyno hysbysiad ar yr holl fuddiannau tir sy'n berthnasol i'r cydsyniad seilwaith arfaethedig. Yn ogystal, gofyniad i ddarparu manylion ynghylch ble y gellir gweld y cais, gan gynnwys yr archiad am y tir ychwanegol, a'r dogfennau ategol.</p>
--	--

RHAN 4 – ARCHWILIO

Pŵer(au): Rhan 4, adrannau 39, 41, 42, 43 a 45

Disgrifiad:

Bydd y pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- pennu sut y caiff awdurdodau archwilio eu penodi, gan ddyrannu swyddogaethau a phennu unrhyw amodau penodi;
- pennu pryd y mae'n rhaid dyfarnu'r weithdrefn a phwy y mae'n rhaid eu hysbysu am y penderfyniad;
- nodi'r weithdrefn i'w dilyn wrth archwilio cais;
- nodi'r weithdrefn ar gyfer mynd ar dir fel rhan o archwiliad;
- pennu'r weithdrefn i'w dilyn mewn perthynas â mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad.

Bwriad y polisi:

Awdurdodau archwilio

O ganlyniad i'r gwahanol fathau a meintiau o ddatblygiadau a gaiff eu cynnwys yn y Bil fel rhan o'r broses cydsynio i seilwaith, mae'n bwysig mabwysiadu egwyddorion hyblygrwydd a chymesuredd drwy gydol archwiliad. Mae hyn yn dechrau â phwy sydd yn y sefyllfa orau i gynnal archwiliad.

Mae adran 39 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi awdurdod archwilio i archwilio cais. Gall yr awdurdod hwn fod yn un person, neu'n banel o bersonau, yn dibynnu ar yr hyn a gaiff ei ystyried i fod yn fwyaf priodol i'r achos dan sylw. Ein bwriad polisi yw pennu mewn is-ddeddfwriaeth y weithdrefn ar gyfer penodi awdurdod archwilio, gan gynnwys sut y caiff penodiadau eu gwneud neu'u dirymu, pa swyddogaethau y bydd yn ofynnol iddynt eu cyflawni fel rhan o archwiliad, a disodli person â phanel neu bersonau, neu'r ffordd arall.

Dyfarnu gweithdrefn

Fel y trafodir uchod, er mwyn sicrhau hyblygrwydd a chymesuredd, mae adran 41 o'r Bil yn darparu y caiff archwiliad fod ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad, ymchwiliad neu unrhyw gyfuniad o'r gweithdrefnau hynny. Er enghraifft, gall fod yn briodol

archwilio cais drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig, fodd bynnag, gall fod yn fwy priodol archwilio un neu ddau o'r materion a godir drwy gyfrwng gwrandawriad neu ymchwiliad.

Er mwyn sicrhau bod penderfyniad amserol yn cael ei wneud ynghylch sut y caiff cais ei archwilio, rydym yn bwriadu pennu mewn is-ddeddfwriaeth y cyfnod y mae'n rhaid gwneud penderfyniad o'r fath o'i fewn a phwy y mae'n rhaid eu hysbysu am y penderfyniad.

Y weithdrefn archwilio

Mae'r ffordd y caiff gwahanol weithdrefnau archwilio eu cynnal yn ymarferol yn fanwl iawn ac yn cwmpasu ystod eang o ddyletswyddau a gofynion, o'r ffordd y gwrandawrir ar dystiolaeth i b'un a chaniateir cyfarfodydd cyn archwilio.

Ein bwriad polisi yw pennu'r materion gweithdrefnol mewn perthynas â sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriadau ac ymchwiliadau mewn is-ddeddfwriaeth, yn ogystal â materion fel sut y gellir ceisio mwy o sylwadau os oes angen, yr amgylchiadau lle nad oes angen cynnal archwiliad a sut a phryd y gellir cynnal gwrandawriadau ac ymchwiliadau'n electronig.

Pŵer i fynd ar dir

Mae'r gallu i fynd ar dir y mae cais am gydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef yn rhan bwysig o'r broses archwilio a gall roi gwybodaeth bwysig i'r awdurdod archwilio fel rhan o'i asesiad.

Ein bwriad polisi yw pennu mewn is-ddeddfwriaeth y gallu i'r awdurdod archwilio a/neu Weinidogion Cymru fynd ar dir, at ddiben edrych ar y tir hwnnw fel rhan o archwiliad. Bydd hefyd yn pennu unrhyw ofynion gweithdrefnol yr ystyrir bod eu hangen, fel unrhyw ofynion hysbysu a phwy y mae'n rhaid eu hysbysu.

Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad

Lle caiff cais am gydsyniad seilwaith ei archwilio drwy ymchwiliad, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, gall tystiolaeth benodol gael ei chyflwyno a allai arwain at ddatgelu gwybodaeth am ddiogelwch cenedlaethol neu fesurau sy'n cael eu cymryd (neu a gaiff eu cymryd) i sicrhau diogelwch unrhyw dir neu eiddo. Ni fyddai datgelu gwybodaeth o'r fath yn gyhoeddus o fudd i'r genedl.

Er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddyroddi cyfarwyddyd, sydd ond yn caniatáu i'r personau hynny a nodir yn y cyfarwyddyd glywed y dystiolaeth berthnasol.

Fodd bynnag, os caiff cyfarwyddyd o'r fath ei ddyroddi, caiff y Cwnsler Cyffredinol benodi person i gynrychioli buddiannau'r personau hynny nad oes ganddynt ganiatâd i glywed y dystiolaeth neu edrych arni. Ein bwriad polisi yw pennu mewn is-ddeddfwriaeth y weithdrefn i'w dilyn gan Weinidogion Cymru cyn y caiff cyfarwyddyd ei wneud, er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder.

Maes Pwnc	Disgrifiad
<p>Adran 39</p> <p>Penodi awdurdod archwilio</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu gofynion mewn perthynas â phenodi awdurdod archwilio, fel sut y caiff aelodau eu penodi, eu swyddogaethau ac amodau eu penodiad.</p> <p>Cefndir</p> <p>Mae'r gallu i awdurdod cynllunio fod yn un person neu'n banel o bersonau yn dibynnu ar yr achos dan sylw yn darparu'r hyblygrwydd a'r cymesuredd angenrheidiol i archwilio ceisiadau. Fodd bynnag, gall amgylchiadau godi pan fydd angen newid yr awdurdod archwilio a benodwyd yn wreiddiol. Er enghraifft, disodli un person â pherson arall neu banel o bersonau (neu'r ffordd arall) neu leihau maint y panel.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Newid fformat awdurdod archwilio</u></p>

	<p>Er mwyn sicrhau y gall newidiadau gael eu gwneud i awdurdod archwilio, bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu'r weithdrefn ar gyfer disodli panel â pherson neu banel newydd neu ddisodli person â phanel neu berson newydd. Bydd hyn yn cynnwys elfennau ffurfiol penodol fel y canlynol, ymhlith eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut y caiff personau eu hysbysu am benodiad neu benderfyniad i ddirymu penodiad; • lle bo panel wedi cael ei sefydlu, sut y caiff aelod arweiniol o'r panel ei benodi. <p><u>Swyddogaethau awdurdod archwilio</u></p> <p>Lle dyfernir mai panel o bersonau fyddai fwyaf priodol i archwilio cais, bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu sut y caiff aelodau eu penodi i banel a pha swyddogaethau y gallai'r personau ar banel eu cyflawni. Er enghraifft, lle ceir panel o bersonau, rydym yn disgwyl y caiff un ohonynt ei benodi i weithredu fel y person penodedig arweiniol fydd â rhai cyfrifoldebau gwahanol i aelodau eraill o'r panel, fel y ddyletswydd i gyflwyno adroddiad archwilio i Weinidogion Cymru.</p>
<p>Adran 41</p> <p>Dewis o ymchwiliad, gwrandawriad neu weithdrefn ysgrifenedig</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu pryd y mae'n rhaid dyfarnu gweithdrefn archwilio a phwy y mae'n rhaid eu hysbysu am y penderfyniad.</p> <p>Cefndir</p> <p>Mae'r gallu i awdurdod archwilio benderfynu a ddylai cais am gydsyniad seilwaith gael ei archwilio drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad, ymchwiliad, neu unrhyw gyfuniad o'r gweithdrefnau hyn, yn darparu proses gymesur a hyblyg, sy'n teilwra archwiliad yn effeithiol i'r achos dan sylw.</p> <p>Er mwyn ystyried yr angen i archwilio gwybodaeth ymhellach mewn mwy o fanylder, caniateir i ddyfarniad gael ei amrywio gan ddyfarniad pellach ar unrhyw adeg cyn y penderfynir ar y cais sy'n cael ei archwilio o dan adran 57.</p>

	<p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Amserlen ar gyfer gwneud dyfarniad ynghylch gweithdrefn archwilio</u></p> <p>Dylid dyfarnu'r weithdrefn o fewn amserlen resymol a bydd is-ddeddfwriaeth yn ceisio pennu cyfnod o 10 diwrnod gwaith, a fydd yn dechrau ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer sylwadau, i wneud dyfarniad.</p> <p><u>Gofynion hysbysu</u></p> <p>Lle bo dyfarniad wedi cael ei wneud ynghylch y weithdrefn archwilio, mae'n ofynnol i'r awdurdod archwilio hysbysu personau penodol am hyn. Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu'r personau hynny ac rydym yn disgwyl mai dyma'r personau a gaiff eu pennu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y ceisydd; • yr ACLI(au) lle mae datblygiad arfaethedig wedi'i leoli, neu'r ACLI(au) agosaf os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad ar y môr; • Cyfoeth Naturiol Cymru, os yw'r datblygiad yn ymwneud â datblygiad ar y môr; • ymgynghoreion statudol; • unrhyw bersonau a gyflwynodd sylwadau; • unrhyw bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn briodol.
<p>Adran 42</p> <p>Y weithdrefn archwilio</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am y weithdrefn i'w dilyn mewn perthynas ag archwilio cais. Mae hyn yn cynnwys sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau ac ymchwiliadau.</p>

Cefndir

Mae'r weithdrefn ar gyfer archwilio ceisiadau yn ymestyn y tu hwnt i'r modd y caiff yr achos ei gynnal (h.y. sylwadau ysgrifenedig, gwrandawladau ac ymchwiliadau) ac yn cwmpasu ystod eang o faterion eraill sy'n gysylltiedig hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys materion fel pryd na fydd angen cynnal archwiliad o bosibl, sut y gellir gofyn am fwy o sylwadau a sut y gellir cynnal achos yn bersonol neu'n rhithiol.

Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi cryn dipyn o'r manylion ynghylch sut y caiff archwiliadau eu cynnal, ond amlinellir yr agweddau mwyaf arwyddocaol isod.

Is-ddeddfwriaethDyfarnu'r weithdrefn archwilio

Gan fod y Bil yn darparu dull hyblyg a chymesur o archwilio ceisiadau, mae'n bwysig bod y rhai a fydd yn rhan o'r archwiliad yn cael gwybod pa faterion, os o gwbl, a gaiff eu hystyried mewn gwrandawriad neu ymchwiliad. Felly, bydd is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol, pan gaiff hysbysiad dyfarnu gweithdrefn ei wneud o dan adran 41 o'r Bil hwn, i'r hysbysiad nodi pa faterion a gaiff eu hystyried mewn gwrandawriad neu ymchwiliad a phwy a gaiff eu gwahodd i gymryd rhan. Bydd yr hysbysiad hefyd yn pennu a oes angen sylwadau pellach ac a ddylai'r sylwadau hyn gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig neu mewn gwrandawriad neu ymchwiliad.

Sylwadau pellach

Gall amgylchiadau godi lle mae materion penodol a nodir mewn sylwadau yn golygu bod angen rhagor o fanylion er mwyn sicrhau bod gan yr awdurdod archwilio'r holl wybodaeth i'w alluogi i wneud argymhelliad neu benderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid cymeradwyo'r cais am gydsyniad seilwaith ai peidio. Er mwyn sicrhau hyn, bydd is-ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer sylwadau pellach, lle gofynnir amdanynt. Bydd yn nodi pwy all wneud y sylwadau hyn,

	<p>uchafswm geiriau (er enghraifft, 3000 o eiriau) er mwyn sicrhau bod y sylwadau yn benodol ac yn gryno a sut y mae'n rhaid iddynt gael eu gwneud.</p> <p><u>Mynd yn syth i benderfyniad</u></p> <p>Mae'n bosibl, ond yn anarferol, na ddaw unrhyw sylwadau i law ar ôl cyfnod o gyhoeddusrwydd a hysbysu. Os bydd hyn yn digwydd, nid oes angen y gofyniad i archwilio a bydd is-ddeddfwriaeth yn datgan y caiff yr awdurdod archwilio fynd ati'n syth i benderfynu yn seiliedig ar y cais ac unrhyw wybodaeth a dogfennau ategol a gyflwynir gydag ef.</p> <p><u>Y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig</u></p> <p>Lle caiff cais ei archwilio drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol), caiff cais ei ystyried ar sail unrhyw sylwadau a ddaw i law yn ystod y cam cyhoeddusrwydd a hysbysu.</p> <p>Lle bo'r awdurdod archwilio yn archwilio cais, ond mai Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu arno, bydd yn ofynnol i'r awdurdod archwilio lunio adroddiad, gan amlinellu eu canfyddiadau a'u casgliadau ar sail y sylwadau sydd wedi dod i law a gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru ynghylch a ddylid rhoi neu wrthod rhoi cydsyniad seilwaith. Fodd bynnag, mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i nodi yn adran 49 o'r Bil.</p> <p>Gall yr awdurdod archwilio hefyd weithredu fel yr awdurdod dyfarnu, yn hytrach na Gweinidogion Cymru. O dan y fath amgylchiadau, bydd yn ofynnol hefyd i'r awdurdod archwilio lunio adroddiad. Fodd bynnag, ni fydd yn ofynnol cyflwyno'r adroddiad hwn i Weinidogion Cymru gan nad nhw yw'r awdurdod dyfarnu yn yr achosion hyn. Felly, nid oes angen deddfu ar gyfer hyn, yn y Bil nac mewn is-ddeddfwriaeth.</p> <p><u>Y weithdrefn Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau</u></p> <p>Bydd y weithdrefn ar gyfer gwrandawiadau ac ymchwiliadau fwy neu lai yr un peth, gyda rhai mân wahaniaethau. Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu'r weithdrefn i'w dilyn pan gaiff cais ei</p>
--	---

archwilio drwy wrandawriad neu ymchwiliad (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol) a bydd yn cynnwys materion fel:

- pryd y mae'n rhaid cynnal gwrandawriad neu ymchwiliad. Rhagwelwn na fydd hyn yn digwydd yn hwyrach na 10 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod sylwadau yn achos gwrandawriadau a 13 wythnos yn achos ymchwiliadau (gan eu bod yn ymdrin ag achosion mwy cymhleth) ac o leiaf 1 wythnos ar ôl diwedd cyfnod a ganiateir ar gyfer gwneud sylwadau pellach;
- pennu'r gallu i gynnal cyfarfodydd ymchwilio cyn yr ymchwiliad a sut y byddai cyfarfodydd o'r fath yn cael eu cynnal, fel (ymhlith pethau eraill) pryd a sut y mae'n rhaid rhoi hysbysiad o gyfarfod a swyddogaethau'r awdurdod archwilio yn y cyfarfod;
- ble y caiff gwrandawriad neu ymchwiliad ei gynnal a pha gamau cyhoeddusrwydd a hysbysu y bydd angen eu cymryd i hysbysebu gwrandawriad, fel hysbysiadau safle, cyhoeddiadau mewn papurau newydd / cyfnodolion lleol a hysbysiadau ysgrifenedig. Bydd y gofynion yn amrywio yn dibynnu ar b'un a yw datblygiad arfaethedig yn digwydd ar dir neu ar y glannau;
- pwy all gymryd rhan mewn gwrandawriad, fel ceisyddion, ACLlau, Cyfoeth Naturiol Cymru a phersonau eraill a nodir gan Weinidogion Cymru;
- materion gweithdrefnol penodol yn ystod gwrandawriad neu ymchwiliad, fel sut y cânt eu cynnal, gan bennu pa faterion a gaiff eu trafod, pwy sydd â'r hawl i alw tystiolaeth a phryd y caniateir croesholi;
- y weithdrefn i'w dilyn ar ôl i wrandawriad neu ymchwiliad ddod i ben, gan gynnwys y gofynion i lunio adroddiadau yn yr un ffordd â'r hyn a nodwyd o dan y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.

Newid gweithdrefn yn ystod archwiliad

Er mwyn ystyried yr angen posibl i ystyried gwybodaeth yn fanylach, caniateir i'r weithdrefn archwilio gael ei hamrywio yn ystod y cyfnod archwilio, os ystyrir bo angen gwneud hynny. Bydd hyn yn gymwys i'r dulliau archwilio drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriadau ac ymchwiliadau.

	<p><u>Pŵer i gyfarwyddo bod materion yn cael eu trin gan yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru</u></p> <p>Lle bo gan awdurdod archwilio y swyddogaeth o archwilio cais, gall materion godi sydd, er enghraifft, yn arbennig o ddadleuol ac y byddai'n fwy priodol i Weinidogion Cymru gymryd drosodd a delio â'r achos. Yn yr un modd, gall Gweinidogion Cymru fod yn archwilio cais (er bod hynny'n annhebygol) a dod i'r casgliad y byddai'n fwy priodol petai'r awdurdod archwilio yn delio â'r achos. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddyd, sy'n trosglwyddo'r swyddogaeth o benderfynu ar gais o'r awdurdod archwilio iddynt hwy eu hunain, neu fel arall.</p> <p>Yn y naill senario neu'r llall, bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn o dan yr amgylchiadau hyn. Bydd hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, faterion megis pwy y bydd angen ei hysbysu am gyfarwyddyd a'r terfyn amser y mae'n rhaid rhoi hysbysiad o'r fath o'i fewn.</p> <p><u>Gwrandawiadau ac ymchwiliadau rhithiol / hybrid</u></p> <p>Tynnodd pandemig COVID-19 sylw at un o wendidau'r gweithdrefnau presennol ar gyfer cynnal gwrandawiadau ac ymchwiliadau, oherwydd roedd y ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid iddynt gael eu cynnal mewn person. Yn sgil hyn, bu'n rhaid gohirio archwiliadau am fod y gallu i ymgynnull a rhyngweithio wedi'i gyfyngu'n sylweddol.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o hyblygrwydd i gynnal rhithwrandawiadau a rhithymchwiliadau, lle ystyrir bod hynny'n briodol, bydd is-ddeddfwriaeth yn rhagnodi'r egwyddorion a'r paramedrau ar gyfer rhithgyfarfodydd.</p> <p>Gall hyn gynnwys materion fel pwy fydd â'r pŵer i ddyfarnu a ddylid cynnal achosion yn rhithiol, sut y rhoddir cyhoeddusrwydd i rithachosion (er enghraifft, drwy e-bost) a sut y byddai achosion hybrid yn gweithio'n ymarferol.</p>
--	---

Adran 43

Pŵer i fynd ar dir fel rhan o archwiliad

Crynodeb

Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â rhoi awdurdod i fynd ar dir fel rhan o archwiliad o gais.

Cefndir

Yn ystod archwiliad, gall yr awdurdod archwilio (neu Weinidogion Cymru fel y bo'n briodol) ystyried bod angen neu y byddai'n fuddiol ymweld â safle datblygiad arfaethedig ac edrych arno fel rhan o'u hasesiad o gais.

Is-ddeddfwriaeth

Y weithdrefn ar gyfer mynd ar dir

Bydd is-ddeddfwriaeth yn rhoi'r pŵer angenrheidiol i'r awdurdod archwilio a Gweinidogion Cymru (pa un bynnag sy'n cynnal yr archwiliad) fynd ar dir ac edrych arno at ddiben archwiliad, ond dim ond tir sy'n ymwneud â'r cais sy'n cael ei archwilio.

Yn unol ag arferion gorau, byddai'r awdurdod archwilio, neu Weinidogion Cymru, yn hysbysu'r ceisydd ac unrhyw bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol am eu bwriad i fynd ar dir fel rhan o archwiliad. Felly, bydd is-ddeddfwriaeth yn darparu y caiff yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru anfon hysbysiad ysgrifenedig at geisyddion ac unrhyw bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol, a fyddai hefyd yn cynnwys dyddiad ac amser arfaethedig yr ymweliad.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau na fydd oedi yn yr amserlen archwilio, rydym ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu na fydd yn ofynnol i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru ohirio ymweliad â thir os na fydd unrhyw berson (gan gynnwys y ceisydd) yn bresennol ar adeg yr ymweliad.

<p>Adran 45</p> <p>Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r weithdrefn i'w dilyn cyn y caiff cyfarwyddyd ei roi a fyddai'n atal partïon penodol rhag clywed darn penodol o dystiolaeth yn ystod ymchwiliad, lle caiff meini prawf penodedig eu bodloni.</p> <p>Cefndir</p> <p>Yn ystod ymchwiliad lle caiff tystiolaeth ei chlywed yn gyhoeddus, mae posibilrwydd y caiff tystiolaeth ei chyflwyno a allai arwain at ddatgelu gwybodaeth am ddiogelwch cenedlaethol neu fesurau sy'n cael eu cymryd, neu a gaiff eu cymryd, i sicrhau diogelwch unrhyw dir neu eiddo arall.</p> <p>Lle bo hynny'n digwydd, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod archwilio mai dim ond personau a nodir yn y cyfarwyddyd a gaiff glywed y dystiolaeth honno neu edrych arni.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Gweithdrefn cyn rhoi cyfarwyddyd</u></p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu'r weithdrefn i'w dilyn pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried gwneud cyfarwyddyd o dan yr adran hon o'r Bil. Bydd hyn yn cynnwys materion fel y canlynol, ymhlith eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • swyddogaethau cynrychiolydd penodedig, a fydd yn cynrychioli buddiannau personau a gaiff eu hatal rhag clywed neu weld tystiolaeth benodol; • y gofyniad i Weinidogion Cymru roi cyhoeddusrwydd i archiad am gyfarwyddyd a beth fydd hyn yn ei olygu, fel arddangos hysbysiadau safle a rhoi hysbysiad i bersonau rhagnodedig;
--	--

- | | |
|--|---|
| | <ul style="list-style-type: none">• y gallu i gynnal gwrandawriad lle byddai materion sy'n ymwneud ag archiad am gyfarwyddyd yn cael eu datrys drwy wrandawriad, yn ogystal â phennu'r weithdrefn ar gyfer y gwrandawriad;• sut y caiff personau eu hysbysu am benderfyniad ynghylch a gaiff cyfarwyddyd ei wneud ai peidio. |
|--|---|

RHAN 5 – PENDERFYNU AR GEISIADAU AM GYDSYNIAD SEILWAITH

Pŵer(au): Rhan 5, adrannau 52, 53, 54, 55, 56, 57 a 59

Disgrifiad:

Bydd y pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- pennu pa fathau o geisiadau a chategorïau o ddatblygiad a gaiff eu dyfarnu gan awdurdod archwilio a pha rai a gaiff eu dyfarnu gan Weinidogion Cymru;
- pennu amodau pellach y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon eu bod wedi cael eu bodloni wrth benderfynu ar gais ac eithrio yn unol â'r polisiâu statudol;
- pennu unrhyw faterion pellach y mae'n rhaid i ddyfarniad eu hystyried a pha faterion y gellir eu diystyru;
- diwygio'r amserlen y mae'n ofynnol gwneud dyfarniad yn unol â hi;
- amlinellu'r weithdrefn lle bo Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n sylweddol wahanol i'r hyn a gynigiwyd mewn cais;
- pennu i bwy y mae'n rhaid rhoi copi o ddatganiad o resymau, ar ôl i gydsyniad seilwaith gael ei roi neu'i wrthod.

Bwriad y polisi:

Pwy sy'n penderfynu ar gais?

Gan fod y Bil yn cwmpasu ystod eang o brosiectau seilwaith ac ynni, gyda graddfeydd ac effeithiau gwahanol, mae'n bosibl na fydd yn briodol bob amser i Weinidogion Cymru ddyfarnu pob cais.

Er mwyn darparu elfen o gymesuredd, sicrwydd a thryloywder, ein bwriad polisi yw pennu mewn is-ddeddfwriaeth y mathau hynny o geisiadau a datblygiadau y bydd yr awdurdod archwilio yn eu dyfarnu. Bydd unrhyw gais neu ddatblygiad nas pennir yn cael ei ddyfarnu gan Weinidogion Cymru.

Fodd bynnag, dylid nodi bod y Bil yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo bod cais a fyddai'n cael ei ddyfarnu fel arfer gan yr awdurdod archwilio yn cael ei ddyfarnu ganddynt hwy eu hunain yn lle hynny, ac fel arall. Byddai hyn yn cael ei wneud fesul achos.

Dyletswydd i benderfynu ar geisiadau yn unol â pholisïau statudol a rhoi sylw i faterion eraill

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod dyfarnu wneud ei benderfyniad yn unol â pholisïau statudol, a gaiff eu nodi yn y Bil. Fodd bynnag, mae amgylchiadau penodol lle na fyddai'n briodol gwneud hynny, er enghraifft, lle byddai'n golygu bod Gweinidogion Cymru yn torri unrhyw ddyletswydd a osodwyd arnynt gan, neu o dan, unrhyw ddeddfiad. Caiff y rhain eu nodi yn y Bil hefyd. Gall fod amgylchiadau eraill hefyd na allwn eu rhagweld ar hyn o bryd. Felly, bwriad y polisi yw darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i bennu'r cyfryw amgylchiadau hyn mewn is-ddeddfwriaeth, os bydd angen.

Mae hefyd yn ofynnol i'r awdurdod dyfarnu roi sylw i faterion penodol wrth ystyried cais. Er y caiff nifer o'r rhain eu nodi yn y Bil, gall is-ddeddfwriaeth bennu materion eraill y mae'n rhaid i'r awdurdod dyfarnu roi sylw iddynt.

Materion y gellir eu diystyru

Gall cais am gydsyniad seilwaith ddenu llawer iawn o dystiolaeth a sylwadau gan randdeiliaid amrywiol a phartïon a chanddynt fuddiannau. Er mwyn sicrhau y gellir dyfarnu cais mewn ffordd amserol, ein bwriad polisi yw pennu mewn is-ddeddfwriaeth faterion y caiff yr awdurdod dyfarnu eu diystyru os byddant yn dod i law. Er enghraifft, gall hyn gynnwys sylwadau yr ystyrir eu bod yn wacsw neu'n flinderus a sylwadau sy'n ymwneud â pholisi, neu sy'n herio polisi, sydd wedi'i gynnwys yng Nghymru'r Dyfodol, y Cynllun Morol neu ddatganiad polisi seilwaith.

Amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau

Mae'r Bil yn pennu bod yn rhaid gwneud dyfarniad ynghylch cais o fewn cyfnod o 52 wythnos, sy'n dechrau pan dderbynnir bod y cais yn ddilys. Er yr ystyrir bod hyn yn briodol ar hyn o bryd, wrth roi'r broses gydsynio ar waith, efallai y gwelir bod angen cyfnodau byrrach neu hwy ar fathau penodol o geisiadau.

Rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith

Bydd yn ofynnol i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru gymeradwyo neu wrthod cais am gydsyniad seilwaith. Lle caiff cydsyniad ei roi (yn dilyn penderfyniad gan yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru) rhaid i Weinidogion Cymru wneud y gorchymyn. Fodd bynnag, mae'r Bil yn darparu'r gallu i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn cydsyniad seilwaith ar delerau sy'n

sylweddol wahanol i'r rheini a gynigir yn y cais. O dan y fath amgylchiadau, caiff y weithdrefn angenrheidiol ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth.

Rhesymau dros benderfyniad i roi neu wrthod cydsyniad seilwaith

P'un a gaiff cais am gydsyniad seilwaith ei gymeradwyo neu'i wrthod, bydd yn ofynnol i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (pa un bynnag a wnaeth y penderfyniad) baratoi datganiad o'r rhesymau pam y cafodd cais ei gymeradwyo neu'i wrthod. Er mwyn sicrhau tryloywder, mae'n rhaid i'r datganiadau hyn gael eu cyhoeddi a'u hanfon at bersonau a nodir mewn is-ddeddfwriaeth.

Yn amodol ar ymgynghori â rhanddeiliaid, crynhoir bwriad y polisi presennol ynghylch y manylion sydd i'w rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth.

Tudalen y pecyn 113

Maes Pwnc	Disgrifiad
<p>Adran 52</p> <p>Swyddogaethau penderfynu ar geisiadau</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i bennu pa geisiadau y mae'r awdurdod archwilio'n gyfrifol am benderfynu arnynt. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar unrhyw gais nas pennir. Mae'r adran hon yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo bod cais a fyddai'n cael ei ddyfarnu fel arfer gan yr awdurdod archwilio yn cael ei ddyfarnu ganddynt hwy eu hunain yn lle hynny, ac fel arall.</p> <p>Cefndir</p> <p>Caiff Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio gyflawni'r swyddogaeth o benderfynu ar gais, yn dibynnu ar y math o ddatblygiad sy'n rhan o'r cais neu gategori'r datblygiad hwnnw.</p>

	<p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Pennu mathau o geisiadau i'w dyfarnu</u></p> <p>Er mwyn sicrhau bod y broses gydsynio yn gyson ac yn glir, bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi'r ceisiadau hynny y penderfynir arnynt gan yr awdurdod archwilio ar ôl i archwiliad ddod i ben. Bydd unrhyw geisiadau na chânt eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, oherwydd y math neu'r categori o ddatblygiad a bennir yn yr is-ddeddfwriaeth, yn cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru.</p> <p>Nid ydym yn rhagweld y caiff unrhyw fathau penodol o ddatblygiad eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y caiff datblygiadau penodol eu pennu yn y dyfodol, os ydynt yn syml ac nad oes angen i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt. Er enghraifft, gallai'r awdurdod archwilio wneud dyfarniad ynghylch gwaith addasu rheilffordd sydd wedi'i gynnwys yn y Bil, neu gais lle na chaiff unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau eu cyflwyno ar y cam cyhoeddusrwydd a hysbysu.</p>
<p>Adran 53</p> <p>Dyletswydd i benderfynu ar geisiadau yn unol â pholisïau statudol</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn pennu'r polisïau statudol y mae'n rhaid penderfynu ar geisiadau yn unol â nhw a'r amgylchiadau lle na fyddai hyn yn gymwys.</p> <p>Cefndir</p> <p>Rhaid i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (fel y bo'n briodol) benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith yn unol â pholisïau statudol a bennir yn y Bil, oni fyddai gwneud hynny yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • golygu bod y Deyrnas Unedig yn torri unrhyw un o'i rhwymedigaethau rhyngwladol; • golygu bod Gweinidogion Cymru yn torri unrhyw ddyletswydd a osodwyd arnynt gan, neu o dan, unrhyw ddeddfiad; • anghyfreithlon drwy unrhyw ddeddfiad; neu

	<ul style="list-style-type: none"> • golygu bod datblygiad yn cael effaith andwyol a fyddai'n drech na'i fuddiannau. <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Pennu materion eraill</u></p> <p>Lle bo hynny'n berthnasol, caiff is-ddeddfwriaeth bennu unrhyw amodau eraill y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (fel y bo'n briodol) fod yn fodlon yn eu cylch ar gyfer penderfynu ar gais ac eithrio yn unol â'r polisiau statudol a bennir yn y Bil.</p> <p>Bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio mewn achosion eithriadol yn unig, fel mesur diogelu.</p> <p>Byddai hyn yn darparu diogelwch pe bai polisiau statudol yn arwain at oblygiadau anfwriadol. Gallai amgylchiadau o'r fath godi lle gallai fod angen i ni ymateb i gyfraith achosion, er enghraifft, R. (ar gais Save Stonehenge World Heritage Site Ltd) v Y Gweinidog Gwladol dros Drafnidiaeth [2021] EWHC 2161 (Gwein).</p>
<p>Adran 54</p> <p>Dyletswydd i roi sylw i faterion penodol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn pennu'r materion y mae'n rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith.</p> <p>Cefndir</p> <p>Wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (fel y bo'n briodol) roi sylw i faterion penodol a bennir yn y Bil, fel adroddiadau ar yr effaith leol neu adroddiadau effaith ar y môr ac ystyriaethau perthnasol eraill.</p>

	<p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Materion i'w pennu</u></p> <p>O ganlyniad i'r amrywiaeth eang o fathau o ddatblygiadau a gaiff eu cwmpasu gan y broses cydsynio i seilwaith, bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu unrhyw faterion eraill y mae'n rhaid i'r awdurdod dyfarnu roi sylw iddynt hefyd wrth benderfynu ar gais, a fydd yn benodol i fathau penodol o ddatblygiadau.</p> <p>Er enghraifft, gallai hyn gynnwys datblygiadau trawsffiniol lle gellir ystyried ei bod yn briodol rhoi sylw i sylwadau sydd wedi dod i law ar ran o ddatblygiad sydd wedi'i lleoli yn Lloegr.</p>
<p>Adran 55</p> <p>Materion y caniateir eu diystyru wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau er mwyn pennu materion y caniateir eu diystyru wrth wneud penderfyniad ar gais am gydsyniad seilwaith.</p> <p>Cefndir</p> <p>Ar ôl archwilio cais am gydsyniad seilwaith, mae'n debygol y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (fel y bo'n briodol) ystyried cryn dipyn o dystiolaeth a gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Materion y gellir eu diystyru</u></p> <p>Er mwyn sicrhau proses effeithlon ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau am gydsyniad seilwaith, bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu'r materion y caniateir i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (fel y bo'n briodol) eu diystyru wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith. Rydym yn rhagweld y bydd materion o'r fath yn cynnwys, ymhlith rhai eraill,</p>

	<p>sylwadau yr ystyrir eu bod yn wacsaw neu'n flinderus a sylwadau sy'n herio polisi a nodir mewn datganiad polisi seilwaith, Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru neu unrhyw Gynllun Morol a baratowyd ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru.</p>
<p>Adran 56</p> <p>Yr amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn pennu'r cyfnod y mae'n rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith o'i fewn, yn ogystal â'r gallu i ymestyn yr amserlen a gofynion hysbysu.</p> <p>Cefndir</p> <p>Mae'r broses cydsynio i seilwaith yn seiliedig ar y cynsail o sicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau ac mae'n darparu amserlen statudol y mae'n rhaid glynu wrthi wrth ddyfarnu ceisiadau.</p> <p>Dylai'r amserlen ar gyfer penderfyniad ddechrau ar y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru wedi derbyn cais am CS ac wedi ystyried ei fod yn ddilys. Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i atal yr amserlen y mae'n rhaid dyfarnu cais o fewn iddi.</p> <p>Ar adegau, nid drwy fai Gweinidogion Cymru, gall fod angen atal y broses gwneud cais. Gall enghreifftiau o achosion lle byddai ataliad yn cael ei ystyried yn rhesymol yng nghyd-destun gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lle bo angen datrys ymgymeriadau cyfreithiol rhwng awdurdodau cynllunio lleol, trydydd partïon a'r ceisyddion; • lle bo newid neu adolygiad sylweddol o'r polisi; • lle bo ceisydd yn gwneud archiad i ddiwygio cynllun; • lle nad yw partïon hanfodol yn mynd i wrandawriad;

	<ul style="list-style-type: none"> • lle bo newid yn dod i'r amlwg yn ystod yr archwiliad, sy'n golygu bod yn rhaid i'r CS drafft gael ei ddiwygio, er enghraifft, gall fod angen i'r CS ddod yn offeryn statudol neu fel arall. <p>Caiff Gweinidogion Cymru, drwy gyfarwyddyd, ymestyn yr amserlen. Rhaid iddynt hysbysu'r ceisydd ac unrhyw berson arall a bennir mewn rheoliadau am y cyfarwyddyd.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Pŵer i ddiwygio'r amserlen</u></p> <p>Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hysbysu'r ceisydd bod cyfarwyddyd i ymestyn yr amserlen wedi cael ei ddyroddi (gweler adran 56(4)). Caiff rheoliadau bennu personau eraill y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu hysbysu. Ar y cam hwn, ni ragwelir y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu personau eraill yn benodol, o gofio bod y Bil hefyd yn gosod dyletswydd i gadw cofnod cyhoeddus o archwiliadau o geisiadau. Fodd bynnag, gall tystiolaeth ddod i'r amlwg wrth i'r broses gael ei rhoi ar waith y dylid hysbysu mwy o bersonau penodedig.</p> <p>Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod statudol drwy is-ddeddfwriaeth. Ar hyn o bryd, ni ragwelir y caiff y cyfnod ei ddiwygio. Fodd bynnag, gallai tystiolaeth ddod i'r amlwg drwy weithredu'r broses sy'n nodi y gallai cyfnod byrrach neu hwy o amser fod yn fwy priodol.</p>
<p>Adran 57</p> <p>Rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gais am gydsyniad seilwaith gael ei gymeradwyo neu'i wrthod lle bo penderfyniad wedi cael ei wneud. Mae hefyd yn pennu gofynion hysbysu mewn perthynas â phenderfyniad ac yn darparu pŵer i ragnodi'r weithdrefn i'w dilyn pan fo</p>

	<p>penderfyniad wedi cael ei wneud ar gais sy'n sylweddol wahanol i'r cais a gyflwynwyd yn wreiddiol.</p> <p>Cefndir</p> <p>Ar ôl i gais am gydsyniad seilwaith gael ei gyflwyno a'i dderbyn a chyn i'r cais gael ei archwilio, caiff ceisyddion wneud archiad i amrywio eu cais drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru. Gall hyn ddigwydd pan ddaw sylwadau i law yn ystod y cam cyhoeddusrwydd a hysbysu o'r broses sy'n awgrymu amrywiadau i ddatblygiad arfaethedig er mwyn hwyluso ei hynt drwy'r broses archwilio. Er y byddai amrywiadau o'r fath yn cael eu cyfyngu i fân ddiwygiadau a diwygiadau ansylweddol yn unig (a bennir yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru fesul achos), byddent yn golygu newid i'r hyn y gwnaed cais amdano'n wreiddiol.</p> <p>Yn ogystal, gall amgylchiadau godi lle mae Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (fel y bo'n briodol) yn gwneud newid i ddatblygiad arfaethedig yn ystod archwiliad, a fyddai'n datrys materion a godwyd gan randdeiliaid yr ystyrir eu bod yn fwy na mân faterion sylweddol.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Gwneud gorchymyn ar delerau sy'n sylweddol wahanol i'r hyn y gwnaed cais amdano</u></p> <p>Mae'r Bil yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn os ydynt yn cynnig gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith ar delerau sy'n sylweddol wahanol i'r rheini a gynigir yn y cais.</p> <p>Rhagwelwn y bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu na chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n cynnwys mwy na mân newidiadau perthnasol sylweddol i'r hyn y gofynnwyd amdano yn wreiddiol yn y cais am gydsyniad seilwaith. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb o ran pa fathau o ddiwygiadau ac amrywiadau a ystyrir yn dderbyniol pan ofynnir amdanynt drwy gais ar wahân i amrywio neu ddiwygio cydsyniad seilwaith sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft, rhaid iddynt fod yn newidiadau sylweddol neu'n fân newidiadau sylweddol.</p>
--	--

<p>Adran 59</p> <p>Rhesymau dros benderfynu rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (pa un bynnag a wnaeth y penderfyniad) baratoi datganiad o resymau, p'un a gaiff cais am gydsyniad seilwaith ei gymeradwyo neu'i wrthod.</p> <p>Cefndir</p> <p>Lle bo Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (fel y bo'n briodol) wedi penderfynu ar gais, bydd yn ofynnol iddynt baratoi datganiad o'r rhesymau dros benderfynu gwneud gorchymyn yn rhoi cydsyniad seilwaith neu'n gwrthod cydsyniad seilwaith er mwyn sicrhau bod ceisyddion yn gwybod pam y cafodd y dyfarniad hwn ei wneud. Fodd bynnag, bydd gan bartïon eraill heblaw am geisyddion ddiddordeb yn y rhesymau pam y cafodd dyfarniad i wneud gorchymyn yn rhoi cydsyniad seilwaith neu wrthod cydsyniad seilwaith ei wneud, fel y gymuned leol.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>At bwy yr anfonir datganiad o resymau?</u></p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu'r personau hynny, heblaw am geisyddion, y mae'n rhaid darparu copi o'r datganiad o resymau iddynt, ond bydd y personau hyn yn amrywio yn dibynnu ar y math neu'r categori o ddatblygiad y mae cais yn ymwneud ag ef. Rhagwelwn y bydd personau o'r fath yn cynnwys ACLlau a chynghorau cymuned perthnasol, ymgylgoreion statudol yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses gwneud cais, unrhyw berson a gyflwynodd sylwadau ar gais ac unrhyw bersonau eraill a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru.</p>
---	---

Cyhoeddi datganiadau o resymau

Er na chânt eu pennu mewn deddfwriaeth, bydd canllawiau hefyd yn pennu'r gofynion ar gyfer cyhoeddi datganiadau o resymau gan Weinidogion Cymru, ac rydym yn rhagweld y byddant yn cynnwys cyfuniad o hysbysiadau ysgrifenedig, hysbysiadau mewn cyhoeddiadau perthnasol (fel papurau newydd neu gyfnodolion pysgota) a chyhoeddiad ar wefan sy'n eiddo i Weinidogion Cymru ac a gaiff ei chynnal ganddynt.

RHAN 6 – GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH

Pŵer(au): Rhan 6, adrannau 60, 62, 69, 81, 85, 88, 91, 92 a 93

Disgrifiad: Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i:

- addasu Rhan 1 o Atodlen 1, sy'n nodi'r materion lle y caiff gorchmynion cydsyniad seilwaith wneud darpariaeth atodol mewn perthynas â datblygiad;
- nodi'r gofynion sy'n ymwneud â chaffael tir yn orfodol;
- gwneud darpariaeth ynghylch pryd y gellir dileu gofyniad am gydsyniad penodedig neu ystyried bod cydsyniad wedi cael ei roi;
- gwneud darpariaethau ynghylch manylion y weithdrefn i'w dilyn er mwyn cywiro gwall mewn dogfen penderfyniad;
- gwneud darpariaethau ynghylch manylion y weithdrefn i'w dilyn er mwyn newid a dirymu Cydsyniad Seilwaith (CS);
- pennu hyd diofyn CS;
- gwneud darpariaeth ynghylch y camau y mae'n rhaid eu cymryd mewn perthynas â phŵer i gaffael tir yn orfodol;
- gwneud eithriadau mewn perthynas â'r diffiniad o "weithrediad perthnasol";
- pennu manylion ynghylch pryd y gellir cyflwyno her gyfreithiol o dan amgylchiadau penodol.

Bwriad y polisi:

Pwerau i addasu Rhan 1 o Atodlen 1

Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn rhestru materion sy'n ymwneud â'r datblygiad y rhoddir cydsyniad ar ei gyfer, neu faterion sy'n atodol i'r datblygiad hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gaffael tir drwy gytundeb neu'n orfodol. Bwriedir caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'r rhestr hon er mwyn sicrhau y gall y Bil barhau i fod yn weithredol yn y dyfodol.

Caffael tir yn orfodol

Pan fo ceisydd yn cyflwyno ei gynnis am brosiect seilwaith arwyddocaol (PSA), a bod angen caffael tir neu hawliau dros dir er mwyn gallu gweithredu'r prosiect hwnnw, gall caffael gorfodol gael ei ystyried ac, os yw'n dderbyniol, ei gymeradwyo fel rhan o'r cydsyniad seilwaith dilynol. Bydd hyn yn sicrhau y caiff materion caffael ar gyfer datblygiadau seilwaith eu cynnwys yn y broses gydsynio newydd, gan roi mwy o sicrwydd.

Bwriedir i'r darpariaethau penodol o dan Ran 6 ar gyfer caffael gorfodol sicrhau bod modd nodi materion manwl y broses ar gyfer caffael tir yn orfodol fel rhan o gydsyniad seilwaith mewn ffordd briodol.

Cydsyniadau a ddiddymwyd a chydsyniadau tybiedig

Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru, wrth ddyfarnu neu roi CS, i ddatgymhwysu i bob pwrpas yr angen i sicrhau gorchmynion, cydsyniadau, trwyddedau, grantiau, caniatadau neu awdurdodiadau penodol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mewn perthynas â'r gwaith a gymeradwyir gan y CS. Caiff y cydsyniadau hyn eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth. Mae hefyd yn galluogi'r CS i dybio unrhyw gydsyniadau a nodir mewn is-ddeddfwriaeth.

Bwriedir y bydd hyn yn symleiddio'r broses gydsynio, gan osgoi oedi ar ôl rhoi cydsyniad wrth roi prosiect seilwaith ar waith.

Cywiro gwall mewn dogfen penderfyniad

O safbwynt y weithdrefn ar gyfer cywiro gwall (gan gynnwys hepgoriad) mewn dogfen penderfyniad, gall dogfen penderfyniad gael ei chyhoeddi o bryd i'w gilydd sy'n cynnwys gwall amlwg y gellir ei gywiro. Felly, mae'n bwysig bod gweithdrefn ar gael i sicrhau y gellir cywiro hysbysiad penderfyniad yn gyflym.

Newid a dirymu CS

Y bwriad o safbwynt y weithdrefn ar gyfer newid a dirymu CS yw sicrhau bod adegau, ar ôl i gydsyniad gael ei roi, pan ellir cynnig diwygiadau i gydsyniad seilwaith presennol neu gyflwyno gofyniad i ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

Hyd gorchymyn cydsyniad seilwaith a phryd y mae datblygiad yn dechrau

Y rhesymeg dros gyfyngu ar hyd cydsyniad yw sicrhau bod gan ddatblygwyr gyfnod penodedig i weithredu ar y cydsyniad er mwyn helpu i roi sicrwydd i'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill. Ni fyddai'n briodol i ddatblygwr ddal cydsyniad am brosiect arwyddocaol heb unrhyw ddyddiad gorffen, yn enwedig o ystyried y gall yr ystyriaethau polisi, er enghraifft safonau amgylcheddol, newid dros amser.

Y cyfnod o amser ar gyfer cyflwyno her gyfreithiol i gais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith

Mae'r Bil yn rhoi'r gallu i herio penderfyniadau penodol drwy adolygiad barnwrol ac, ym mhob achos, rhaid i'r ffurflen gael ei ffeilio cyn diwedd cyfnod o chwe wythnos. Caiff dechrau'r cyfnod o amser mewn perthynas â chais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith ei nodi mewn rheoliadau.

Materion gweithdrefnol yw'r rhain ac ystyrir ei bod yn briodol eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth.

Tudalen y pecyn 124

Maes Pwnc	Disgrifiad
<p>Adran 60(5)</p> <p>Yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith</p>	<p>Cefndir</p> <p>Pan roddir CS, gellir gwneud hynny yn amodol ar amodau a nodir yn y cydsyniad. Gall yr amodau neu'r darpariaethau hyn ymwneud â materion sy'n ymwneud â'r datblygiad y rhoddir cydsyniad ar ei gyfer, neu faterion sy'n atodol i'r datblygiad hwnnw.</p> <p>Er enghraifft, gall ymwneud â chaffael tir, naill ai drwy gytundeb neu'n orfodol, neu ddiddymu hawliau dros dir a dŵr.</p> <p>Mae'r rhestr o faterion sy'n ymwneud â datblygiad i'w gweld yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Bil.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><i>Pŵer i addasu'r rhestr</i></p> <p>Er mwyn sicrhau y gall y Bil barhau i fod yn weithredol yn y dyfodol, mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i addasu'r rhestr sydd wedi'i chynnwys yn Rhan 1 o Atodlen 1 drwy is-ddeddfwriaeth.</p>

	<p>Mae'r rhestr yn gynhwysfawr ac mae'n debygol o fod yn gyflawn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er enghraifft, os caiff rhagor o bwerau eu datganoli i Lywodraeth Cymru, mae'n debygol y bydd yn fuddiol cynnwys materion eraill sy'n ymwneud â datblygiad fel rhan o CS.</p> <p>Am y gall rheoliadau o dan adran 60(5) ychwanegu, amrywio neu ddileu mater a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1, bydd y Senedd yn craffu ar y rheoliadau drafft hyn fel rhan o'i gweithdrefn gadarnhaol.</p>
<p>Adran 62</p> <p>Tir y gall awdurdodiad i gaffael yn orfodol ymwneud ag ef</p>	<p>Cefndir</p> <p>Ar gyfer gorchymyn cydsyniad seilwaith i awdurdodi camau i gaffael tir yn orfodol, bydd angen dilyn gweithdrefnau perthnasol a ragnodir mewn rhan arall o'r Bil, er enghraifft ymgynghoriad o dan adran 30.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Byddai is-adran (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi bod yn rhaid bod y gweithdrefnau hyn wedi cael eu dilyn cyn y gellir awdurdodi camau i gaffael tir yn orfodol fel rhan o gydsyniad seilwaith.</p>
<p>Adran 69</p> <p>Hysbysiad o awdurdodiad i gaffael yn orfodol</p>	<p>Cefndir</p> <p>Lle bo Gweinidogion Cymru yn rhoi cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol, bydd yn ofynnol i'r darpar brynwr hysbysu pob person cymwys am y penderfyniad hwn drwy gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad caffael gorfodol"). Bydd cyflwyno hysbysiad caffael gorfodol yn weithdrefn bwysig oherwydd, ar ôl i gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol gael ei roi, bydd y pŵer i gaffael tir sy'n gysylltiedig â phrosiect seilwaith arwyddocaol yn orfodol yn weithredol o'r dyddiad y caiff yr hysbysiad caffael gorfodol ei gyflwyno gyntaf.</p>

	<p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi manylion y broses ar gyfer cyflwyno hysbysiad a beth ddylai ei gynnwys.</p> <p>O safbwynt arddangos hysbysiad, mae'n debygol y bydd yn rhaid i'r darpar brynwr osod yr hysbysiad ar wrthrych neu wrthrychau amlwg ar neu gerllaw'r tir sy'n ymwneud â'r cydsyniad a'u cadw yn eu lle hyd at ddiwedd y cyfnod o chwe wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y caiff y cydsyniad ei roi, i'r graddau sy'n ymarferol. O safbwynt rhoi'r hysbysiad, mae'n debygol y bydd angen ei gyflwyno i bawb â buddiannau yn y tir dan sylw (perchnogion, lesddeiliaid a meddianwyr).</p> <p>O safbwynt cynnwys yr hysbysiad, mae'n debygol y bydd angen nodi teitl y cydsyniad perthnasol; disgrifio ble y caiff yr hysbysiad ei osod; nodi teitl y Gweinidog perthnasol a roddodd y cydsyniad seilwaith a'r dyddiad y cafodd ei gyhoeddi; disgrifio'r hawl mewn achos lle mae'r cydsyniad seilwaith yn awdurdodi camau i gaffael hawl dros dir yn orfodol drwy greu hawl newydd; a nodi bod y cydsyniad seilwaith yn cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi camau i gaffael hawl dros y tir yn orfodol drwy greu hawl dros y tir hwnnw neu (fel y bo'n briodol) gaffael y tir yn orfodol.</p> <p>Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru o safbwynt cyflwyno a chyhoeddi'r hysbysiad hwn.</p>
<p>Adran 81</p> <p>Dileu gofynion cydsynio a thybio cydsyniadau</p>	<p>Cefndir</p> <p>Er mwyn gweithredu a datblygu PSA, byddai angen cydsyniad ar gyfer nifer o faterion atodol fel arfer.</p> <p>Er mwyn darparu 'siop un stop', cynigir y dylid rhoi'r opsiwn i geisyddion symleiddio'r gwahanol gydsyniadau eilaidd sydd eu hangen ar gyfer materion atodol a'u cynnwys yn y prif gydsyniad.</p>

Is-ddeddfwriaethDileu gofynion cydsynio neu dybio cydsyniadau

Er mwyn rhoi proses gydsynio sy'n wirioneddol unedig ar waith, gall y CS a ddyroddir gan Weinidogion Cymru hefyd roi caniatâd, awdurdodi, cymeradwyo, cydsynio, trwyddedu neu gytuno ar faterion atodol.

Lle bo cydsyniad wedi'i dybio neu'i ddiddymu, yn ymarferol, mater i'r datblygwyr fydd nodi p'un a yw'n awyddus i'r cydsyniad gael ei dybio neu'i ddiddymu (h.y. nad oes angen y cydsyniad mwyach). Fodd bynnag, yn y pen draw, Gweinidogion Cymru fydd â'r pŵer i dybio neu ddiddymu'r cydsyniad.

Mae'r Bil yn mabwysiadu dull amodol, sy'n tybio bod awdurdod cydsynio perthnasol wedi awdurdodi'r defnydd o'i gydsyniad/trwydded/awdurdodiad yn y CS. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod cydsynio perthnasol yn cael y cyfle i wrthod rhoi'r hawl i gynnwys y cydsyniad/trwydded/awdurdodiad atodol hwnnw yn y CS. Nodir hyn yn y Bil yn adrannau 81(2) a (3).

Fodd bynnag, mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i dybio unrhyw gydsyniadau a nodir mewn rheoliadau. Gweler adran 81(4).

Rheoliadau ar gyfer cydsyniadau tybiedig a chydsyniadau a ddiddymwyd

Mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi, mewn is-ddeddfwriaeth, eithriadau i adrannau 81(2) a (3), sydd, i bob pwrpas, yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddileu'r gofyniad am gydsyniadau penodedig neu dybio cydsyniadau penodedig heb gydsyniad (penodol neu dawel) yr awdurdod perthnasol.

	<p>Mae'r rheoliadau hyn yn nodi eithriadau i'r angen i gael cydsyniad yr awdurdod perthnasol. Gall y sawl sy'n gwneud penderfyniadau osod amodau ar y cydsyniadau hyn. Er enghraifft, gall y rheoliadau wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tybio cydsyniad i sefydlu parth diogelwch o amgylch gosodiadau ynni adnewyddadwy o dan adran 95 o Ddeddf Ynni 2004; • diddymu unrhyw ofyniad o dan Reoliadau Perthi 1997.
<p>Adran 85</p> <p>Cywiro gwallau: rheoliadau</p>	<p>Cefndir</p> <p>Er mwyn cynnal uniondeb dogfen penderfyniad (hysbysiad o wrthodiad neu orchymyn cydsyniad seilwaith), bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i gywiro penderfyniad. Dim ond os nad yw'r gwall yn newid CS mewn ffordd sylweddol y bydd hyn yn digwydd.</p> <p>Gan na fydd unrhyw fân gywiriad i benderfyniad yn niweidio unrhyw barti, nid ystyrir bod angen ymgynghori ar eiriad y penderfyniad bob amser, yn enwedig pan na fydd yr ystyr yn newid. Fodd bynnag, pan fo gwallau mawr, ystyrir y bydd angen cynnal ymgynghoriad ehangach.</p> <p>Gall y gwall gael ei nodi gan y ceisydd wrth iddo fwrw golwg ar ei gydsyniad, gan Weinidogion Cymru, gan y person penodedig, neu gan bartion eraill â buddiant yn y penderfyniad. Gellir arfer y pŵer i gywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad ar ôl cael cais ysgrifenedig neu heb gais. Os yw'r gwall sy'n cael ei gywiro yn ymwneud â hysbysiad o wrthodiad, rhaid rhoi rhybudd i'r ceisydd.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r weithdrefn i gywiro gwall mewn dogfen penderfyniad, ac mewn perthynas ag effaith gwneud cywiriad, neu beidio â gwneud cywiriad. Rydym yn disgwyl y bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi:</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Manylion yr ymgynghoriad y mae'n rhaid ei gynnal ar ôl gwneud penderfyniad i gywiro dogfen penderfyniad, os ystyrir bod angen Bydd hyn yn cynnwys partïon a chanddynt fuddiant a rhanddeiliaid. • Rhaid i Weinidogion Cymru roi o leiaf 14 diwrnod i'r partïon hyn ymateb i'r cywiriad arfaethedig. Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cyfnodau eraill ar gyfer sylwadau os ydynt o'r farn bod eu hangen. • Pan gaiff penderfyniad i wneud cywiriad neu beidio â gwneud cywiriad ei wneud, bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi'r rhesymau dros y penderfyniad. • Daw'r cywiriad i rym ar y dyddiad y caiff y penderfyniad ei wneud gan Weinidogion Cymru. • Ni fydd unrhyw gywiriad yn effeithio ar y cyfnod amser pan fo'n rhaid dechrau'r datblygiad, h.y. bydd y cyfnod hwn yn dechrau o ddyddiad gorchymyn y cydsyniad gwreiddiol, nid o ddyddiad y cywiriad. • Os na wneir cywiriad, mae'r penderfyniad gwreiddiol yn weithredol o hyd ac ni fydd unrhyw gamau a gynhelir yn unol â'r gwall arfaethedig yn effeithio ar y penderfyniad gwreiddiol.
<p>Adran 88</p> <p>Y weithdrefn: newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith</p>	<p>Cefndir</p> <p>Lle rhoddir gorchymyn cydsyniad seilwaith, mae natur prosiectau seilwaith mawr yn golygu bod angen gwneud newidiadau i ddatblygiad yn aml, naill ai cyn neu yn ystod y cam adeiladu.</p> <p>Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer proses ffurfiol y gall ceisyddion ei defnyddio i wneud cais am newid i'r gorchymyn cydsyniad seilwaith.</p>

	<p>Mae'r Bil yn cyflwyno un broses ar gyfer gwneud diwygiadau i orchymyn cydsyniad seilwaith, rhai ansylweddol a rhai sylweddol. Yn achos unrhyw ddiwygiadau sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn sylweddol, bydd angen cyflwyno cais newydd am gydsyniad seilwaith.</p> <p>Ni ddiffinnir diwygiadau ansylweddol a sylweddol mewn deddfwriaeth gan fod nifer o ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried a bydd yn dibynnu ar bob achos yn unigol. Mae'r rhain yn cynnwys cyd-destun y cynllun cyffredinol, y newid(iadau) a geisir i'r gorchymyn cydsyniad seilwaith presennol ac amgylchiadau penodol y safle a'r ardal o amgylch.</p> <p>Yn gyffredinol, ond nid ym mhob achos, diwygiadau sy'n debygol o fod yn sylweddol yw'r rhai sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn newid hawliau tir (h.y. caffael tir yn orfodol); • yn golygu bod angen gwneud newidiadau i'r Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol; • yn golygu bod angen Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd arall; neu • yn golygu bod angen trwydded arall ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop. <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn i newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith ac mewn cysylltiad â'r weithdrefn honno. Disgwylir y bydd is-ddeddfwriaeth yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Manylion y weithdrefn i'w dilyn cyn gwneud cais o dan adran 87. Bydd hyn yn cynnwys gofyniad i gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru a'r ACLI(au) lle mae'r safle wedi'i leoli neu'r ACLI(au) cyfagos os mai safle alltraeth sydd o dan sylw, wrth gynnig diwygiadau i orchymyn cydsyniad seilwaith presennol. Rydym yn disgwyl y bydd rheoliadau'n nodi pa wybodaeth y dylid ei darparu gyda'r hysbysiad, gan gynnwys y canlynol, ymhlith eraill: <ul style="list-style-type: none"> - disgrifiad o'r newid(iadau) arfaethedig;
--	--

	<ul style="list-style-type: none"> - datganiad yn cadarnhau a yw'r newid, ym marn y ceisydd, yn ansylweddol neu'n fwy na newid ansylweddol; - manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhelir. Bydd hwn yn dilyn y weithdrefn ar gyfer gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu a nodir yn adran 33 o'r Datganiadau hyn o Fwriad y Polisi. <ul style="list-style-type: none"> • Manylion am yr hyn y dylid ei gyflwyno gyda chais i newid neu ddirymu cydsyniad a sut y dylid gwneud cais o'r fath. Rydym yn disgwyl y bydd is-ddeddfwriaeth yn cynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill: <ul style="list-style-type: none"> - manylion y ceisydd; - manylion y newid y gwneir cais amdano a datganiad yn cadarnhau a yw'r newid, ym marn y ceisydd, yn ansylweddol neu'n fwy na newid ansylweddol; - unrhyw ddogfennau a chynlluniau yr ystyrir bod eu hangen i gefnogi'r cais. • Manylion y weithdrefn i ddilysu cais i newid neu ddirymu cydsyniad. <p>Ar ôl i gais, ynghyd â dogfennau ategol, gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru, bydd yn rhaid iddynt ddyfarnu a yw'r cais yn ddilys ai peidio o fewn amserlen benodedig.</p> <p>Pan gaiff cais ei gyflwyno nad ystyrir ei fod yn ddilys (h.y. mae gwybodaeth neu ddogfennau ar goll), rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am y rhesymau pam nad ydynt yn ystyried bod ei gais yn ddilys.</p> <p>Pan fo ceisydd wedi gwneud cais ar y sail bod y cais yn ansylweddol, ond bod Gweinidogion Cymru'n dyfarnu wedyn ei fod yn fwy na chais ansylweddol, ni fydd y dyfarniad hwn yn amharu ar ddilysrwydd y cais oni bai bod angen gwybodaeth atodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Manylion am y dyfarniad ynghylch a yw diwygiadau'n ansylweddol neu'n sylweddol. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:
--	--

	<ul style="list-style-type: none"> - rhaid i Weinidogion Cymru lunio barn ar b'un a ydynt yn ystyried bod newid(iadau) arfaethedig yn ansylweddol neu'n sylweddol, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir gan y ceisydd a meini prawf sy'n seiliedig ar y polisi. - os ystyrir bod newid(iadau) yn ansylweddol, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r person penodedig wneud penderfyniad. - y pŵer i gadw'r gallu i ystyried newid(iadau) arfaethedig y bernir ei fod/eu bod yn fwy na newid(iadau) ansylweddol pan fo ystyriaethau sylweddol eraill yn golygu bod y newid(iadau) yn sylweddol. <ul style="list-style-type: none"> • Manylion y weithdrefn i newid a ddirymu cydsyniad seilwaith. Rydym yn disgwyl y bydd is-ddeddfwriaeth yn cynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill: <ul style="list-style-type: none"> - yr weithdrefn i'w dilyn cyn gwneud cais i newid neu ddirymu cydsyniad (o dan adran 87). - y broses o wneud cais o'r fath. - y broses gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cymeradwyo neu wrthod cais i newid neu ddirymu cydsyniad, gan gynnwys y ddyletswydd i ymgynghori, yr amserlen ymgynghori, manylion ynghylch rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais, manylion personau penodedig, y weithdrefn archwilio, manylion y polisiâu a'r gweithdrefnau y dylid cyfeirio atynt wrth ystyried cais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.
<p>Adrannau 91 a 92</p> <p>Hyd gorchymyn cydsyniad seilwaith a phryd y mae datblygiad yn dechrau</p>	<p>Cefndir</p> <p>Yn adran 91, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygiad y rhoddir y CS ar ei gyfer gael ei ddechrau cyn diwedd cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau. Os na fydd y datblygiad wedi cael ei ddechrau cyn diwedd y cyfnod rhagnodedig, bydd y CS yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.</p> <p>Cymerir bod datblygiad yn dechrau ar y dyddiad cynharaf y cynhelir unrhyw weithrediad perthnasol cyfreithlon. (Gweler adran 92).</p>

Is-ddeddfwriaethCyfnod rhagnodedig

Rhagwelir y caiff cyfnod o hyd at bum mlynedd ei ragnodi mewn rheoliadau yn unol â'r gyfundrefn ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Er mwyn darparu seilwaith yn amserol, cynhelir trafodaethau er mwyn annog camau i ddechrau datblygiad cyn gynted â phosibl, a gall y cydsyniad seilwaith bennu cyfnod gweithredu byrrach os bydd hynny'n ddymunol ac yn ymarferol i'r datblygiad unigol.

Nid yw'n ofynnol i'r cyfnod rhagnodedig gael ei nodi yn y gorchymyn cydsyniad seilwaith. Os caiff cyfnod rhagnodedig ei nodi yn y CS a'i fod yn wahanol i'r cyfnod a nodir mewn rheoliadau, y cyfnod a nodir yn y CS fydd yn gymwys.

Prynu gorfodol

Pan fo'r CS yn rhoi caniatâd i brynu tir yn orfodol, rhaid i'r camau a nodir mewn disgrifiad rhagnodedig gael eu dilyn mewn perthynas â'r pryniant cyn diwedd y cyfnod rhagnodedig, neu gyfnod gwahanol a nodir yn y CS.

Bydd is-ddeddfwriaeth hefyd yn nodi, lle bo CS yn rhoi caniatâd i gaffael tir yn orfodol, a lle y caiff hysbysiad (hysbysiad sy'n galluogi'r awdurdod caffael i ddechrau'r broses o gaffael neu gymryd meddiant o'r tir i bob pwrpas) ei gyflwyno o dan adran 5 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965, fod yn rhaid i'r hysbysiad hwnnw gael ei gyflwyno cyn diwedd cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y rhoddir y CS.

Caiff y cyfnod rhagnodedig a'r camau rhagnodedig ar gyfer caffael tir yn orfodol eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth am eu bod yn faterion gweithdrefnol. Os daw tystiolaeth i'r amlwg yn y dyfodol y dylai gweithdrefnau gwahanol mewn perthynas â dechrau CS fod ar waith, bydd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i ddiwygio'r trefniadau hyn ar unwaith.

	<p><u>Gweithrediadau perthnasol</u></p> <p>Mae adran 92 yn datgan y cymerir bod datblygiad yn dechrau ar y dyddiad cynharaf y cynhelir unrhyw weithrediad perthnasol. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn bosibl i reoliadau nodi'r mathau o weithrediadau nad ydynt yn "weithrediad perthnasol" at ddibenion sefydlu pryd mae datblygiad wedi dechrau.</p> <p>Mae'r angen i eithrio rhai gweithrediadau o'r diffiniad o weithrediad perthnasol yn golygu y gellir bod yn glir ynghylch pryd mae datblygiad wedi dechrau.</p> <p>Disgwylir y bydd y rheoliadau'n nodi na fydd unrhyw gamau a gymerir mewn perthynas â chaffael gorfodol (er enghraifft, cyflwyno hysbysiad) yn gyfystyr â gweithrediad perthnasol ynddynt eu hunain.</p>
<p>Adran 93</p> <p>Heriau cyfreithiol</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau a'r terfynau amser ar gyfer herio materion yn ymwneud â gorchymyn cydsyniad seilwaith (gan gynnwys diwygiadau neu ddirymiadau).</p> <p>Cefndir</p> <p>Gan mai dim ond Gweinidogion Cymru a all wneud penderfyniadau ynghylch gorchmynion cydsyniad seilwaith (gan gynnwys diwygiadau a dirymiadau), nid oes hawl statudol i apelio. Fodd bynnag, gellir cyflwyno heriau drwy adolygiad barnwrol.</p> <p>Yn gyffredinol, caiff yr amserlenni ar gyfer dwyn adolygiad barnwrol eu nodi yn y Bil. Fodd bynnag, mae un pŵer gwneud rheoliadau mewn perthynas ag amseru yn adran 93(7)(b) sy'n ymwneud â chais a wneir o dan adran 93(6). Mae adran 93(6) yn darparu y gellir cyflwyno her gyfreithiol ar gyfer unrhyw beth arall a wneir, neu nas gwneir, gan awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith neu gais i newid neu</p>

	<p>ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith. Fodd bynnag, rhaid gwneud cais o'r fath o fewn cyfnod o chwe wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod perthnasol.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi'r diwrnod perthnasol lle caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ei ddiwygio neu'i ddirymu.</p> <p><u>Nodi ystyr "y diwrnod perthnasol"</u></p> <p>O safbwynt ystyr "y diwrnod perthnasol" mewn perthynas ag achos i gwestiynu unrhyw beth arall a wneir, neu nas gwneir, gan awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru mewn perthynas â chais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, rydym yn disgwyl y bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi bod hyn yn golygu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y diwrnod y caiff y cais ei dynnu'n ôl; • y diwrnod y caiff y gorchymyn cydsyniad seilwaith ei gyhoeddi neu (os yw'n hwyrach) y diwrnod y caiff y datganiad o'r rhesymau dros wneud y gorchymyn ei gyhoeddi (ond yn gymwys i ddiwygiadau i orchymyn cydsyniad seilwaith); • y dyddiad y caiff hysbysiad o benderfyniad i gymeradwyo cais i ddiwygio neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith ei ddyroddi neu (os yw'n hwyrach) y dyddiad y caiff y datganiad o'r rhesymau ei gyhoeddi; neu • y dyddiad y caiff hysbysiad o benderfyniad i wrthod cais i ddiwygio neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith ei ddyroddi neu (os yw'n hwyrach) y dyddiad y caiff y datganiad o'r rhesymau dros y gwrthodiad ei gyhoeddi. <p>Fodd bynnag, bydd angen gwneud hyn yn unol â'r gofynion gweithdrefnol a nodir mewn is-ddeddfwriaeth ar gyfer sut y gall gorchymynion cydsyniad seilwaith gael eu diwygio neu'u dirymu a gallent gael eu newid.</p>
--	--

RHAN 7 – GORFODI

Pŵer(au): Rhan 7, adrannau 110 a 115

Disgrifiad:

Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i:

- nodi materion i'w cynnwys mewn hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig nad ydynt wedi'u hamlinellu yn y Bil;
- nodi'r amgylchiadau neu'r gweithgareddau na chaiff hysbysiad stop dros dro eu gwahardd.

Bwriad y polisi:

Hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig

Mae'r Bil yn nodi dwy senario lle gall person gyflawni trosedd, sef datblygiad heb orchymyn cydsyniad seilwaith (os oes angen un) a thorri'r telerau a nodir mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith neu fethu â chydymffurfio â nhw.

Os caiff person ei ganfod yn euog o drosedd o'r fath, gall yr awdurdod gorfodi lleol (naill ai'r awdurdod cynllunio lleol ("ACLI") neu Weinidogion Cymru) ddyroddi hysbysiad datblygiad anawdurdodedig.

Bydd yn ofynnol i hysbysiadau o'r fath gynnwys darnau penodol o wybodaeth ym mhob achos a chaiff y rhain eu nodi yn y Bil. Er enghraifft, nodi'r amserlen y mae'n rhaid ei dilyn wrth gymryd unrhyw gamau a nodir yn yr hysbysiad i unioni'r toriad. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys, ond nid ym mhob achos. Ein bwriad polisi fyddai nodi'r wybodaeth hon mewn rheoliadau a'r amgylchiadau lle byddai ei hangen.

Hysbysiadau stop dros dro

Mae'r Bil yn cyflwyno'r gallu i ACLlau ddyroddi hysbysiad stop dros dro, er mwyn rhoi amser i ACLlau ystyried a ddylid cymryd rhagor o gamau gorfodi yn erbyn datblygiad sy'n cael ei gynnal heb y cydsyniad angenrheidiol neu achos o dorri, neu fethiant i gydymffurfio â, thelerau cydsyniad, os ydynt o'r farn ei fod yn fater brys.

Gall hysbysiad stop dros dro olygu bod yn rhaid i weithgarwch sy'n ymwneud â chynnal datblygiad heb y cydsyniad angenrheidiol neu dorri, neu fethiant i gydymffurfio â, thelerau cydsyniad, ddod i ben ar unwaith o'r adeg y daw'n weithredol am gyfnod rhagnodedig.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau penodol ar ba bryd y gellir cyflwyno hysbysiad stop dros dro, os, er enghraifft, y byddai'n amharu ar rai hawliau dynol arbennig. Ein bwriad polisi yw nodi mewn rheoliadau unrhyw amgylchiadau eraill lle na ellir cyflwyno hysbysiad stop dros dro.

Maes Pwnc	Disgrifiad
<p>Adran 110</p> <p>Hysbysiad datblygiad anawdurdodedig</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad datblygiad anawdurdodedig, pan fo person wedi cael ei ganfod yn euog o drosedd sy'n ymwneud â datblygu heb gydsyniad seilwaith (lle bo angen y fath gydsyniad) neu dorri, neu fethiant i gydymffurfio â, thelerau gorchymyn cydsyniad seilwaith.</p> <p>Cefndir</p> <p>Mae'r Bil yn nodi materion penodol y mae'n rhaid eu cynnwys mewn hysbysiad datblygiad anawdurdodedig ym mhob achos, fel y cyfnod y mae rhaid cymryd unrhyw gamau a bennir yn yr hysbysiad o'i fewn. Fodd bynnag, mae hefyd yn darparu pŵer gwneud rheoliadau ar gyfer materion ychwanegol y mae'n rhaid eu nodi hefyd ac sy'n gallu amrywio o achos i achos.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Materion ychwanegol a nodir mewn hysbysiad datblygiad anawdurdodedig</u></p>

	<p>Am y bydd person sydd wedi cael hysbysiad datblygiad anawdurdodedig eisoes wedi cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd, fel arfer, dim ond y camau y mae'n rhaid eu cymryd i unioni'r toriad a'r cyfnod y mae'n rhaid cymryd y camau hyn o'i fewn sydd angen eu cynnwys mewn hysbysiadau. Caiff y rhain eu nodi yn y Bil.</p> <p>Fodd bynnag, gall yr awdurdod gorfodi perthnasol (yr ACLI yn y lle cyntaf, fel arfer, ond gall olygu Gweinidogion Cymru hefyd) ystyried bod angen cynnwys gwybodaeth ychwanegol mewn hysbysiad datblygiad anawdurdodedig o dan amgylchiadau arbennig, neu ar gyfer mathau penodol o geisiadau/datblygiadau. Mae'r pŵer gwneud rheoliadau yn yr adran hon yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol o'r fath. Er enghraifft, gellir dyfarnu y dylid cynnwys union ffiniau'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.</p>
<p>Adran 115</p> <p>Cyfyngiadau ar bŵer i ddyroddi hysbysiad stop dros dro</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau lle na ellir dyroddi hysbysiad stop dros dro a'r hyn na all ei wahardd.</p> <p>Cefndir</p> <p>Mae hysbysiadau stop dros dro yn adnodd gorfodi defnyddiol er mwyn rhoi amser i ystyried a ddylid cymryd rhagor o gamau gorfodi yn erbyn datblygiad sy'n cael ei gynnal heb y cydsyniad angenrheidiol neu achos o dorri, neu fethiant i gydymffurfio â, thelerau cydsyniad, os ystyrir ei fod yn fater brys. Gallant olygu bod yn rhaid i weithgarwch sy'n ymwneud â chynnal datblygiad heb y cydsyniad angenrheidiol neu dorri, neu fethiant i gydymffurfio â, thelerau cydsyniad, ddod i ben ar unwaith o'r adeg y daw'n weithredol.</p> <p>O ganlyniad i effeithiau cyfyngol ac uniongyrchol hysbysiad stop dros dro, mae'r Bil yn pennu na chaiff hysbysiad o'r fath wahardd defnyddio adeilad fel annedd na chynnal gweithgarwch, neu o dan amgylchiadau, a bennir mewn is-ddeddfwriaeth.</p>

	<p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Materion ac amgylchiadau pellach na chaiff hysbysiad stop dros dro eu gwahardd</u></p> <p>Y prif ddiben wrth gyfyngu ar y defnydd o hysbysiadau stop dros dro yw sicrhau nad oes unrhyw effaith ar hawliau penodol a all fod gan unigolyn, neu lle byddai dyroddi hysbysiad o'r fath yn effeithio ar iechyd a diogelwch, neu ddiogelwch cenedlaethol.</p> <p>Ar ben hynny, dylid nodi bod hyn yn adlewyrchu adran 171F(1)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac y gall cyfyngiadau penodol gael eu cyflwyno yn y system gynllunio ehangach a fyddai hefyd yn berthnasol i geisiadau am gydsyniad seilwaith. Felly, mae hyn yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i fod yn gyson â'r system gynllunio ehangach, lle bo hynny'n briodol.</p>
--	--

RHAN 8 – SWYDDOGAETHAU ATODOL

Pŵer(au): Rhan 8, adrannau 121, 125, 126, 127, 128 a 129

Disgrifiad:

Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- gwneud darpariaethau ar gyfer codi ffioedd neu mewn cysylltiad â chodi ffioedd;
- gwneud darpariaethau ar y gofynion ar gyfer neu mewn cysylltiad â chreu a chynnal cofrestr o geisiadau;
- gwneud darpariaethau ar y pŵer i ymgynghori a'r ddyletswydd i ymateb i ymgynghoriadau;
- gwneud darpariaethau ar gyfer adennill costau y mae awdurdodau cyhoeddus wedi mynd iddynt am bethau a wneir yn unol â chyfarwyddyd;
- gwneud darpariaethau sy'n cyfyngu ar bŵer Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso gofynion;
- llunio rheoliadau am Geisiadau gan y Goron.

Bwriad y polisi:

Codi Ffioedd

Mae'r Bil yn sicrhau y gellir adennill costau yr eir iddynt fel rhan o'r broses o wneud cais am orchymyn cydsyniad seilwaith. Bydd y ffioedd yn seiliedig ar y gost lawn o ddarparu gwasanaethau.

Bydd is-ddeddfwriaeth yn darparu mwy o fanylion am y ffioedd hyn, a gaiff eu codi ar gamau gwahanol o'r broses gwneud cais ac ar y cam ar ôl y penderfyniad. Ein bwriad yw y bydd y gyfundrefn ffioedd yn syml ac yn dryloyw ac, felly, er mwyn cyflawni hyn, bydd y ffioedd a ragnodir mewn is-ddeddfwriaeth yn cynnwys cyfraddau penodedig a dyddiol, a bydd rhai ffioedd yn raddedig yn dibynnu ar gymhlethdod achos.

Mae potensial i gynnwys ffioedd eraill mewn rheoliadau, fel ffioedd a godir gan awdurdod cyhoeddus penodedig am ddarparu gwasanaethau neu swyddogaethau mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith.

Creu a chynnal cofrestr o geisiadau

Mae'r Bil yn nodi bod yn rhaid i gofrestr o geisiadau neu ddarpar geisiadau gael ei chynnal a'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, sef yr awdurdod yr ystyrir sydd fwyaf priodol i gynnal y gofrestr. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn fwy lleol, er enghraifft, yn ardal safle'r cais.

Bwriad y polisi yw y bydd Gweinidogion Cymru a'r ACLI yn cynnal cofrestr o wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir i ddarpar geisyddion. Diben hyn yw darparu tryloywder drwy roi cyfle i unrhyw berson sy'n dymuno gwneud hynny, arfer ei hawliau i wybodaeth mewn modd amserol. Ymhellach, bydd o fudd i'r ACLI a Gweinidogion Cymru, os bydd angen iddynt gael gafael ar gofnodion hanesyddol yn y dyfodol.

Caiff manylion ynghylch pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y gofrestr a sut y dylid ei chyhoeddi a sicrhau ei bod ar gael eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth.

Ymgylchoreion statudol

Mae ymgylchoreion a gynhelir wrth archwilio cais gydag ymgylchoreion statudol yn egwyddor sydd eisoes ar waith yn y gyfundrefn gydsynio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Caiff darpariaethau tebyg eu cynnwys yn y Bil i sicrhau bod prosesau effeithiol ar waith i ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus penodedig a'u cynnwys.

Bwriedir y caiff ymgylchoreion eu cynnal pan fydd Gweinidogion Cymru yn cael cais dilys. Mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd i ymateb i ymgylchoreion a bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi ffurf a chynnwys ymateb o sylwedd a'r cyfnod o amser ar gyfer darparu ymateb o'r fath.

Bwriedir nodi'r rhestrau o ymgylchoreion statudol a'r amgylchiadau ar gyfer ymgysylltu â nhw mewn is-ddeddfwriaeth yn dilyn ymarfer ymgylchoreion, er mwyn sicrhau bod pob corff perthnasol yn ymgysylltu â'r broses.

Adennill ffioedd mewn perthynas â chyfarwyddydau

Mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdod cynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru neu awdurdod datganoledig yng Nghymru a nodir mewn rheoliadau, wneud pethau mewn perthynas â chais. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer neu mewn cysylltiad ag adennill costau yr eir iddynt gan awdurdodau cyhoeddus wrth gyflawni cyfarwyddyd.

Darpariaethau sy'n cyfyngu ar bŵer Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso gofynion

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru, os byddant yn fodlon na fyddai niwed i degwch gweithdrefnol, i hepgor rhai gofynion gweithdrefnol nad oes eu hangen yn eu barn nhw, drwy gyfarwyddyd. Gan fod y broses gydsynio a ddiffinnir yn y Bil yn rhagnodol, prin iawn yw'r amgylchiadau lle na all gofynion gweithdrefnol penodol ychwanegu gwerth at y broses ac y gellir ystyried eu bod yn ddiangen. Er mwyn parhau i gyflymu'r broses gydsynio, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i hepgor gofynion penodol os ydynt o'r farn na fyddai hynny'n niweidiol i degwch gweithdrefnol.

Mae'r pŵer i roi cyfarwyddydau yn cynnwys y pŵer i amrywio neu ddirymu'r cyfarwyddyd.

Caiff y pŵer hwn ei gyfyngu drwy is-ddeddfwriaeth a fydd yn nodi'r gofynion y gellir eu datgymhwyso drwy gyfarwyddyd a bydd yn rhaid i gyfarwyddydau gael eu cyhoeddi a chynnwys rhesymau Gweinidogion Cymru.

Ceisiadau gan y Goron

Efallai y bydd angen gweithdrefnau arbennig ar y cam cyn gwneud cais a'r cam archwilio yn achos ceisiadau gan y Goron lle gall datblygiadau arfaethedig gynnwys gwybodaeth sensitif.

Maes Pwnc	Disgrifiad
<p>Adrannau 121 a 127</p> <p>Gwneud darpariaethau ar gyfer codi ffioedd neu mewn cysylltiad â chodi ffioedd</p>	<p>Crynodeb</p> <p>Mae adran 121 yn sicrhau y gellir adennill unrhyw gostau yr eir iddynt fel rhan o'r broses o wneud cais am orchymyn cydsyniad seilwaith.</p> <p>Cefndir</p> <p>Ein bwriad yw darparu mecanwaith, drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn codi ffioedd ar gamau amrywiol o'r broses gwneud cais. Caiff hyn ei ymestyn hefyd i'r cam ar ôl i'r penderfyniad gael</p>

	<p>ei wneud, lle y gellir cyflwyno ceisiadau yn y dyfodol i ddirymu neu ddiwygio gorchymyn cydsyniad seilwaith.</p> <p>Bydd unrhyw ffioedd perthnasol yn seiliedig ar y gost lawn o ddarparu gwasanaethau. Bydd angen mewnbwn sylweddol gan Weinidogion Cymru, ACLlau ac ymgynghoreion arbennig eraill fel rhan o'r broses o wneud cais am gydsyniad seilwaith. Ein bwriad yw y gall y partïon hyn adennill eu costau am unrhyw fewnbwn sydd ei angen.</p> <p>Ein bwriad yw y bydd y gyfundrefn ffioedd yn syml ac yn dryloyw ac, felly, er mwyn cyflawni hyn, bydd y ffioedd yn cynnwys cyfraddau penodedig a dyddiol. Y bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r cyfraddau hyn. Gall costau amrywio yn dibynnu ar faint, graddfa a lleoliad datblygiad arfaethedig a gall ffactorau eraill fel chwyddiant effeithio ar gostau. Mae cynnwys cyfradd amrywiol yn y broses yn rhoi'r hyblygrwydd hwnnw.</p> <p>Rydym hefyd yn bwriadu y caiff rhai ffioedd eu graddio, yn dibynnu ar gymhlethdod achos, er enghraifft, a oes angen Offeryn Statudol (OS) ar y cais ai peidio. Os bydd cais yn fwy cymhleth a'i bod yn debygol y bydd angen OS, codir ffi uwch o gymharu ag achos llai cymhleth lle na fydd angen OS.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Ffioedd am Wasanaethau Cyn Gwneud Cais</u></p> <p>Bydd yr is-ddeddfwriaeth yn rhagnodi ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais gan Weinidogion Cymru ac ACLlau. Bydd hefyd yn rhagnodi ar gyfer ad-daliadau, mewn amgylchiadau penodol, ac yn gwneud darpariaeth i godi tâl am gyfarfodydd cyn gwneud cais.</p> <p><u>Ffioedd am ymgynghoriad cyn gwneud cais</u></p> <p>Cyn gwneud cais am gydsyniad seilwaith, bydd yn ofynnol i geisyddion hysbysu Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill am eu bwriad i ddechrau cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais. Byddant yn gwneud hyn drwy hysbysiad cyn gwneud cais, a bydd yn angen</p>
--	--

cyflawni swyddogaethau gweinyddol penodol er mwyn prosesu'r hysbysiadau hyn ac ymateb iddynt. Er mwyn gwrthbwysu'r gost hon, rydym yn bwriadu codi ffi benodedig.

Ffioedd gwneud cais

Bydd ffioedd gwneud cais yn cynnwys ffioedd penodedig ac amrywiol, gan y bydd rhai elfennau o'r broses yn rhai safonol a bydd eraill yn dibynnu ar faint a graddfa'r datblygiad arfaethedig. Codir ffi cyfradd amrywiol am archwilio cais, a bydd hyn yn helpu i leihau costau archwilio, ac yn sicrhau mai dim ond am yr amser a dreulir yn archwilio cais ac yn penderfynu arno y codir ffioedd ar geisyddion.

Ffioedd am Adroddiadau ar yr Effaith Leol neu Adroddiadau Effaith ar y Môr

Ein bwriad yw y bydd ACLlau a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ffi am gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol neu Adroddiad Effaith ar y Môr (LIR/MIR), yn ystod y broses gwneud cais. Bydd hon yn ffi benodedig, am ei bod yn debygol y bydd yr LIR neu'r MIR yn cynnwys gwybodaeth safonol.

Ffioedd Dyfarnu ac Ar Ôl Penderfynu ar Gais

Ein bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru yn codi ffi benodedig am ddyfarnu gorchymyn cydsyniad seilwaith. Bydd ffioedd hefyd am wneud cais i ddiwygio neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

Ffioedd eraill

Mae potensial i gynnwys ffioedd eraill mewn rheoliadau, fel y ffioedd a godir gan awdurdod cyhoeddus penodedig.

Mae'r pŵer yn y Bil mewn perthynas â ffioedd yn eang, a gall rheoliadau wneud darpariaeth, gan gynnwys:

	<ul style="list-style-type: none"> • pryd y caiff ffi ei chodi a phryd na chaiff ffi ei chodi; • y swm a gaiff ei godi; • yr hyn a gaiff ei ystyried a'r hyn na chaiff ei ystyried wrth gyfrifo'r swm a godir; • pwy sy'n gyfrifol am dalu ffi a godir; • i bwy y caiff y ffioedd eu talu; • pryd y dylid talu ffi a godir; • adennill ffioedd a godir; • hepgor, lleihau neu ad-dalu ffioedd; • effaith talu neu fethu â thalu ffioedd a godir; • trosglwyddo ffioedd sy'n daladwy o un person i berson arall; • cyflenwi neu gyhoeddi gwybodaeth ar gyfer unrhyw un o ddibenion y rheoliadau. <p><u>Adran 127</u></p> <p>Mae'r adran hon yn rhoi'r gallu i'r awdurdodau cyhoeddus hynny adennill eu costau am bethau a wnaed o dan gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru. Lle cyflawnir swyddogaethau penodol (e.e. postio hysbysiad safle) ein bwriad yw y caiff ffi benodedig ei thalu am y swyddogaeth hon.</p>
<p>Adran 125</p> <p>Gwneud darpariaethau ar y gofynion ar gyfer neu mewn cysylltiad â chreu a chynnal cofrestr o geisiadau</p>	<p>Cefndir</p> <p>Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o brosiectau posibl yn eu hardal, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o geisiadau neu ddarpar geisiadau a rhoi cyhoedduswydd iddi.</p> <p>Bydd cofrestr Gweinidogion Cymru o geisiadau a darpar geisiadau CS yn cynnwys gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir i ddarpar geisydd. Mae darpar geisiadau yn golygu'r rhai sydd wedi hysbysu Gweinidogion Cymru (adran 29) neu lle mae Gweinidogion Cymru wedi dyfarnu eu bod yn PSA drwy gyfarwyddyd (adran 22).</p> <p>Caiff ffurf y gofrestr ei phennu mewn is-ddeddfwriaeth.</p>

Is-ddeddfwriaethFfurf y gofrestr

Bydd rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ffurf a chynnwys y gofrestr a'r camau y mae'n rhaid eu dogfennu yn y gofrestr. Er enghraifft, gall y gofrestr fod ar ffurf gwefan.

Gall rheoliadau hefyd alluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r ACLI gynnal cofrestr o geisiadau CS ac unrhyw wasanaethau cyn gwneud cais dilys a ddarperir gan yr ACLI i ddarpar geisydd.

Rhaid cynnal y gofrestr o brosiectau fel y gall y cyhoedd ei gweld.

Rhagwelir y bydd yn rhaid i'r gofrestr o geisiadau a darpar geisiadau a gynhelir gan Weinidogion Cymru gynnwys copi o'r canlynol:

- unrhyw hysbysiad a wneir i Weinidogion Cymru;
- unrhyw hysbysiad gan Weinidogion Cymru i gadarnhau eu bod wedi cael cais;
- unrhyw hysbysiad gan Weinidogion Cymru sy'n nodi eu bod wedi derbyn y cais, gan gynnwys mewn perthynas â thynnu cais yn ôl;
- unrhyw hysbysiad nad yw'r cais wedi'i dderbyn;
- unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynir i Weinidogion Cymru mewn ymateb i unrhyw wahoddiad am sylwadau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ac o fewn yr amserlen a bennir gan Weinidogion Cymru.
- unrhyw hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad mewn perthynas â'r cais;
- unrhyw hysbysiad diwygiedig o benderfyniad, fel diwygiad neu gywiriad o wall.

O safbwynt gwasanaethau cyn gwneud cais:

- copi o ffurflen archiad am wasanaeth cyn gwneud cais (gan gynnwys yr holl gynlluniau a lluniadau a gyflwynir ar y cyd â ffurflen);
- manylion y gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir ganddynt;
- dogfen yn dangos y tir y mae datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef (h.y. cyfeiriad safle neu fap sy'n dangos y ffiniau fel llinell goch).

Rhaid cynnwys pob archiad yn y gofrestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol, oni bai bod y ceisydd yn gwneud archiad ysgrifenedig i'r wybodaeth gael ei chynnwys yn y gofrestr yn ddiweddarach. Ni ddylai'r dyddiad hwn fod yn hwyrach na'r diwrnod y mae'r ceisydd yn hysbysu Gweinidogion Cymru yn ffurfiol am ddarpar gais CS.

Rhaid i'r archiad ysgrifenedig a gyflwynir gan y ceisydd gynnwys rhesymau a chyfiawnhad dros gyhoeddi'r archiad yn y gofrestr yn ddiweddarach (h.y. os yw'r wybodaeth yn fasnachol sensitif) a Gweinidogion Cymru fydd yn dyfarnu a yw'r rhesymau a'r cyfiawnhad dros beidio â datgelu yn drech na budd y cyhoedd. Fodd bynnag, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso rhagdybiaeth o blaid datgelu.

Lle na bo'r awdurdod cyhoeddus o'r farn bod y rhesymau a'r cyfiawnhad dros beidio â datgelu yn drech na budd y cyhoedd, rhaid i'r archiad gael ei gyhoeddi yn y gofrestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig y bydd is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACLI gynnal cofrestr o geisiadau CS a gwasanaethau cyn gwneud cais dilys a ddarperir o fewn ei ardal. Disgwylir y bydd y gofrestr yn cynnwys manylion am y canlynol:

O ran ceisiadau CS:

- unrhyw hysbysiad gan Weinidogion Cymru sy'n nodi eu bod wedi derbyn y cais;
- unrhyw hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad mewn perthynas â'r cais, gan gynnwys tynnu'n ôl;
- unrhyw hysbysiad diwygiedig o benderfyniad, fel diwygiad neu gywiriad o wall.

	<p>O ran gwasanaethau cyn gwneud cais gan yr ACLI:</p> <ul style="list-style-type: none"> • copi o ffurflen archiad am wasanaeth cyn gwneud cais (gan gynnwys yr holl gynlluniau a lluniadau a gyflwynir ar y cyd â ffurflen); • manylion y gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan yr ACLI; • dogfen yn dangos y tir y mae datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef (h.y. cyfeiriad safle neu fap sy'n dangos y ffiniau fel llinell goch).
<p>Adran 126</p> <p>Gwneud darpariaethau ar y pŵer i ymgynghori a'r ddyletswydd i ymateb i ymgynghoriadau</p>	<p>Cefndir</p> <p>Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio ymgynghori â chyrrff cyhoeddus a nodir mewn rheoliadau. Mae'r adran hefyd yn gosod dyletswydd ar yr ymgynghoreion statudol hynny i ymateb.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p><u>Dyletswydd i ymgynghori a darparu ymateb</u></p> <p>Mae'r ddarpariaeth hon yn darparu'r sail statudol i Weinidogion Cymru neu awdurdod archwilio ymgynghori â chorff cyhoeddus a nodir mewn is-ddeddfwriaeth fel rhan o'r broses archwilio, a'r canlyniad yw bod dyletswydd ar yr awdurdod i ddarparu ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad hwnnw o fewn amserlen benodedig.</p> <p>Mae gan ymgynghoreion statudol wybodaeth ac arbenigedd mewn meysydd penodol ac, felly, ystyrir bod eu mewnbwn yn ystod y broses archwilio yn hanfodol. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r awdurdod archwilio gael ei lywio gan arbenigedd yn ystod y broses archwilio. Mae hefyd yn sicrhau y caiff datblygiad sydd wedi cael cydsyniad ei roi ar waith yn unol â'r gorchymyn cydsynio, gan leihau'r risg y bydd angen gwneud newidiadau ar ôl cael cydsyniad o ganlyniad i ffactorau annisgwyl.</p>

	<p>Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio i ymgynghori ag awdurdod cyhoeddus penodedig. Bydd rheoliadau'n pennu rhestr o ymgngoreion statudol a'r amgylchiadau lle dylid ymgynghori â nhw.</p> <p>Er enghraifft, ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ym mhob achos.</p> <p>Enghraifft arall yw yr ymgynghorir â'r Weinyddiaeth Amddiffyn pan fo datblygiad wedi'i leoli o fewn parthau diogelu statudol fel y'u cyflwynir o dan Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Meysydd Glanio wedi'i Diogelu, Safleoedd Technegol ac Ardaloedd Storio Milwrol) 2002, neu yn achos datblygiadau gwynt, pan fyddai gan unrhyw dyrbin uchafswm uchder blaen llafn o 11m neu fwy oddi ar lefel y ddaear a/neu ddiamedr rotor o 2.0m neu fwy.</p> <p>Bydd is-ddeddfwriaeth yn rhagnodi'r meini prawf ar gyfer ffurf, cynnwys a gofynion ymatebion i ymgngoriadau. Bydd hyn yn sicrhau bod mewnbwn priodol yn cael ei ddarparu yn ystod y broses archwilio.</p> <p>Er enghraifft, gall ymateb o sylwedd gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nad oes gan yr ymgynghorai unrhyw sylw i'w wneud neu nad oes ganddo wrthwynebiad; • hysbysu Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio am unrhyw bryderon a nodwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig a sut y gall y ceisydd fynd i'r afael â'r pryderon hyn; • hysbysu bod yr ymgynghorai yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig a nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiad. <p>Bydd is-ddeddfwriaeth hefyd yn nodi'r amserlen ar gyfer darparu ymateb. Bydd hyn yn cynnwys cyfnod penodedig, yn ogystal â'r opsiwn o gyfnod cytûn a gaiff ei gadarnhau'n ysgrifenedig gan yr ymgynghorai statudol a Gweinidogion Cymru.</p>
--	--

	<p><u>Trefniadau Adrodd Ymgynghoriad Arbenigol</u></p> <p>Ar sail y gofyniad i ddarparu ymateb o sylwedd, mae'n briodol i is-ddeddfwriaeth gyflwyno trefniadau monitro perfformiad er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion ymgynghori. Bydd is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod yr ymgynghorir ag ef o dan yr adran hon o'r Bil ddarparu adroddiad i Weinidogion Cymru ynghylch cydymffurfiaeth yr awdurdod â'r gofynion ymgynghori.</p> <p>Bydd adroddiadau'n ymwneud â chyfnod o 12 mis, a bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiadau hyn (fan lleiaf). Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sawl gwaith yr ymgynghorwyd â'r ymgynghorai statudol yn ystod y flwyddyn; • sawl gwaith y cyflwynwyd ymateb o sylwedd; • sawl gwaith y darparwyd ymateb (o sylwedd ai peidio) y tu allan i'r cyfnod penodedig ar gyfer ymateb, gan gynnwys y rhesymau pam na chydymffurfiwyd â'r cyfnod penodedig. <p>Bydd angen i'r adroddiadau hyn gael eu cyflwyno ar ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.</p>
<p>Adran 128</p> <p>Gwneud darpariaethau sy'n cyfyngu ar bŵer Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso gofynion</p>	<p>Cefndir</p> <p>Bwriedir i'r broses gydsynio a gyflwynir gan y Bil fod yn siop un stop ar gyfer cydsynio i seilwaith yng Nghymru. Mae'n darparu un broses, a bennir gan gyfres o reoliadau, i'w defnyddio er mwyn cydsynio i ystod eang o ddatblygiadau seilwaith ac mewn ystod eang o amgylchiadau gwahanol.</p> <p>Bwriedir i'r broses fod yn gymharol ragnodol, yn debyg i broses DAC. Er enghraifft, bydd is-ddeddfwriaeth yn rhagnodi'n fanwl sut y dylai ymgynghoriadau gael eu cynnal i lywio cais ac yn ystod archwiliad neu sut y bydd yr awdurdod archwilio yn hysbysu partïon â buddiant ar ôl cael cais dilys.</p>

Wrth fod yn rhagnodol, cydnabyddir y gall deddfwriaeth orfodi partïon i fodloni gofynion a all, mewn amgylchiadau prin, fod yn anghymesur â'r cais neu'i effeithiau tebygol. Mae'r Bil yn ceisio sicrhau proses archwilio dryloyw a theg ond mae hefyd am fod yn effeithlon ac yn amserol. Er mwyn parhau i gyflymu'r broses gydsynio, mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i hepgor gofynion gweithdrefnol penodol ond dim ond os ydynt o'r farn na fyddai hynny'n niweidiol i degwch gweithdrefnol.

Is-ddeddfwriaeth

Amgylchiadau ar gyfer hepgor gofynion

Enghreifftiau

Enghraifft 1: Cyhoeddusrwydd

Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu gofynion cyhoeddusrwydd. Yn achos llwybr llinol, fel rheilffordd neu ffordd newydd, gall hyn gynnwys sawl hysbysiad. Fodd bynnag, pan fydd cyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer diwygiad cymharol fach i'r cynllun, gall Gweinidogion Cymru ystyried nad oes rheswm dros roi cyhoeddusrwydd i'r diwygiad hwn yn yr un modd.

Enghraifft 2: Ymgysylltu

Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu gofynion y bydd yn rhaid i geisydd eu bodloni yn ystod yr ymgynghoriad cyn gwneud cais. Os bydd y rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal digwyddiadau cyhoeddus er mwyn ymgynghori ar ddatblygiad arfaethedig, gall fod achosion lle na fydd hyn yn ffisegol bosibl, er enghraifft, yn ystod pandemig.

Enghraifft 3: Ymgynghori

Bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu gofynion ymgynghori sy'n gysylltiedig â chywiro gwallau mewn penderfyniad. Yn dibynnu ar natur y cywiriad, gall fod yn briodol hepgor rhai o'r gofynion ymgynghori.

	<p>Mewn achosion o'r fath, byddai'n ddefnyddiol ac yn gymesur i Weinidogion Cymru arfer pŵer sy'n eu galluogi i hepgor gofyniad neu ofynion gweithdrefnol a nodir yn y Bil neu mewn rheoliadau. Er mwyn sicrhau tryloywder, lle caiff gofynion eu hepgor, byddai'n bwysig cyhoeddi'r rhesymau dros hepgor y gofynion hynny.</p> <p><u>Rheoliadau i gyfyngu ar y pŵer hwn</u></p> <p>O ganlyniad i natur y pŵer hwn, bwriedir cyfyngu arno drwy is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid iddi bennu'r gofynion y gellir eu datgymhwyso drwy gyfarwyddyd.</p> <p>Ar hyn o bryd, cynigir cyfyngu ar y pŵer hwn i weithdrefnau cyn gwneud cais (adrannau 29 a 30) a rhai gweithdrefnau gwneud cais (adrannau 31, 32, 33 a 35) yn ogystal â'r weithdrefn ar gyfer cywiro gwallau mewn cydsyniad (adrannau 84 a 85) neu newid neu ddirymu cydsyniad seilwaith (adran 137).</p> <p>Ni fwriedir, o dan unrhyw amgylchiadau, i'r is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn bosibl i roi cyfarwyddyd i ddatgymhwyso gofynion sy'n amddiffyn hawliau neu'n sicrhau na chaiff unrhyw droseddau eu cyflawni, fel gweithdrefnau sy'n ymwneud â phrynu gorfodol.</p> <p>Bydd rheoliadau hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd sy'n hepgor gofyniad a nodi'r rheswm dros yr hepgoriad.</p> <p>Bydd angen craffu ar yr is-ddeddfwriaeth drwy'r weithdrefn gadarnhaol.</p>
<p>Adran 129</p> <p>Gwneud rheoliadau am Geisiadau gan y Goron</p>	<p>Cefndir</p> <p>Wrth wneud cais am CS, mae amgylchiadau penodol lle gall fod angen ystyried y cais mewn ffordd wahanol neu hepgor rhai agweddau gweithdrefnol. Gall hyn fod yn berthnasol i Ddatblygiad y Goron, a lle gall datblygiad o'r fath gynnwys gwybodaeth sensitif lle na fydd ei datgelu er budd y cyhoedd o bosibl.</p>

	<p>Ymhellach, mewn achosion lle mae cyfarwyddydau diogelwch cenedlaethol yn gymwys, efallai y bydd y Goron yn dewis peidio â datgelu rhai o fanylion datblygiad arfaethedig am y rheswm y gallai hynny beryglu diogelwch cenedlaethol (neu ddiogelwch safle neu eiddo arall).</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu neu eithrio unrhyw ddarpariaeth statudol sy'n ymwneud â gweithdrefn cyn gwneud cais, gwneud cais, archwilio a gwneud penderfyniad mewn perthynas â CS, pan gaiff y cais ei wneud gan, neu ar ran, y Goron.</p> <p>Er enghraifft, gall rheoliadau nodi sut y caiff archwiliadau eu cynnal pan fo'r Goron yn dal gwybodaeth sensitif yn ôl neu pan na all materion sy'n ymwneud â diogelwch cenedlaethol gael eu datgelu i'r cyhoedd. Yn ogystal, gall gweithdrefnau arbennig gael eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth fel y gellir gwneud dyfarniad ynghylch rhai o ddatblygiadau'r Goron ar fyrder.</p>
--	--

RHAN 9 – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

Pŵer(au): Rhan 9, adrannau 133 a 141

Disgrifiad:

Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- nodi unrhyw ffordd arall o roi hysbysiadau a dogfennau eraill i berson,
- gwneud darpariaethau atodol, deilliadol, trosiannol neu ganlyniadol.

Bwriad y polisi:

Nodi unrhyw ffordd arall o roi hysbysiadau

Dyluniwyd y Bil i annog dull gweithio electronig fel sail i'r broses cydsynio i seilwaith sy'n golygu y gall unrhyw hysbysiad, gohebiaeth neu ddogfen sydd eu hangen gael eu cyflwyno neu'u dyroddi'n electronig a bod gan ohebiaeth electronig yr un statws â gohebiaeth bapur. Fodd bynnag, bydd modd rhoi unrhyw ddogfen ar fformat papur o hyd er mwyn galluogi'r partïon hynny sy'n well ganddynt beidio â chyfathrebu'n electronig i gymryd rhan.

Gwneud darpariaethau atodol, deilliadol, trosiannol neu ganlyniadol

Mae'r adran hon yn pennu pŵer gwneud rheoliadau y caiff Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio er mwyn gwneud darpariaethau atodol, deilliadol, trosiannol neu ganlyniadol. Caiff y rheoliadau hyn ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu (gan gynnwys deddfiad sydd wedi'i gynnwys yn y Bil hwn).

Maes Pwnc	Disgrifiad
<p>Adran 133</p> <p>Nodi unrhyw ffordd arall o roi hysbysiadau a dogfennau eraill i berson</p>	<p>Cefndir</p> <p>Caiff y mwyafrif o geisiadau mewn perthynas â seilwaith mawr eu cyflwyno'n electronig. Mae hyn yn bennaf oherwydd nifer y cynlluniau a dogfennau ategol sy'n gysylltiedig â phrosiectau o'r fath. Mae manteision i'w cyflwyno'n electronig yn yr ystyr y gall gwybodaeth gael ei throsglwyddo'n hawdd ar-lein a gall unrhyw hysbysiad lle mae angen anfon copi o'r cais at ymgynghorai gael ei gwblhau'n electronig.</p> <p>O safbwynt unrhyw hysbysiad, datganiad, dogfen arall neu gopiâu o ddogfennau eraill y cyfeirir atynt yn y Bil y mae'n ofynnol eu cyflwyno, eu rhoi neu'u cyflenwi, gellir eu cyflwyno, eu rhoi neu'u cyflenwi drwy'r ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ei gyflwyno i'r person y mae'n ofynnol ei roi iddo; • ei adael ym man preswyllo arferol neu fan preswyllo hysbys diwethaf y person hwnnw; • ei anfon drwy'r post mewn llythyr cofrestredig rhagdaledig; • ei anfon gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig. <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Bydd rheoliadau'n nodi unrhyw ffordd arall o roi hysbysiadau a dogfennau.</p> <p>Mae'r rhestr yn adran 133 yn gynhwysfawr ond mae dulliau cyfathrebu'n esblygu'n gyflym iawn ac efallai y bydd ffordd newydd o gyfathrebu yn y dyfodol a all gael ei hychwanegu at y rhestr yn adran 133. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu ffyrdd o roi hysbysiadau at y rhestr.</p>

Adran 141	<p>Cefndir</p> <p>Mae'r adran hon yn pennu pŵer gwneud rheoliadau y caiff Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio er mwyn gwneud darpariaeth atodol, ddeilliadol a chanlyniadol a darpariaethau trosiannol neu arbed. Caiff y rheoliadau hyn ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu (gan gynnwys deddfiad sydd wedi'i gynnwys yn y Bil hwn).</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Er mwyn sicrhau proses bontio esmwyth rhwng yr hen brosesau a'r gyfundrefn newydd, mae'n debygol y bydd angen trefniadau trosiannol. Mae'n amhosibl dweud ar hyn o bryd pa ddeddfwriaeth y gall fod angen ei haddasu ond, yn gyffredinol, enghraifft o ddarpariaeth drosiannol yw 'arbed' deddfwriaeth bresennol fel ei bod yn parhau i fod yn gymwys tra bod prosiect yn cael ei ystyried o dan hen gyfundrefn.</p>
-----------	--

ATODLEN 2 – DIGOLLEDU AM NEWID NEU DDIRYMU GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH

Pŵer(au): Paragraffau 1(3) a 2(1)

Disgrifiad:

Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- gwneud darpariaethau ynghylch y ffordd y caiff hawliad am ddigollediad am newid neu ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith (“GCS”) ei wneud.
- gwneud darpariaethau ynghylch isafswm y digollediad am ddibrisiant mewn perthynas â chais i newid neu ddirymu GCS.

Bwriad y polisi:

Os bydd gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael ei newid neu'i ddirymu gan Weinidogion Cymru heb i gais gael ei wneud, mae'r Bil yn galluogi'r rhai sydd â buddiant yn y tir i hawlio digollediad am unrhyw golledion ariannol sy'n digwydd o ganlyniad i'r newid neu'r dirymiad. Mae'r paragraffau hyn yn gwneud darpariaethau i Weinidogion Cymru bennu manylion yr weithdrefn ar gyfer gwneud hawliad am ddigollediad a phennu isafswm y digollediad am ddibrisiant.

Maes Pwnc	Disgrifiad
Paragraff 1(3) Newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith: gweithdrefn ddigolledu	Cefndir Pan fo GCS wedi cael ei roi, mae pwerau yn adran 87 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid neu ddirymu GCS, naill ai ar gais neu'n unochrog. Pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud newid i GCS yn unochrog a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y cydsyniad a roddwyd, neu'n dirymu GCS, gall fod goblygiadau ariannol i'r rhai sydd â buddiant yn y tir y mae'r cydsyniad yn ymwneud ag ef. Er enghraifft, gallai addasu neu

ddirymu GCS olygu bod y rhai sydd â buddiant yn y tir y mae'r GCS yn ymwneud ag ef yn colli incwm yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Yn y fath amgylchiadau, byddai'n rhesymol disgwyl iddynt gael eu digolledu am eu colled. Yn unol â hyn, gwneir darpariaeth i alluogi'r rhai sydd â buddiant yn y tir i gyflwyno hawliad am ddigollediad i Weinidogion Cymru.

Gan mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod dyfarnu ar gyfer GCS ac y bydd ganddynt y pŵer hefyd i ddiwygio neu ddirymu GCS, ystyrir ei bod yn briodol bod unrhyw hawliad mewn perthynas â digollediad yn cael ei wneud i Weinidogion Cymru. Ymhellach, fel yr awdurdod dyfarnu, ystyrir ei bod yn briodol hefyd fod unrhyw hawliad llwyddiannus am ddigollediad yn cael ei dalu gan Weinidogion Cymru, gan mai nhw fydd yn penderfynu a ddylid diwygio neu ddirymu GCS yn y pen draw.

Is-ddeddfwriaeth

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y ffordd y mae'n rhaid i hawliad am ddigollediad o dan y paragraff hwn gael ei wneud a phryd. Disgwylir y bydd is-ddeddfwriaeth yn cynnwys:

- yr hyn y dylai hawliad am ddigollediad ei gynnwys, gan gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:
 - manylion y ceisydd/asiant (gan gynnwys enw a chyfeiriad);
 - datganiad ynghylch p'un a oes gan yr hawlydd fuddiant yn y tir y mae'r gorchymyn perthnasol yn ymwneud ag ef neu a yw'n berson y mae'r gorchymyn cydsyniad datblygu yn cael effaith ar ei fudd;
 - cyfeirnod GCS gwreiddiol y gorchymyn perthnasol;
 - manylion y gwariant, y golled neu'r difrod y mae a wnelo'r hawliad ag ef;
 - dogfennau a thystiolaeth i ategu'r hawliad ac unrhyw ddogfennau ategol eraill;
- pennu amserlen o 6 mis i gyflwyno hawliad am ddigollediad.

<p>Paragraff 2(1)</p> <p>Digolledu am ddibrisiant: isafswm</p>	<p>Cefndir</p> <p>Mae'n bosibl bod achosion lle gall y tir sy'n gysylltiedig â GCS gwmpasu ardaloedd mawr a chroesi ffiniau sawl awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd dibrisiant tir yn effeithio ar rai rhannau o'r tir yn fwy nag eraill at ddibenion GCS ac, felly, swm y digollediad sy'n daladwy. Bydd hyn yn dibynnu ar sut mae'r diwygiad i'r GCS neu ddirymiad y GCS wedi effeithio ar bob un o'r rhannau hyn.</p> <p>Mae paragraff 2(1) yn galluogi rheoliadau i bennu gwerth ar gyfer dosrannu'r digollediad mewn perthynas â dibrisiant yng ngwerth tir.</p> <p>Is-ddeddfwriaeth</p> <p>Gwyddom fod y system Cynllunio Gwlad a Thref wedi nodi y gall digollediad am ddibrisiant yng ngwerth tir gael ei ddosrannu pan fo'r digollediad yn fwy nag £20. Byddwn yn ystyried a ddylai'r lefel hon fod yn gymwys i'r gyfundrefn hon.</p>
--	--

Eitem 3.1

SL(6)379 – Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Diwygio) (Cymru) 2023

Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990 (“**Rheoliadau 1990**”) yn gosod cyfyngiadau ar weithgareddau gwleidyddol cyhoeddus swyddogion llywodraeth leol mewn swyddi sy’n swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (“**swyddi dan gyfyngiadau**”).

Mae’r cyfyngiadau ar ffurf telerau ac amodau y bernir eu bod wedi eu hymgorffori yn nhelerau penodiad ac amodau cyflogaeth y swyddogion hynny (“**y cyfyngiadau**”).

Mae’r Rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfyngiadau i swyddogion cydbwyllgor corfforedig a sefydlwyd gan reoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 lle mae’r swyddogion hynny’n cael eu penodi i, neu eu cyflogi mewn swyddi dan gyfyngiadau.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i’r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae Rheoliad 3 yn mewnosod diffiniad newydd o “*awdurdod lleol*” yn rheoliad 2 o Reoliadau 1990 sy’n darparu, at ddibenion Rheoliadau 1990, fod awdurdod lleol yn cynnwys Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Yn yr Atodlen i Reoliadau 1990, sy’n cynnwys y cyfyngiadau, ceir nifer o gyfeiriadau at awdurdod lleol. Er enghraifft, mae paragraff 2C o’r Atodlen honno’n darparu ar gyfer terfynu penodiad ar unwaith mewn amgylchiadau pan fo deiliad swydd perthnasol yn rhoi hysbysiad i’r “awdurdod lleol” o fwriad i ddod yn ymgeisydd mewn etholiad yn y Senedd.



Felly, gofynnir i'r Llywodraeth egluro effaith arfaethedig rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn, i'r graddau y mae'n ymwneud â phob un o'r cyfeiriadau at "awdurdod lleol" sy'n ymddangos yn yr Atodlen i Reoliadau 1990.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Rheoliadau hyn:

"...yn rhan o becyn o offerynnau sy'n sail i sefydlu CBCau ac sy'n ceisio sicrhau eu bod yn ddarostyngedig i'r un gofynion gweinyddu a llywodraethu â llywodraeth leol."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran y pwynt adrodd cyntaf.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

18 Medi 2023



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 161

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 3.2

SL(6)380 – The National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) 2023

Background and Purpose

These Regulations revoke and replace the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) Regulations 2004 (“the 2004 Regulations”).

The Regulations set out the framework for General Medical Services (“GMS”) contracts under Part 4 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (“the Act”). The GMS contractor will hold a common Unified GMS contract (“Unified Contract”) with a local health board (“LHB”) for the provision of NHS primary medical services to patients, against which it is intended that they can easily demonstrate high levels of quality standards and care.

The Explanatory Memorandum to the Regulations states that Unified Contract aims to:

- simplify what services all GP practices in Wales provide as part of the NHS, and how they evidence assurance of service delivery;
- align general practice with developing service models for delivery of care, based around the ethos of prudent healthcare;
- make it easier for patients and healthcare professionals to understand responsibilities for the provision of services;
- reduce administrative bureaucracy;
- free up time and resource for service delivery; and
- enable use of data and technology to help plan resources and delivery of services.

Procedure

Negative.

The Regulations were made by the Welsh Ministers before they were laid before the Senedd. The Senedd can annul the Regulations within 40 days (excluding any days when the Senedd is: (i) dissolved, or (ii) in recess for more than four days) of the date they were laid before the Senedd.

Technical Scrutiny

The following 53 points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

- 1. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**



The Misuse of Drugs Act 1971 is referenced 6 times in the Regulations but that Act is not defined and no footnote or citation appears anywhere in the Regulations in relation to that Act.

2. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.

There are several instances of terms which are defined in regulation 3(1) not then being used correctly later in the Regulations, including:

- a) In regulation 2(a) and Schedule 6 there is reference to the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) Regulations 2004. However, this has been defined as “the 2004 Regulations” by regulation 3(1).
- b) In regulation 17(1), there is a reference to a “general medical services contract”. However, this has been defined in regulation 3(1) as “GMS contract”.
- c) In Schedule 2, in paragraph 1(2)(a) and (3), there are references to “Public Health Wales NHS Trust”. However, this body has been defined as “Public Health Wales” in regulation 3(1).

It is important that defined terms are used consistently or if a different meaning is intended that this is clearly explained.

3. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

Regulation 3 provides for a definition of “national disqualification”. The definition contains a sub-paragraph (iv) which states:

sections 83, 86, 103 or 105 (performers of pharmaceutical services and assistants) of the Act

Ordinarily, and in the remainder of the definition, references to statutory provisions are to the section number followed by the section heading. There is no reference to the section headings for sections 83, 86 or 103 in this definition (albeit section 86 is referenced with its full heading earlier in regulation 3 which may explain why the heading for section 86 is omitted here). Further, the heading of section 105 of the Act is “Supplementary Lists”. None of the section numbers referred to in the definition are entitled “Performers of pharmaceutical services and assistants”.

4. Standing Order 21.2(vii) – that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.

In regulation 3(1), in the definitions of “the 2004 Regulations” and the “Pharmaceutical Regulations”, in the Welsh text, the word “(Wales)” in the titles of those SIs has been incorrectly translated as “(Mawrth)” which can mean Tuesday, the month of March, the planet Mars, or the Roman god of war Mars, depending on the context.



5. Standing Order 21.2(vii) – that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.

In regulation 3(1), in the definition of “adjudicator”, in the Welsh text, the translation has misinterpreted the meaning of “paragraph 106(5) of Schedule 3” by linking that Schedule to “the Act” mentioned earlier in the reference to “section 7(8) of the Act” in that definition. This is done by adding the female preposition “iddi” after the reference to “paragraph 106(5) of Schedule 3” in the Welsh text. Therefore, the reader of the Welsh text is misled to believe that paragraph 106(5) of Schedule 3 is found in the Act. But, it is referring to the paragraph 106(5) of Schedule 3 found later in these Regulations.

6. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 3(1), in the definition of “Local Health Board”, the phrase “unless the context otherwise requires” has been used. However, the Welsh Government’s drafting guidelines, Writing Laws for Wales, paragraph 4.8(5), states that it generally is not helpful to the reader to use that phrase and that it should be explained where the definition applies. Further explanation would therefore assist in this regard.

7. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

Regulation 3(1) provides for a definition of “online practice profile” which makes reference to the NHS website. “NHS website” is not defined in the Regulations, and as there are numerous NHS websites across the UK and within Wales there may be confusion as to which website is being referred to.

8. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

Regulation 3(1) provides for a definition of “optometrist independent prescriber” which includes optometrists registered in the register of visiting optometrists from relevant European States maintained under section 8B(1)(a) of the Opticians Act 1989. Section 8B was repealed by the European Qualifications (Health and Social Care Professions) (Amendment etc.) (EU Exit) Regulations 2019 (“the 2019 Regulations”). This repealed provision is also referred to in the definition of paragraph (d) of the definition of “supplementary prescriber”. Clarification is required as to whether the saving provision in the 2019 Regulations applicable to section 8B(1)(a) remains applicable or whether reference to section 8B(1)(a) is now obsolete. If the saving provision remains applicable then further information on this point would have been useful in a footnote.

9. Standing Order 21.2(vii) – that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.

In regulation 3(1), in the definition of “optometrist independent prescriber”, in the Welsh text, the term “dispensing opticians” has been translated as “optegwyr fferyllol”. This suggests to



the reader of the Welsh text that it means “pharmaceutical opticians” or “pharmacy opticians” in the context of the terminology used for “dispensing” elsewhere in these Regulations. The Welsh Government’s website has standardised the translation of the term with status A as “optegwyr cyflenwi”, and “optegwyr gweinyddu” would also appear to be another possibility as “gweinyddu” has been used for “dispensing” in these Regulations.

10. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

Regulation 3(1) provides for a definitions of “paramedic independent prescriber”, “registered paramedic”, “registered radiographer” and “therapeutic radiographer independent prescriber”, all of which refer to the Health and Care Professions Council register. Regulation 3(1) also provides definitions for “pharmacist independent prescriber”, “registered pharmacist” and “supplementary prescriber” which refer to the General Pharmaceutical Council Register. Unlike other registers such as these which are referred to in the Regulations, these registers are not defined, nor is there any information included as to the statutory or other basis for the existence of such registers in these definitions.

11. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

Regulation 3(1) provides for a definition of “pharmaceutical services” and states that it includes “directed services”, but the Regulations do not define or provide any further information as to the meaning of “directed services”, which would assist the reader in understanding this definition.

12. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.

Regulation 3(1) provides for a definition of “physiotherapist independent prescriber” which refers to a person who is registered under article 5 of the Health and Social Work Professions Order 2002. There is no such Order. The citation in the footnote indicates that the correct Order is the Health Professions Order 2001.

13. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

Regulation 3(1) provides for a definition of “Pre-employment Checks Standards” and states that they must include elements of the NHS Employment Checks Standards published by the NHS Confederation. It appears that these Standards are in fact published by NHS Employers, which is the employers’ organisation for the NHS England. It would be helpful if the Welsh Government could confirm whether this is correct, and why only five of the six Standards are included in the definition of “Pre-employment Checks Standards” (the work health assessments standard being omitted).

14. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.



Regulation 3(1) provides for a definition of “prescription form” which makes reference to an “NHS Foundation Trust”, but this latter term is not defined in regulation 3(1).

15. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

Regulation 3(1) provides for a definition of “regulatory or supervisory body” which includes “any other body listed in section 25(2) of the National Health Service Reform and Health Care Professions Act 2002”. Section 25(2) sets out the functions of the Professional Standards Authority for Health and Social Care and does not include a list of bodies. Clarification is therefore required as to whether the reference should in fact be to section 25(3).

16. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

Regulation 3(1) provides for a definition of “repeatable prescription” which makes reference to a “dispensing doctor”. All of the other terms in the definition are defined elsewhere but a definition for the term “dispensing doctor” is not provided. “Dispensing doctor” is also referred to in paragraph 60(2) of Schedule 3. It would be useful for the reader to have clarity on who a dispensing doctor is.

17. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.

In regulation 3(1), in the definition of “repeatable prescriber”, there are drafting errors in paragraphs (b), and (c)(ii) and (iii) where there are references to “the 2006 Act”. However, there is no definition of “the 2006 Act” in these Regulations and it appears to be referring to the defined term “the Act”.

18. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.

Regulation 5(3)(c) refers to the National Health Service (Vocational Training) Regulations (Northern Ireland) 1998. The reference should be to the Medical Practitioners (Vocational Training) Regulations (Northern Ireland) 1998.

19. Standing Order 21.2(vii) – that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.

In regulations 5(5) and 6(2)(f), in the Welsh text, “December” has been incorrectly translated as the month of “March”.

20. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation

Regulation 6(2)(f) makes reference to a person who has been convicted in the UK of a criminal offence (other than murder) committed on or after 14 December 2001 and has been



sentenced to a term of imprisonment of longer than 6 months. Could clarification be provided as to why a specific date is necessary?

21. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation

Regulation 6(2)(g) and paragraph 119(3)(h) of Schedule 3 refers to offence committed on or after 26 August 2002. Could clarification be provided as to why a specific date is necessary?

